

Cynllun Lleol Adneuo Caerdydd

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyngor Caerdydd

Ebrill 2026

Gwybodaeth o ansawdd

Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Dilyswyd gan	Cymeradwywyd gan
Stephen Kenny Ecolegydd	Amelia Kent Prif Ecolegydd	Dr James Riley Cyfarwyddwr Technegol	Dr James Riley Cyfarwyddwr Technegol
Damian Weitowitz Prif Ecolegydd			

Hanes Diwygio

Adolygu	Dyddiad diwygio	Manylion	Awdurdodwyd	Enw	Swydd
0	01/11/24	Drafft	JR	James Riley	Cyfarwyddwr Technegol
1	12/12/24	Terfynol	JR	James Riley	Cyfarwyddwr Technegol
2	18/02/26	Diweddarwyd er mwyn cynnwys sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru	JR	James Riley	Cyfarwyddwr Technegol
3	07/04/26	Diweddariad mewn ymateb i sylwadau pellach gan CNC			

Rhestr Ddosbarthu

# Copïau Caled	Angen PDF	Enw Cymdeithas / Cwmni

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Caerdydd

Paratowyd gan:

AECOM Limited
Midpoint, Alencon Link
Basingstoke
Hampshire RG21 7PP
Y Deyrnas Unedig

Ff: +44(0)1256 310200
aecom.com

© Hawlfraint 2026 AECOM Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Limited ("AECOM") er defnydd ein cleient (y "Cleient") yn unig, yn unol ag egwyddorion ymgynghorol a dderbynnir yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a'r cylch gorchwyl a gytunwyd rhwng AECOM a'r Cleient. Nid yw AECOM wedi gwirio unrhyw wybodaeth a ddarperir gan drydydd parti ac y cyfeirir ati yma, oni nodir yn wahanol yn y ddogfen. Ni all unrhyw drydydd parti ddibynnu ar y ddogfen hon heb gytundeb ysgrifenedig a datganedig AECOM ymlaen llaw.

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Cefndir i'r prosiect	1
Deddfwriaeth	1
Strwythur yr adroddiad	2
2. Methodoleg	2
Cyflwyniad	2
Asesiad cymesur	2
Proses yr ARhC	3
Cwmpas Ffisegol	4
Y cwmpas 'mewn cyfuniad' – cynlluniau a phrosiectau eraill	4
Cam Un: Prawf Effaith Sylweddol Tebygol (sgrinio)	5
Cam Dau: Asesiad Priodol	5
3. Safleoedd Cynefin Perthnasol	6
AGA / Ramsar Aber Hafren	6
Cyflwyniad	6
Nodweddion Cymhwyso AGA	6
Nodweddion Cymhwyso Safle Ramsar	7
Amcanion Cadwraeth AGA	8
Bygythiadau a Phwysau i Gyfanrwydd Safle	8
ACA Aber Afon Hafren	9
Cyflwyniad	9
Nodweddion Cymhwyso	9
Amcanion Cadwraeth	10
Bygythiadau a Phwysau i Gyfanrwydd Safle	10
ACA Coed Ffawydd Caerdydd	11
Cyflwyniad	11
Nodweddion Cymhwyso	11
Amcanion Cadwraeth	11
Bygythiadau / Pwysau i Gyfanrwydd Safle	12
ACA Afon Wysg	12
Nodweddion Cymhwyso ACA	12
Amcanion Cadwraeth ACA	12
4. Llwybrau Effaith	13
Pwysau Hamdden ac Aflonyddwch	14
Cyflwyniad	14
Difrod Mecanyddol/Sgraffiniol a Gorfaethu	14
Aflonyddwch	14
Colli Tir â Chysylltiad Swyddogaethol	15
Swm, Lefel a Llif Dŵr	15
Ansawdd Dŵr	16
Llygredd Atmosfferig	17
Gwasgfa Arfordirol	20
5. Prawf Effeithiau Sylweddol Tebygol	21
Pwysau Hamdden	21
ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren	21
ACA Coed Ffawydd Caerdydd	21
Colli Tir â Chysylltiad Swyddogaethol	22
AGA Aber Hafren / Ramsar	22
Ansawdd Dŵr	22

Cynllun Lleol Adneuo	
ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.....	22
Swm, Lefel a Llif Dŵr	23
ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.....	23
Llygredd Atmosfferig	23
AACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren	23
ACA Coed Ffawydd Caerdydd	24
Gwasgfa Arfordirol.....	24
ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.....	24
Sgrinio Polisiau y Cynllun Lleol	24
6. Asesiad Priodol	26
Pwysau Hamdden	26
ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.....	26
Sylfaen Dystiolaeth Bresennol.....	26
Cychod hamdden	27
Arolwg ymwelwyr Lydney	28
Arolwg ymwelwyr Stroud.....	28
Arolwg ymwelwyr Sir Fynwy a Thorfaen.....	28
Goblygiadau i CDLIN Caerdydd	29
Lliniaru drwy Strategaeth Osgoi Effaith am gyfnod Dros Dro	
ACA Coed Ffawydd Caerdydd	31
Tir â Chysylltiad Swyddogaethol	33
AGA Aber Hafren / Ramsar	33
Ansawdd Dŵr	35
AGA / Ramsar / ACA Aber Afon Hafren.....	35
Carthffrwd (Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a Gorlifiadau Carthffosydd Cyfunol)	35
Swm, Lefel a Llif Dŵr	37
ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.....	37
Llygredd Atmosfferig	38
Safle AGA/ACA/Ramsar Aber Afon Hafren	39
ACA Coed Ffawydd Caerdydd	40
Gwasgfa Arfordirol.....	40
AGA / Ramsar / ACA Aber Afon Hafren.....	40
7. Casgliad	42
Atodiad A Map o Safleoedd Cynefin.....	43
Atodiad B Tabl Sgrinio	44
Atodiad C Canlyniadau Arolwg Hamdden ACA Coed Ffawydd Caerdydd	79
Atodiad D Canlyniadau Modelu Ansawdd Aer.....	80

Ffigurau

Ffigur 1: Cyfraniad traffig at grynodiadau llygryddion ar wahanol bellteroedd i ffwrdd o heol (Ffynhonnell: yr Adran Drafnidiaeth).....	20
---	----

Tablau

Tabl 1: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) sy'n gwasanaethu datblygiadau preswyl a chyflogaeth yng Nghaerdydd sydd ar lwybr parhad hydrolegol posibl â safle ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.....	17
Tabl 2: Prif ffynonellau ac effeithiau llygryddion aer ar gynefinoedd a rhywogaethau.....	17
Tabl 3. Safleoedd y Cynllun Lleol sydd dros 2ha ac o fewn 5km i AGA/Ramsar Aber Afon Hafren.....	34

Tabl 4. Tabl Sgrinio Polisi	44
Tabl 5. Tabl Sgrinio Polisi	74

1. Cyflwyniad

Cefndir y prosiect

- 1.1 Penodwyd AECOM gan Gyngor Dinas Caerdydd i gynorthwyo i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o fersiwn ddrafft y Cynllun Lleol newydd ar gyfer Caerdydd (y cyfeirir ato yma o hyn allan fel y 'Cynllun Lleol' neu'r 'Cynllun'). Amcanion yr asesiad yw:
 - Nodi unrhyw agweddau ar y Cynllun Lleol a fyddai'n achosi effaith sylweddol debygol ar unrhyw Safleoedd Cynefin, sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), safleoedd ymgeisiol ACA (yACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) ac AGAau posibl (AGApau) ac fel mater o bolisi Llywodraeth, safleoedd Ramsar, ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill;
 - Penderfynu a fyddai angen asesiad priodol; a
 - Cynnal dadansoddiad i lywio'r asesiad priodol, gyda golwg ar weld a fyddai unrhyw agweddau ar y cynllun yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Cynefin.
- 1.2 Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi ei diweddarau er mwyn ystyried sylwadau a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2025.

Deddfwriaeth

- 1.3 Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020 o dan y telerau a nodir yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 ("y Ddeddf Ymadael"). Er nad yw'r DU bellach yn aelod o'r UE, mae gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn parhau fel y nodir yn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019¹. Nod y Gyfarwyddeb yn y pen draw yw "*cynnal neu adfer, ar statws cadwraeth ffatriol, cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o ffawna gwylt a fflora o ddiddordeb Cymunedol*" (Cyfarwyddeb Cynefinoedd, Erthygl 2(2)).
- 1.4 Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus i safleoedd cynefin. Dim ond ar ôl canfod na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd dan sylw y gellir caniatáu cynlluniau a phrosiectau. Efallai y bydd cynlluniau a phrosiectau sydd ag effeithiau andwyol disgwylidig ar safleoedd Cynefin yn dal i gael eu caniatáu os nad oes dewisiadau rhesymol amgen a bod yna Resymau Hanfodol Sef Er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (RhHEBCTPh) ynghylch pam y dylent fynd yn eu blaen. Mewn achosion o'r fath, byddai angen gwneud iawn i sicrhau cyfanrwydd cyffredinol rhwydwaith y safleoedd.
- 1.5 Er mwyn canfod a fydd effaith ai peidio ar gyfanrwydd safleoedd, dylid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r cynllun neu'r prosiect dan sylw:

¹ Nid yw'r rhain yn disodli Rheoliadau 2017 ond maent yn set arall o welliannau.

Blwch 1. Sail ddeddfwriaethol ar gyfer Asesiad Priodol

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)

Mae'r rheoliadau'n datgan:

"Rhaid i awdurdod cymwys, cyn penderfynu... cydsynio i gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd ... gynnal asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle gan ystyried amcanion cadwraeth y safle hwnnw... Dim ond ar ôl canfod na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd y caiff yr awdurdod cymwys gytuno i'r cynllun neu'r prosiect ."

- 1.6 Dros y blynyddoedd, mae'r term 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC) wedi'i ddefnyddio'n gyffredin i ddisgrifio'r broses gyffredinol a nodir yn y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau, o sgrinio hyd at RhHEBCTPh. Mae hyn wedi codi i wahaniaethu rhwng y broses gyffredinol â'r cam unigol a ddisgrifir mewn cyfraith fel 'asesiad priodol'. Gydol yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio'r term Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y broses gyffredinol.
- 1.7 Yng ngwanwyn 2018 cadarnhaodd dyfarniad 'Sweetman' Llys Cyfiawnder Ewrop² na ddylai 'lliniaru' (h.y. mesurau sy'n cael eu cyflwyno'n benodol i osgoi neu leihau effaith niweidiol ar Safle Cynefinoedd a fyddai fel arall yn digwydd) gael ei ystyried wrth ffurfio barn ar Effeithiau Arwyddocaol Tebygol. Yn hytrach, dylid ystyried lliniaru ar y cam Asesiad Priodol yn unig. Nid yw asesiad priodol yn derm technegol: yn syml, mae'n golygu 'asesiad sy'n briodol' ar gyfer y cynllun neu'r prosiect dan sylw. O'r herwydd, nid yw'r gyfraith yn rhagnodi'n fwiadol yr hyn ddylai gynnwys na sut y dylid ei gyflwyno; mae'r rhain yn benderfyniadau i'w gwneud fesul achos gan yr awdurdod cymwys. Gan fod yr adroddiad hwn yn cynnwys prawf o effaith sylweddol debygol, nid yw mesurau lliniaru felly yn cael eu hystyried ar y cam hwn.

Strwythur yr adroddiad

- 1.8 Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn crynhoi'r fethodoleg ar gyfer yr asesiad. Mae Adran 3 yn nodi gwybodaeth gefndir am y Safleoedd Cynefin a drafodir yn yr adroddiad hwn. Mae Adran 4 yn nodi'r llwybr posibl lle gallai effeithiau andwyol godi ar safleoedd cynefin gwarchoddedig. Mae Adran 5 yn trafod y canlyniadau yn ôl y prawf effeithiau arwyddocaol tebygol ac mae Adran 5 yn cwmpasu'r Asesiad Priodol. Mae'r tabl sgrinio polisi cychwynnol llawn i'w weld yn Atodiad B.

2. Methodoleg

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adran hon yn nodi ein dull a'n methodoleg ar gyfer ymgymryd â'r ARhC. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei hun yn gweithredu'n annibynnol ar y system Polisi Cynllunio, gan ei fod yn ofyniad cyfreithiol Offeryn Statudol ar wahân.


Asesiad cymesur

- 2.2 Mae ARhC sy'n gysylltiedig â phrosiect yn aml yn gofyn am waith cynnal arolygon pwrpasol a chynhyrchu data newydd er mwyn pennu arwyddocâd effeithiau andwyol yn gywir. Mewn geiriau eraill, edrych y tu hwnt i risg unrhyw effaith i ragfynegiad â chyfiawnhad o'r effaith debygol wirioneddol ac i ddatblygu mesurau osgoi neu liniaru.
- 2.3 Fodd bynnag, mae'r canllawiau Cymunedau a Llywodraeth Leol (CLG) drafft³ yn ei gwneud yn glir, wrth weithredu ARhC cynlluniau defnydd tir, y dylid ymgymryd â'r Asesiad Priodol ar lefel o fanylion sy'n briodol ac yn gymesur â lefel y manylion a ddarperir yn y cynllun ei hun:

² People Over Wind and Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)

³ CLG (2,006) Planning for the Protection of European Sites, Consultation Paper

- 2.4 'Dylai cynhwysedd y gwaith asesu [Priodol] a wneir fod yn gymesur â chwmpas daearyddol yr opsiwn a natur a hyd a lled unrhyw effeithiau a nodwyd. Nid oes angen gwneud AP yn fwy manwl, na defnyddio mwy o adnoddau, nag sy'n ddefnyddiol i'w ddioben. Byddai'n amhriodol ac yn anymarferol asesu effeithiau [cynllun defnydd tir strategol] o ran y manylder a fyddai fel arfer yn ofynnol ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) prosiect.'
- 2.5 Mewn geiriau eraill, derbynir yn ddealliedig y gellir haenu asesiad priodol ac nad yw pob effaith o reidrydd yn briodol i'w hystyried i'r un manylder ar bob haen (**Blwch 2**).
- 2.6 Ar gyfer Cynllun Lleol, nid yw lefel y manylion ynghylch y datblygiadau a gyflwynir fel arfer yn ddigonol i wneud asesiad manwl iawn o arwyddocâd effeithiau. Er enghraifft, bydd angen manylion helaeth ar ddyluniad tref, gan gynnwys manau gwyrdd a'r math o ddatblygiad sydd i'w gyflawni mewn lleoliadau penodol, i bennu'n llawn a phenodol effeithiau arwyddocaol anheddiad newydd, ac eto ni fydd y data hyn yn cael ei benderfynu tan y camau dilynol.
- 2.7 Y dull mwyaf cadarn y gellir ei amddiffyn yn absenoldeb manylder trylwyr ar y lefel hon yw defnyddio'r egwyddor ragofalus. Mewn geiriau eraill, ni roddir budd yr amheuaeth fyth i gynllun; rhaid rhagdybio y bydd polisi/mesur yn debygol o gael effaith sy'n arwain at effaith andwyol sylweddol ar safle Cynefin oni bai y gellir ei sefydlu'n glir fel arall.




Blwch 2. Haenu Cynlluniau Defnydd Tir mewn ARhC

Proses yr ARhC

- 2.8 Mae'r ARhC wedi'i gyflawni yn absenoldeb parhaus canllawiau ffurfiol gan Lywodraeth. Rhyddhaodd CLG bapur ymgynghorol ar Asesiad Priodol o Gynlluniau yn 2006⁴. Hyd yma, nid oes unrhyw ganllawiau ffurfiol pellach wedi dod i'r amlwg.
- 2.9 Mae Blwch 3 isod yn amlinellu camau'r ARhC yn unol â'r canllawiau CLG cyfredol. Mae'r camau yn ailadroddol yn y bôn, yn cael eu hailystyried yn ôl yr angen mewn ymateb i wybodaeth fanylach, argymhellion ac unrhyw newidiadau perthnasol i'r ddogfen gynllunio hyd nes na fydd unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol ar ôl.

⁴ Ibid



Box 3. Dull Pedwar Cam ar gyfer Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd.

- 2.10 Yn ymarferol, mae'r amlinelliad eang hwn yn gofyn am rywfaint o ddiwygio er mwyn bwydo i gynllun defnydd tir sy'n datblygu megis Cynllun Lleol. Mae'r broses ganlynol wedi'i mabwysiadu ar gyfer cyflawni'r ARhC.

Cwmpas ffisegol

- 2.11 Bydd cwmpas ffisegol yr aseiad h.y. yr ystod o safleoedd Cynefin sydd i'w hystyried yn seiliedig ar gyfuniad o olrhain llwybrau effaith a defnyddio pellteroedd sy'n deillio o astudiaethau amrywiol.
- 2.12 Y Safleoedd Cynefin sy'n berthnasol i'r ARhC hwn yw:
- AGA Aber Afon Hafren (Cymru) – o fewn ardal y Cynllun Lleol
 - ACA Coed Ffawydd Caerdydd – o fewn ardal y Cynllun Lleol
 - ACA Aber Afon Hafren (Cymru) – o fewn Ardal y Cynllun Lleol
 - Ramsar Aber Afon Hafren (Cymru) - o fewn Ardal y Cynllun Lleol
 - ACA Aber Afon Hafren (Lloegr) – ~7.3km i'r de-ddwyrain o Ardal y Cynllun Lleol
 - ACA Afon Wysg - ~ 6.6km i'r gogledd-ddwyrain o Ardal y Cynllun Lleol
- 2.13 Mae'r safleoedd bywyd gwyllt hyn sy'n bwysig yn rhyngwladol yn cael eu nodi yn Atodiad A, Ffigur 1. Mae'r safleoedd hyn yn gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Ardal y Cynllun Lleol neu o fewn cylch dylanwad cyfagos.

Y cwmpas 'mewn cyfuniad' – cynlluniau a phrosiectau eraill

- 2.14 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i beidio ag ystyried effeithiau unrhyw gynllun defnydd tir sy'n cael ei asesu ar ei ben ei hun ond ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill a allai hefyd fod yn effeithio ar y safleoedd Cynefin dan sylw.
- 2.15 Yn ymarferol felly, mae 'asesiadau cyfunol' ar ei bwysicaf pan fyddai Cynllun Lleol fel arall yn cael ei sgrinio allan am fod y cyfraniad unigol yn ddbwys. Nid yw'n ymarferol nac yn angenrheidiol asesu effeithiau 'cyfunol' y Cynllun Lleol yng nghyd-destun pob cynllun a phrosiect arall yn y rhanbarth. Y prif gynlluniau a phrosiectau eraill sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer eu heffeithiau cyfunol yw:
- Cynllun Lleol Casnewydd

- Cynllun Lleol Bro Morgannwg
- Cynllun Lleol Sir Fynwy
- Cynllun Lleol Torfaen
- Cynllun Lleol Caerffili
- Cynllun Lleol Rhondda Cynon Taf

Cam Un: Prawf Effaith Sylweddol Debygol (sgrinio)

- 2.16 Cam cyntaf unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw prawf Effaith Sylweddol Debygol (ESD) - asesiad lefel uchel yn y bôn i benderfynu a oes angen y cam dilynol llawn a elwir yn Asesiad Priodol. Y cwestiwn hanfodol yw:

“A yw'r prosiect, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau perthnasol eraill, yn debygol o arwain at effaith sylweddol ar safleoedd Cynefin?”

- 2.17 Yr amcan yw 'diystyru' y cynlluniau a'r prosiectau hynny (neu ddyraniadau safle/polisïau) y gellir dweud nad ydynt, heb unrhyw arfarniad manwl, yn debygol o arwain at effeithiau andwyol sylweddol ar safleoedd Cynefin, fel arfer oherwydd nad oes mecanwaith na llwybr ar gyfer rhyngweithiad andwyol â safleoedd Cynefin. Mae'r cam hwn yn cael ei drafod yn Adran 4 yr adroddiad hwn.
- 2.18 Wrth werthuso sylweddol, mae AECOM wedi dibynnu ar ein barn broffesiynol yn ogystal â chanlyniadau ymgynghori blaenorol â rhanddeiliaid ynghylch effeithiau datblygu ar y safleoedd Cynefin a ystyriwyd yn yr asesiad hwn.

Cam Dau: Asesiad Priodol

- 2.19 Bydd safle(oedd) Cynefin sydd wedi eu 'sgrinio i mewn' yn ystod y Dasg flaenorol yn cael asesiad manwl ar effaith y polisïau ar gyfanrwydd y Safle(oedd) Cynefin. Bydd mesurau osgoi a lliniaru i osgoi effeithiau sylweddol andwyol yn cael eu hymgorffori lle bo angen.
- 2.20 Fel y sefydlwyd gan gyfraith achosion, nid yw 'asesiad priodol' yn derm technegol; mae'n golygu'n syml pa bynnag asesiad pellach sy'n angenrheidiol i gadarnhau a fyddai effeithiau andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Cynefin nad ydynt wedi cael eu diystyru ar y cam Effeithiau Sylweddol Tebygol. Gan nad yw'n derm technegol nid oes iddo fethodoleg sefydledig gadarn ac eithrio ei fod yn ei hanfod yn golygu ailadrodd y dadansoddiad ar gyfer y cam effeithiau sylweddol tebygol, ond i fwy o fanylder ar nifer llai o bolisïau a safleoedd, y tro hwn gyda golwg ar benderfynu a fyddai yna effeithiau andwyol ar gyfanrwydd. Ar gyfer y llwybr ansawdd aer, yr asesiad priodol yw lle adroddir yn fanwl am fodelu traffig ac ansawdd aer.
- 2.21 Un o'r ystyriaethau allweddol yn ystod asesiad priodol yw a oes mesurau lliniaru ar gael a fyddai'n mynd i'r afael yn llwyr â'r effeithiau posibl. Yn ymarferol, mae'r asesiad priodol yn cymryd unrhyw bolisïau neu ddyraniadau na ellid eu diystyru yn dilyn y dadansoddiad Effaith Sylweddol Debygol lefel uchel ac yn dadansoddi yn fanylach eu potensial i greu effaith, gyda'r bwriad o ddod i'r casgliad a fyddai yna effaith andwyol ar gyfanrwydd ai peidio (mewn geiriau eraill, tarfu ar strwythur a swyddogaeth gydlynol y safle(oedd) Cynefin)).
- 2.22 Mae'r dadansoddiad i ddechrau yn dadansoddi pob polisi neu ddyraniad safle i sgrinio ar sail llwybrau effaith posibl. Mae hyn yn cael ei gofnodi yn Nhabl 4 yn Atodiad B. Crynhoir canlyniadau'r sgrinio hwnnw yn Adran 4. Yna caiff polisïau na ellir eu sgrinio allan eu cyflwyno i asesiad priodol yn Adran 5. Felly, dylid nodi nad yw Atodiad B yn cyflwyno crynodeb o'r broses asesu gyfan.

3. Safleoedd Cynefin Perthnasol

AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

Cyflwyniad

- 3.1 Lleolir AGA / safle Ramsar Aber Afon Hafren rhwng ffiniau Cymru a Lloegr yn ne-orllewin gwledydd Prydain. Mae'n aber mawr o 24,700.91ha gyda fflatiau llaid rhynglanwol helaeth, fflatiau tywod, llwyfannau creigiog ac ynysoedd bach. Mae gan yr arfordir ymyl morfa heli, corysdd pori, ffosydd dŵr croyw a lled hallt. Mae gwely'r môr yn fanciau tywod creigiog, graean ac is-lanw yn bennaf. Oherwydd siâp twndis yr aber, mae Afon Hafren yn gweld yr amrediad llanw uchaf ond un yn y byd.
- 3.2 Oherwydd y cyflwr llanw eithafol hwn, mae'r AGA /safle Ramsar yn gartref i gydosodiadau o blanhigion ac anifeiliaid sy'n goddef yr amodau ffisegol yn y llaid, tywod a chraig sydd wedi'u hysgubo gan y llanw. Mae'r gymuned o anifeiliaid di-asgwrn cefn yn brin o rywogaethau ac yn dal dwysedd uchel o abwyd y môr a llyngyr. Mae'r rhain yn ffynonellau bwyd pwysig ar gyfer rhydwy'r mudol a gaeafu. Mae gan yr AGA / safle Ramsar bwysigrwydd arbennig fel man aros ar gyfer rhydwy'r mudol y gwanwyn a'r hydref, ac elyrch, hwyaid a rhydwy'r gaeafu. Mae gan y safle hefyd barth rhynglanwol helaeth, o ganlyniad i'w amrediad llanwol. Mae rhan agosaf AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o fewn ffin weinyddol Caerdydd.
- 3.3 Heblaw am ei nodweddion adarol, mae safle Ramsar Aber Afon Hafren yn arbennig o bwysig am ei physgod mudol (maen prawf 4) a'i chasgliad cyffredinol o bysgod (maen prawf 8). Er enghraifft, mae'r aber yn gweithredu fel sianel ar gyfer eog mudol, brithyll y môr, llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon, herlyn, gwangen a llyswennod rhwng y môr ac afonydd mewndirol. Mae'r casgliad o bysgod yn yr aber gyda'r mwyaf amrywiol ym Mhrydain, gyda dros 110 o rywogaethau wedi eu cofnodi.

Nodweddion Cymhwyso AGA⁵

- 3.4 Mae'r safle hon yn gymwys o dan **Erthygl 4.1** y Gyfarwyddeb (79/409/EEC) drwy gynnal y poblogaethau canlynol (mae'r holl gyfrifo ar adeg eu dynodi a gallent fod wedi newid ers hynny) o rywogaethau o bwys Ewropeaidd a restrir yn Atodiad I y Gyfarwyddeb:

Gaeafu

- Alarch Bewick *Cygnus columbianus bewickii*, 280 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 4.0% o'r boblogaeth sy'n gaeafu ym Mhrydain Fawr (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)

- 3.5 Mae'r safle hwn hefyd yn gymwys o dan **Erthygl 4.2** y Gyfarwyddeb (79/409/EEC) drwy gefnogi'r poblogaethau canlynol o rywogaethau mudol o bwysigrwydd Ewropeaidd:

- 3.6 Ar eu taith

- Cwtiad torchog *Charadrius hiaticula*, 655 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 1.3% o'r boblogaeth sy'n gaeafu o Ewrop/Gogledd Affrica (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)

- 3.7 Gaeafu

- Gylfinir *Numenius arquata*, 3,903 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 1.1% o'r boblogaeth fridio sy'n gaeafu o Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)
- Pibydd y mawn *Calidris alpina alpina*, 44,624 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 3.2% o'r boblogaeth sy'n gaeafu o Ogledd Siberia/Ewrop/Gorllewin Affrica (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)
- Hwyaden gynffonfain *Anas acuta*, 599 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 1.0% o'r boblogaeth sy'n gaeafu o Ogledd-orllewin Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)
- Coesgoch *Tringa totanus*, 2,330 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 1.6% o'r boblogaeth sy'n gaeafu o Ddwyrain yr Iwerydd (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)

⁵ <http://archive.jncc.gov.uk/default.aspx?page=2066> [Cyrchwyd ar 25/04/2023]

- Hwyaeden yr eithin *Tadorna tadorna*, 3,330 o unigolion sy'n cynrychioli o leiaf 1.1% o'r boblogaeth sy'n gaeafu o Ogledd-orllewin Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6)

Cymhwyster cydosodiad: Gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol

- 3.8 Mae'r ardal yn gymwys o dan **Erthygl 4.2** y Gyfarwyddeb (79/409/EEC) drwy gynnal o leiaf 20,000 o adar dŵr yn rheolaidd.
- 3.9 Dros y gaeaf, mae'r ardal yn cynnal 93,986 o adar dŵr unigol yn rheolaidd (cymedr brig 5 mlynedd 1991/2 - 1995/6) gan gynnwys: Hwyaeden lwyd *Anas strepera*, hwyaeden yr eithin *Tadorna tadorna*, hwyaeden gynffonfain *Anas acuta*, pibydd y mawn *Calidris alpina alpina*, gylfinir *Numenius arquata*, coesgoch *Tringa totanus*, alarch Bewick *Cygnus columbianus bewickii*, chwiwell *Anas penelope*, cornchwigen *Vanellus vanellus*, corhwyaden *Anas crecca*, hwyaeden wyllt *Anas platyrhynchos*, hwyad lydanbig *Anas clypeata*, hwyaeden bengoch *Aythya Ferina*, hwyaeden gopog *Aythya fuligula*, cwtiad llwyd *Pluvialis squatarola*, gŵydd dalcenwyn *Anser albifrons albifrons*, coelgylinir *Numenius phaeopus*.
- 3.10 Yn ôl asesiad cyflwr safle diweddaraf CNC⁶, mae tair o'r rhywogaethau cymwys yn AGA Aber Afon Hafren mewn cyflwr anffariol, gan gynnwys yr alarch Bewick, yr ŵydd dalcenwyn a phibydd y mawn. Ar gyfer pob rhywogaeth, mae hyn oherwydd dirywiad hirdymor yn y boblogaeth, o bosib oherwydd newidiadau i ddsbarthiad y gaeaf ac yn adlewyrchu dirywiad yn y boblogaeth ar y raddfa genedlaethol. Fodd bynnag, nodir mynediad a hamdden hefyd yn ffynhonnell bosibl o effeithiau ar lefel poblogaeth.

Nodweddion Cymhwyso Ramsar⁷

- 3.11 Mae Aber Afon Hafren wedi'i ddynodi'n safle Ramsar o dan y meini prawf canlynol:

Maen Prawf 1

Oherwydd yr ystod llanw aruthrol (mwyaf ond un yn y byd), sy'n effeithio ar yr amgylchedd ffisegol a chymunedau biolegol

Ymysg y nodweddion sy'n bresennol o Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd mae banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio rhywfaint gan ddŵr môr trwy'r amser, aberoedd, fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr ar lanw isel a dolydd heli yr Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritima*)

Maen Prawf 3

Oherwydd cymunedau aberol anarferol, llai o amrywiaeth a chynhyrchiant uchel

Maen Prawf 4

Mae'r safle hwn yn bwysig ar gyfer rhediad pysgod ymfudol rhwng y môr ac afonydd drwy'r aber. Mae rhywogaethau'n cynnwys eog *Salar salmo*, briithyll y môr *S. trutta*, llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus*, llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*, herlyn *Alosa alosa*, gwangen *A. fallax*, a llysywen *Anguilla anguilla*. Mae hefyd yn arbennig o bwysig i adar mudol yn ystod y gwanwyn a'r hydref.

Maen Prawf 5: Casgliadau o bwysigrwydd rhyngwladol

Rhywogaethau â chyfrifiadau brig yn y gaeaf

70,919 o adar dŵr (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/2003).

Maen Prawf 6: Rhywogaethau / poblogaethau sy'n digwydd ar lefelau o bwysigrwydd rhyngwladol

Rhywogaethau sydd â'r cyfraddau brig yn y gaeaf

⁶ CNC. (Ionawr 2018). Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn nyfroedd Cymru – Asesiadau cyflwr dangosol nodweddion ar lefel safle 2018. Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif 236. tt.44 Ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/683655/special-protection-areas-in-welsh-waters.pdf> [Cyrchwyd ar 29/05/2023]
⁷ <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/RIS/UK11081.pdf> [Cyrchwyd ar 25/04/2023]

- Alarch y twndra *Cygnus columbianus bewickii*; 229 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 2.8% o boblogaeth Prydain Fawr (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)
- Gŵydd Dalcenwyn Mwyaf *Anser albifrons*; 2,076 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 35.8% o boblogaeth Prydain Fawr (cymedr brig 5 mlynedd 1996/97-2000/01)
- Hwyaeden yr eithin *Tadorna tadorna*, 3,223 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1% o boblogaeth Gogledd-orllewin Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)
- Hwyaeden Lwyd *Anas strepera strepera strepera*; 241 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1.4% o boblogaeth Prydain Fawr (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)
- Pibydd y Mawn *Calidris alpina alpina*; 25,082 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1.8% o boblogaeth Gorllewin Siberia a Gorllewin Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)
- Coesgoch cyffredin *tringa totanus tetanus*, 2,616 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1% o'r boblogaeth (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)

Rhywogaethau / poblogaethau a nodwyd yn dilyn dynodiad i'w hystyried yn y dyfodol o dan faen prawf 6

Rhywogaethau a gefnogir yn rheolaidd yn ystod y tymor bridio

- Gwylan Gefnddu Leiaf *Larus fuscus graellsii*; mae'n debyg bod 4,167 o nythod wedi'u meddiannu, sy'n cynrychioli cyfartaledd o 2.8% o'r boblogaeth fridio (Cyfrifiad adar môr 2000)

3.12 Rhywogaethau â chyfrif brig yn y gwanwyn / hydref

- Cwtiad torchog *Charadrius hiaticula*, 740 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1% o boblogaeth Ewrop a Gogledd-orllewin Affrica (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)

3.13 Rhywogaethau â chyfrif brig yn y gaeaf

- Corhwyaden Ewrasia *Anas crecca*; 4,456 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1.1% o boblogaeth Gogledd-orllewin Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)
- Hwyaeden gynffonfain *Anas acuta*; 756 o unigolion sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1.2% o boblogaeth Gogledd-orllewin Ewrop (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99-2002/03)

Maen Prawf 8

Pysgod yr holl system aberoedd ac afonydd yw un o'r rhai mwyaf amrywiol ym Mhrydain, gyda dros 110 o rywogaethau wedi'u cofnodi. Mae eog *Salmo salar*, brithyll y môr *S. trutta*, llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus*, llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*, herlyn *Alosa alosa*, gwangen *A. fallax*, a llysywen *Anguilla anguilla* yn defnyddio Aber Afon Hafren fel llwybr mudo allweddol i'w tiroedd silio yn y llednentydd niferus sy'n llifo i'r aber. Mae'r safle'n bwysig fel maes bwydo a meithrinfa ar gyfer llawer o rywogaethau pysgod, yn enwedig herlyn *Alosa alosa* a gwangen *A. fallax* sy'n bwydo ar ferdys codog yn y lletem heli.

Amcanion Cadwraeth AGA

- 3.14 Mae'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer safleoedd dynodedig Aber Afon Hafren yn hirfaith ac felly nid ydynt yn cael eu hatgynhyrchu yn y ddogfen hon. Maent ar gael yma: [Aber Afon Hafren / Môr Hafren](#)
- 3.15 Yn fras mae'r amcanion yn amrywiadau manwl a phenodol ar y gofyniad generig canlynol. I sicrhau y cynhelir neu yr adferir cyfanrwydd y safle fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni nodau'r Gyfarwydddeb Adar Gwyllt, drwy gynnal neu adfer;

- Maint a dosbarthiad cynefinoedd y nodweddion cymwys
- Strwythur a swyddogaeth cynefinoedd y nodweddion cymwys
- Y prosesau ategol y mae cynefinoedd y nodweddion cymwys yn dibynnu arnynt
- Poblogaeth pob un o'r nodweddion cymwys, a,
- Dosbarthiad y nodweddion cymwys o fewn y safle.

Bygythiadau a Phwysau ar Gyfanrwydd Safle⁸

3.16 Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a Natural England wedi cyhoeddi nodyn cyngor ar Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren⁹, sy'n trafod y mathau o weithrediadau a allai achosi dirywiad neu aflonyddwch i nodweddion cymwys yr AGA. At hynny, mae'r bygythiadau a'r pwysau canlynol i gyfanrwydd safle AGA Aber Afon Hafren wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella Safle Natural England:

- Mynediad cyhoeddus / aflonyddwch
- Addasu ffisegol
- Effeithiau datblygiad
- Gwasgfa arfordirol
- Newid i drefn rheoli tir
- Newidiadau i ddosbarthiadau rhywogaethau
- Llygredd dŵr
- Llygredd aer: Effaith gwaddod nitrogen atmosfferig
- Cydsyniad a thrwyddedau morol: Mwynau a gwastraff
- Pysgodfeydd: Hamdden forol ac aberol
- Pysgodfeydd: Morol ac aberol masnachol
- Rhywogaethau ymledol
- Sbwriel morol
- Digwyddiadau llygredd morol

ACA Aber Afon Hafren

Cyflwyniad

3.17 Dynodwyd ACA Aber Afon Hafren yn ACA yn 2009, oherwydd ei fod yn cefnogi nifer sylweddol o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'n cwmpasu ardal o 74,000ha ac fe'i dynodir yn rhannol am ei nodwedd aberol. Mae'r nodwedd hon yn cynnwys banciau tywod islanwol, fflatiau llaid a fflatiau tywod rhynglanwol, dolydd heli yr Iwerydd a riffiau biogenig. Mae'r ACA hefyd yn cynnal tair rhywogaeth o bysgod mudol, gan gynnwys llysywen bendoll yr afon, llysywen bendoll y môr a gwangen. Mae Aber Afon Hafren hefyd yn cynnwys cynefinoedd swbstrad caled, cydosodiad o 114 o rywogaethau pysgod aberol a morol ac amrywiaeth o rywogaethau o adar dŵr. Mae ACA Aber Afon Hafren yn gorgyffwrdd ag AGA / Ramsar Aber Afon Hafren, ac mae hefyd o fewn ffin awdurdod lleol Caerdydd.

Nodweddion Cymhwys¹⁰

3.18 Cynefinoedd Atodiad I yw'r prif reswm dros ddewis y safle hwn:

- Aberoedd
- Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr ar lanw isel
- Dolydd heli yr Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritima*)

⁸ <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/4590676519944192> [Accessed on the 25/04/2023]

⁹ Ar gael yn: <https://publications.naturalengland.org.uk/publication/3184206?category=3212324> [Accessed on the 02/05/2023]

¹⁰ <https://sac.incc.gov.uk/site/UK0013030> [Accessed on the 25/04/2023]

- 3.19 Mae cynefinoedd Atodiad I yn cyflwyno nodwedd gymhwysol, ond nid y prif reswm dros ddewis y safle hwn:
- Glannau tywod sydd wedi'u gorchuddio ychydig gan ddŵr y môr trwy'r amser
 - Riffiau
- 3.20 Rhywogaethau Atodiad II yw'r prif reswm dros ddewis y safle hwn:
- Lamprai'r Môr *Petromyzon marinus*
 - Lamprai'r Afon *Lampetra fluviatilis*
 - Gwangen *Alosa fallax*
- 3.21 Cydnabyddir ACA Aber Afon Hafren am amrywiol isnodweddion rhywogaethol nodedig, sy'n gysylltiedig â chynefin cymhwysol yr 'aber', gan gynnwys rhywogaethau pysgod mudol eraill (eog, llysywen, brithyll y môr a herlyn), ei gasgliad cyffredinol o dros 100 o rywogaethau pysgod, poblogaethau pwysig yn rhyngwladol o adar mudol, poblogaethau pwysig yn rhyngwladol o rywogaethau adar sy'n gaeafu, casgliad pwysig yn genedlaethol o adar dŵr a chynefinoedd swbstrad caled (glannau carregog). Er bod yr ACA hwn yn canolbwyntio ar asesu nodweddion cymhwyso unigol, bydd y casgliadau y deuir iddynt ynghylch llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon a'r gwangen yn berthnasol hefyd i isnodweddion rhywogaethau pysgod eraill. Mae isnodweddion poblogaethau rhyngwladol bwysig o adar mudol ac adar sy'n gaeafu yn cael eu hasesu fel nodweddion cymhwyso yn AGA/Ramsar Aber Afon Hafren.
- 3.22 Yn ôl asesiad diweddaraf CNC ar gyflwr y safle¹¹, mae mwyafrif y nodweddion cymhwyso yn ACA Aber Afon Hafren mewn cyflwr anffafriol. Er enghraifft, mae dosbarthiad / maint, strwythur / swyddogaeth a rhywogaethau nodweddiadol morfa heli'r lwerydd mewn cyflwr anffafriol. Mae hyn oherwydd amrywiaeth o lwybrau effaith, gan gynnwys gwasgfa arfordirol (rhagwelir y bydd yn arwain at golli 641ha o fflatiau tywod a llaid rhynglanwol, a 38ha o forfa heli yn y cyfnod rhwng 2005 a 2025; cyfnod y Cynllun Rheoli Traethlin cyntaf) ac ansawdd dŵr (e.e. statws cyffredinol cymedrol a methiant cemeg dŵr mewn un corff dŵr yn gorgyffwrdd â'r math hwn o gynefin).

Amcanion Cadwraeth

- 3.1 Mae'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer safleoedd dynodedig Aber Afon Hafren yn hirfaith ac felly nid ydynt yn cael eu hatgynhyrchu yn y ddogfen hon. Gweler yma: [The Severn Estuary / Môr Hafren](#).
- 3.2 Yn fras mae'r amcanion yn amrywiadau manwl a phenodol ar y gofyniad generig canlynol. Sicrhau y cynhelir ac yr adferir cyfanrwydd y safle fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffariol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;
- Ehangder a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys a chynefinoedd rhywogaethau cymwys
 - Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys
 - Strwythur a swyddogaeth cynefinoedd y rhywogaethau cymwys
 - Y prosesau ategol y mae cynefinoedd naturiol cymwys a chynefinoedd rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt
 - Poblogaethau rhywogaethau cymwys, a,
 - Dosbarthiad y rhywogaethau cymwys o fewn y safle.

Bygythiadau a Phwysau i Gyfanrwydd Safle¹²

- 3.3 Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a Natural England wedi cyhoeddi nodyn cyngor ar Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren¹³, sy'n trafod y mathau o weithrediadau a allai achosi dirywiad neu aflonyddwch i nodweddion cymwys yr ACA. At hynny, mae'r bygythiadau a'r pwysau canlynol i uniondeb safle ACA Aber Afon Hafren wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella Safle Natural England:

¹¹ CNC. (Ionawr 2018). Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren Asesiadau cyflwr dangosol nodweddion ar lefel safle 2018. Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif 235. tt.41 Ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684391/severn-sac-ica-2018.pdf> [Cyrchwyd ar 29/05/2023]

¹² <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/4590676519944192> [Cyrchwyd ar 25/04/2023]

¹³ Ar gael yn: <https://publications.naturalengland.org.uk/publication/3184206?category=3212324> [Cyrchwyd ar 02/05/2023]

- Mynediad cyhoeddus / aflonyddwch
- Addasu ffisegol
- Effeithiau datblygiad
- Gwasgfa arfordirol
- Newid i drefn rheoli tir
- Newidiadau i ddsbarthiadau rhywogaethau
- Llygredd dŵr
- Llygredd aer: Effaith gwaddod nitrogen atmosfferig
- Cydsyniad a thrwyddedau morol: Mwynau a gwastraff
- Pysgodfeydd: Hamdden forol ac aberol
- Pysgodfeydd: Morol ac aberol masnachol
- Rhywogaethau ymledol
- Sbwriel morol
- Digwyddiadau llygredd morol

ACA Coed Ffawydd Caerdydd

Cyflwyniad

- 3.4 Mae ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn safle mawr 114.45ha sy'n cynnwys coetir collddail llydanddail (99.5%) a rhai llwybrau datblygedig (0.5%). Mae'n cynrychioli ardal o goetir llydanddail lled-naturiol sy'n cael ei ddominyddu gan ffawydd. Ystyrir yr ACA yn un o'r enghreifftiau gorau o goedwig ffawydd yn y DU, sy'n cynrychioli'r cynefin hwn sy'n agos at ei derfyn dosbarthu gorllewinol. Mae mosaigau a thrawsnewidiadau i fathau eraill o goetir i'w gweld ledled yr ACA, fel coetir ffawydd asidig a choedwigoedd derw *Quercus* ac onnen *Fraxinus excelsior*. Mae rhywogaethau nodweddiadol a nodedig yn y fflora daear yn cynnwys craff y geifr *Allium ursinum*, clust yr arth *Sanicula europea*, tegeirian nyth aderyn *Neottia nidus-avis* a thegeirian nyth aderyn melyn *hypopitis monotropa*.
- 3.5 Mae'r ACA hefyd yn cefnogi rhannau sylweddol o goedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd, sy'n cynnwys onnen *Fraxinus excelsior*, llwyfen llydanddail *Ulmus glabra* a phisgwydden dail bach *Tilia cordata*. Mae sycamorwydden *Acer pseudoplatanus* a gyflwynwyd i'w weld yn aml drwyddi draw.

Nodweddion Cymhwys¹⁴

- 3.1 Cynefinoedd Atodiad I yw'r prif reswm dros ddewis y safle hwn:
- Coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum*
- 3.2 Mae cynefinoedd Atodiad I yn cyflwyno nodwedd gymhwysol, ond nid y prif reswm dros ddewis y safle hwn:
- Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd (* nodwedd flaenoriaethol)
- 3.3 Asesodd prosiect Gwerthuso Gwaelodlin CNC 2020¹⁵ gyflwr nodweddion cymhwys ar draws safleoedd gwarchoddedig Cymru. Mae'r data'n dangos bod y ddau fath o goetir cymwys mewn cyflwr anffafriol ar hyn o bryd fel y nodir drwy ddangosyddion perfformiad amrywiol.

¹⁴ <https://sac.incc.gov.uk/site/UK0030109> [Accessed on the 25/04/2023]

¹⁵ Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy> [Cyrchwyd ar 30/05/2023] <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy> [Cyrchwyd ar 30/05/2023]

Amcanion Cadwraeth¹⁶

- 3.4 Statws cadwraeth cynefin naturiol yw swm y dylanwadau sy'n gweithredu arno a'i rywogaethau nodweddiadol a allai effeithio ar ei ddsbarthiad, strwythur a swyddogaethau naturiol hirdymor yn ogystal â goroesiad hirdymor ei rywogaethau nodweddiadol. Bydd statws cadwraeth cynefin naturiol yn cael ei ystyried yn ffafriol:
- Pan fydd ei ystod naturiol a'r ardaloedd y mae'n eu cwmpasu o fewn yr ystod honno yn sefydlog neu'n cynyddu, a
 - Phan fydd y strwythur a'r swyddogaethau penodol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal a chadw hirdymor yn bodoli ac yn debygol o barhau i fodoli am y dyfodol agos, a
 - Phan fydd statws cadwraeth ei rywogaethau nodweddiadol yn ffafriol.
- 3.5 Statws cadwraeth rhywogaeth yw swm y dylanwadau sy'n gweithredu ar y rhywogaeth a allai effeithio ar ddsbarthiad a helaethrwydd hirdymor ei phoblogaethau. Bydd statws cadwraeth yn cael ei ystyried yn ffafriol:
- Pan fydd data dynameg poblogaeth ar y rhywogaeth yn dangos ei fod yn cynnal ei hun yn y tymor hir fel elfen hyfyw o'i chynefinoedd naturiol, a
 - Nid yw ystod naturiol y rhywogaeth yn cael ei lleihau nac yn debygol o gael ei lleihau yn y dyfodol agos, a
 - Phan fo cynefin digon mawr i gynnal ei boblogaethau yn y tymor hir, a'i bod yn debygol y bydd hynny'n parhau.

Bygythiadau / Pwysau i Gyfanrwydd Safle¹⁷

- 3.6 Mae'r dangosyddion perfformiad canlynol ar gyfer ffactorau sy'n effeithio ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd wedi'u nodi yng Nghynllun Rheoli Craidd CNC:
- Defnydd hamdden
 - Llygredd atmosfferig
 - Pwysau datblygu
 - Coedwigaeth fasnachol
 - Echdynnu mwynau

¹⁶ <https://naturalresources.wales/media/672066/FINAL%20Cdf%20Beech%20Woods%20SAC%20Man%20Plan.pdf> [Accessed on the 25/04/2023]

¹⁷ Ibid.

ACA Afon Wysg

Nodweddion Cymhwyso ACA¹⁸

Mae cynefinoedd Atodiad I yn cyflwyno nodwedd gymhwysol, ond nid y prif reswm dros ddewis y safle hwn:

- Cyrsiâu dŵr o lefelau plaen i montane gyda'r llystyfiant *Ranunculus fluitantis* a *Calitriche-Batrachion*

Atodiad II rhywogaethau sydd yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:

- Lamprai'r Môr *Petromyzon marinus*
- Lamprai'r Nant *Lampetra planeri*
- Lamprai'r Afon *Lampetra fluviatilis*
- Gwangen *Alosa fallax*
- Eog Iwerydd *Salar salmo*
- Bullhead *Cottus gobio*
- Dyfrgi Ewropeaidd (*Lutra lutra*)

Mae rhywogaethau Atodiad II yn cyflwyno nodwedd gymhwysol, ond nid y prif reswm dros ddewis y safle hwn:

- Allis shad *Alosa alosa*

Amcanion Cadwraeth ACA

- Rhaid cwrdd â'r Amcan Cadwraeth ar gyfer y cwrs dŵr
- Mae poblogaeth y nodwedd yn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros y tymor hir
- Nid yw ystod naturiol y rhywogaeth yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.
- Y mae cynefin digon mawr i gynnal poblogaeth y nodwedd yn yr ACA yn y tymor hir, a'i bod yn debygol y bydd hynny'n parhau.
- Mae poblogaeth dyfrgwn yn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros y tymor hir ac yn adlewyrchu gallu cario naturiol y cynefin o fewn yr ACA, fel y pennir gan lefelau naturiol o helaethrwydd ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig.
- Nid yw ystod naturiol dyfrgwn yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Cymerir yr ystod naturiol i olygu'r rhannau hynny a allai fod yn addas i ffurfio rhan o diriogaeth fridio a/neu ddarparu llwybrau rhwng tiriogaethau bridio. Ystyrir bod ardal gyfan ACA y Wysg yn ffurfio cynefin bridio a allai fod yn addas i ddyfrgwn. Gall maint tiriogaethau bridio amrywio yn dibynnu ar helaethrwydd ysglyfaeth. Ni ddylai maint y boblogaeth gael ei gyfyngu gan argaeledd safleoedd bridio sydd heb aflonyddwch. Lle nad yw'r rhain yn ddigonol, dylid eu creu trwy wella cynefinoedd a lle bo angen trwy ddarparu gwalau artiffisial. Ni ddylai unrhyw safle bridio dyfrgwn fod yn destun lefel o aflonyddwch a allai gael effaith andwyol ar lwyddiant bridio. Lle bo angen, rhaid rheoli lefelau aflonyddwch a allai fod yn andwyol.
- Hwylusir symudiad diogel a gwasgariad unigolion o amgylch yr ACA gan ddarparu, lle bo angen, gynefin torlannol addas, a thanffyrdd, silffoedd, ffensys ac ati ger pontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill.

¹⁸ https://afonyddcymru.org/wp-content/uploads/2022/11/river_usk-sac-core-plan.pdf [Cyrchwyd 12/07/2024]

- Dylai ystod naturiol y cymunedau planhigion a gaiff eu cynrychioli yn y nodwedd hon fod yn sefydlog neu'n cynyddu yn yr ACA. Cymerir yr ystod naturiol i olygu y rhannau hynny lle mae cynefin addas at ei gilydd yn bodoli dros y tymor hir. Gall cynefin addas a chymunedau planhigion cysylltiedig amrywio o ran o'r afon i ran arall. Diffinnir cynefin addas o ran prosesau a ffurfiau hydrolegol a geomorffolegol bron yn naturiol e.e. dyfnder a sefydlogrwydd llif, sefydlogrwydd swbstrad gwelyau, a strwythur a swyddogaethau ecosystemau e.e. lefelau maetholion, cysgod (fel y disgrifir yn adran disgrifiad o'r Safle). Nid oes angen i gynefin addas ar gyfer y nodwedd fod yn bresennol yn yr ACA drwyddi draw ond lle mae'n bodoli, rhaid ei sicrhau i'r dyfodol rhagweladwy, ac eithrio pan fo prosesau naturiol yn achosi iddo ddirywio o ran ei hyd a'i led.
- Dylai'r ardal a gwmpesir gan y nodwedd o fewn ei ystod naturiol yn yr ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Mae angen mwy o wybodaeth am y rhywogaethau nodweddiadol y disgwylir eu canfod gyda phob uned reoli yn yr ACA.

Bygythiadau / Pwysau ar Gyfanrwydd Safle¹⁹

3.7 Mae'r dangosyddion perfformiad canlynol ar gyfer ffactorau sy'n effeithio ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd wedi'u nodi yng Nghynllun Rheoli Craidd CNC:

- Mae prosesau hydrolegol, yn enwedig llif afon (lefel ac amrywioldeb) a chemeg dŵr, yn pennu ystod o ffactorau cynefinoedd sydd o bwysigrwydd hanfodol i nodweddion ACA, gan gynnwys cyflymder cyfredol, dyfnder dŵr, ardal wlyb, ansawdd swbstrad, lefelau ocsigen toddedig a thymheredd dŵr.
- Prosesau geomorffolegol erydiad gan ddŵr a dyddodiad dilynol gwaddodion wedi'u herydu i lawr yr afon, sydd yn creu strwythur ffisegol cynefinoedd afonydd. Er bod rhai rhannau o'r afon yn naturiol sefydlog, yn enwedig lle maent yn llifo dros greigwely mae eraill yn mynd drwy newid ac ar adegau yn newid yn gyflym trwy erydiad a dyddodiad gwaddodion gwelyau a glannau fel sy'n nodweddiadol o rannau afon sy'n troelli o fewn gorlifdiroedd (a elwir yn afonydd 'llifwaddodol'). Mae'r prosesau hyn yn helpu i gynnal ecosystem yr afon drwy ganiatáu i gyflenwad parhaus o raeau glân a swbstradau pwysig eraill gael eu cludo i lawr yr afon.
- Cynefinoedd torlannol - Mae gan gynefinoedd torlannol amrywiol ac o ansawdd uchel rôl hanfodol wrth gynnal nodweddion ACA mewn cyflwr ffafriol. Mae math a chyflwr llystyfiant torlannol yn dylanwadu ar gysgod a thymheredd dŵr, maetholion dŵr ffo o dir cyfagos, argaeledd malurion coediog i'r sianel a mewnbynnau o sbwriel dail ac infertebratau i gefnogi defnyddwyr yn yr afon. Mae lefelau golau, tymheredd a maetholion yn dylanwadu ar gynhyrchu planhigion yn yr afon ac addasrwydd cynefin ar gyfer nodweddion ACA.
- Mae Cysylltedd cynefinoedd - yn nodwedd bwysig o strwythur a swyddogaeth ecosystem afon. Mae llawer o'r pysgod sy'n silio yn yr afon yn mudo, yn ddibynnol ar gynnal amodau addas ar eu llwybrau mudo er mwyn caniatáu i'r oedolion gyrraedd y cynefin silio a'r pysgod ifanc i gael mudo i lawr yr afon. Gall gwasgaru rhywogaethau lled-ddaearyl, fel y dyfrgi, gael ei effeithio'n andwyol gan strwythurau fel pontydd o dan amodau llif penodol.

¹⁹ Ibid.

4. Llwybrau Ardrawiad

- 4.1 Nid oes llwybrau ardrawiad sy'n cysylltu datblygiad yng Nghaerdydd ag ACA Afon Wysg wedi cael eu nodi. Felly, nid yw'r ACA hwnnw'n cael ei drafod ymhellach yn yr adroddiad hwn.
- 4.2 Gan ein bod yn rhagweld hinsawdd sy'n newid, er gwaethaf ansicrwydd am natur, gradd ac amseriad y newidiadau, rhaid i randdeiliaid amgylcheddol fynd i'r afael â'r angen i sicrhau gwydnwch pob ACA neu AGA yn wyneb yr amgylchedd newidiol hwnnw. Fodd bynnag, diben ARhC y Cynllun Lleol yw asesu a fydd y CLI yn arwain at effeithiau uniongyrchol ar ACAau neu AGAau penodol. Mae newid yn yr hinsawdd yn fater ehangach nad yw'n ymwneud â safleoedd Ewropeaidd unigol penodol ond â'r amgylchedd yn gyffredinol. O'r herwydd, trafodir y mater hwn yn fwy priodol yn yr ystyriaeth amgylcheddol a bioamrywiaeth ehangach a roddir i'r CLI gan yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Yn yr un modd, lle bydd y Cynllun Lleol yn cael effeithiau cadarnhaol ar ACAau ac AGAau, ni thrafodir y rhain yn yr ARhC gan fod y broses ARhC yn canolbwyntio ar botensial effeithiau negyddol.

Colli cynefin uniongyrchol

- 4.3 Mewn rhai achosion, gallai cynefinoedd gael eu colli yn uniongyrchol o safleoedd Cynefinoedd, a allai yn hawdd arwain at effaith andwyol ar y safleoedd hynny.

Pwysau ac Aflonyddwch Hamdden Cyflwyniad

- 4.4 Mae gan ddefnydd hamdden ar safle Cynefin y potensial i:
- Atal rheolaeth briodol neu waethygu anawsterau rheoli presennol;
 - Achos difrod drwy erydiad a darnio;
 - Achos ewtroffigedd o ganlyniad i faw cŵn; ac
 - Achos aflonyddwch i rywogaethau sensitif, yn enwedig adar sy'n nythu ar y ddaear ac adar gwyllt sy'n gaeafu.
- 4.5 Mae gwahanol fathau o safleoedd Cynefin yn destun gwahanol fathau o bwysau hamdden ac mae gwendidau gwahanol ganddynt. Mae astudiaethau ar draws amrywiaeth o rywogaethau wedi dangos y gall effeithiau hamdden fod yn gymhleth.
- 5.17 Mae AGA / Ramsar Aber Afon Hafren wedi'i dynodi ar gyfer sawl rhywogaeth o rydwyr ac adar dŵr, bob un yn dibynnu ar gynefinoedd cynhaliol yr ACA o fewn ffin y safle. Nid yw adar yn sensitif yn uniongyrchol i ddyddodiad nitrogen, ond gallai effeithiau llygredd atmosfferig anuniongyrchol posibl ddigwydd drwy effeithio ar gynefinoedd cynhaliol. Er bod yr ŵydd wyllt, y goesgoch a hwyaden yr eithin i gyd yn defnyddio gwahanol barthau mewn morfa heli (yr unig gynefin cynhaliol sy'n sensitif i ddyddodiad nitrogen atmosfferig), nid yw'r System Gwybodaeth am Lygredd Aer yn nodi bod y rhywogaethau hyn yn sensitif i effeithiau nitrogen atmosfferig. Y rheswm am hyn yw y gallai rhai rhywogaethau (e.e. y goesgoch) elwa mewn gwirionedd ar gynyddu helaethrwydd ysglyfaeth o dan drefnau maeth uchel (er gwaethaf lleihad tebygol mewn amrywiaeth rhywogaethau). Felly, yn unol â'r dystiolaeth sydd ar gael ar y System Gwybodaeth am Lygredd Aer, nid yw effeithiau posibl llygredd atmosfferig ar AGA / Ramsar Aber Afon Hafren wedi'u cynnwys yn yr AP.

ACA Coed Ffawydd Caerdydd

- 5.18 Bydd twf tai a chyflogaeth a ddyrannwyd yn CLI Caerdydd yn arwain at lif traffig cymudo uwch yn y ddinas, yn ogystal â mwy o gyfnod trafffig gydag awdurdodau cyfagos. Mae ACA Coed Ffawydd Caerdydd, sydd wedi'i lleoli yng ngogledd yr awdurdod ger maestrefi Pentre-poeth a Coryton, wedi'i dynodi ar gyfer dau gynefin coetir (coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* a choedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd. Fel llawer o gynefinoedd o bwysigrwydd cadwraeth, mae coetiroedd yn sensitif i ddyddodiad nitrogen atmosfferig, yn enwedig oherwydd yr effeithiau ar eu planhigion tir cysylltiedig a chydosodiadau bryoffyt / cen. Mae'r System Gwybodaeth am Lygredd Aer yn nodi mai llwyth critigol nitrogen ar gyfer coedwig ffawydd a choedwig *Tilio-Acerion* yw 10-20kg N/ha/fl a 15-20kg N/ha/fl yn y drefn honno. Ar ben hynny, gan fod bryoffytai a chennau'n rhan annatod o ecosystemau coedwigoedd ffawydd, mae Lefel Gritigol NH₃ o 1 µg/m³ wedi'i sefydlu ar gyfer coedwig ffawydd *Asperulo-Fagetum*.
- 5.19 Mae ACA Coed Ffawydd Caerdydd yng ngogledd yr awdurdod ger datblygiad tai dwys a'r A470, coridor trafndiaeth strategol sy'n cysylltu Caerdydd ag awdurdodau cyfagos Rhondda Cynon Taf a Chaerffili. Ar ben hynny, mae'r A470 hefyd yn darparu mynediad i drigolion lleol i'r M4, coridor trafndiaeth strategol sy'n darparu cysylltedd ar echel o'r dwyrain i'r gorllewin tua de Lloegr. **O ystyried sensitifrwydd y safle i lygredd atmosfferig a'i leoliad mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd, ni ellir eithrio ESDau CLI Caerdydd ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd o ran llygredd atmosfferig. Mae'r safle wedi'i gynnwys yn yr AP ynghlwm â'r llwybr effaith hwn.**

Gwasgfa Arfordirol

ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

- 5.20 Mae ACA Aber Afon Hafren wedi'i ddynodi'n swyddogol ar gyfer fflatiau tywod a llaid rhynglanwol a dolydd heli'r Iwerydd. Mae cyfanrwydd ecolegol y cynefinoedd hyn yn dibynnu ar lif rheolaidd dŵr môr ac yna amlygiad dros dro i aer. Oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd lefelau'r môr yn codi'n sylweddol yn y dyfodol, ac felly bydd dolydd heli'r Iwerydd dan ddŵr am gyfnodau hir. Ar hyd darnau o arfordir heb eu hamddiffyn a heb eu datblygu, byddai cynefinoedd rhynglanwol fel arfer yn 'ymateb' drwy gilio'n fewndirol yn unol â'r codiad yn lefel y môr. Fodd bynnag, mewn amgylcheddau peirianyddol iawn fel de Caerdydd, mae amddiffynfeydd arfordirol a safleoedd tir llwyd yn atal mudo tua'r tir, gan arwain at gollu

cynefinoedd rhynglanwol yn raddol. Ar ben hynny, mae risg sylweddol i adar cymwys yn yr AGA / Ramsar sy'n gorgyffwrdd, sy'n dibynnu ar fflatiau llaid rhynglanwol neu forfa heli ar gyfer porthi, o golli eu cynefin cynhaliol hanfodol.

- 5.21 Un dull o benderfynu a allai Cynllun Lleol Caerdydd arwain at LSTau ar ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran gwasgfa arfordirol yw gwerthuso Aseiad Cyflwr Dangosol CNC ar gyfer y safle⁴². Mae hwn yn pennu cyflwr pob cynefin / rhywogaeth cymwys a'r dystiolaeth sy'n sail i'r penderfyniad hwn. Mae'r gwastadeddau tywod a llaid rhynglanwol wedi'u dosbarthu fel rhai mewn cyflwr anffafriol o ran eu dosbarthiad a'u hehangder. Yn ôl data LiDAR a ddadansoddiwyd gan CNC, bu gostyngiad sylweddol yn ehangder y cynefinoedd hyn rhwng 2005 a 2015. Gwelwyd tuedd debyg ar gyfer morfeydd heli, y mae ei ymylon wedi cilio dros yr un cyfnod amser. Mae tystiolaeth o CRhT ARhC Aber Afon Hafren hefyd yn rhagweld colledion helaeth ar y cynefinoedd rhynglanwol uchod oherwydd gwasgfa arfordirol.
- 5.22 Yn yr un modd mae CGS Natural England ar gyfer rhan Lloegr o Aber Afon Hafren yn nodi bod gwasgfa arfordirol yn bwysau / bygythiad pwysig i gyfanrwydd yr ACA / AGA / Ramsar: '*As sea levels rise, man-made defences are constraining the natural roll back of estuarine habitats, causing squeeze and loss of habitat and having impacts on species dependant upon those habits (birds: feeding / roosting, and fish: feeding / nursery and shelter areas).*' Mae nodyn cyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Natural England ar SME Aber Afon Hafren hefyd yn cyfeirio'n anuniongyrchol at y broses o wasgfa arfordirol drwy ddweud '*the intertidal mudflats and sandflats and the saltmarsh are highly sensitive to removal by land reclamation and major construction activities.*'
- 5.23 **Yn gyffredinol, ystyrir na ellir eithrio ESTau CLI Caerdydd ar ACA / AGA/ Ramsar Aber Afon Hafren o ran gwasgfa arfordirol. Mae angen asesiad manylach o'r dulliau rheoli arfordirol presennol ar hyd glannau Caerdydd yn yr AP.**

Sgrinio Polisiâu Cynllun Lleol

- 5.24 Cynhelir asesiad sgrinio o bolisiâu'r Cynllun Lleol (CLI) yn Atodiad B. Daethpwyd i'r casgliad na ellir eithrio ESTau sydd ynghlwm â'r polisiâu canlynol a gaiff eu dwyn ymlaen i'r AP:
- Polisi SP1 (Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy) – mae'r polisi'n darparu ar gyfer twf cynaliadwy ar draws yr awdurdod, gan gynnwys 26,400 o anheddau newydd a 32,300 o swyddi newydd dros gyfnod y CLI;
 - Polisi SP2 (Cynnal Twf Economaidd a Chadernid) – mae'r polisi'n darparu ar gyfer ystod a chwantwm amhenodol o fathau o gyflogaeth mewn gwahanol leoliadau daearyddol ledled Caerdydd;
 - Polisi SP9 (Cefnogi Rôl Porthladd Caerdydd) – mae'r polisi'n cefnogi rôl Porthladd Caerdydd yn economi gyffredinol yr awdurdod drwy nodi'r mathau o gyflogaeth (defnyddiau porthladd-benodol, diwydiannol, logistaidd a hamdden) a ganiateir yn y maes polisi;
 - Polisi SP10 (Twristiaeth) – mae'r polisi'n cefnogi datblygiadau twristiaeth cynaliadwy ledled Dinas Caerdydd, gan gynnwys sawl cynnig penodol megis arena dan do newydd â 17,000 o seddi ym Mae Caerdydd, ailddatblygu ardal y Cei a Chwr y Gamlas, a felodrom newydd yn y Pentref Chwaraeon; a
 - Polisi SP18 (Sicrhau Seilwaith Trafnidiaeth Newydd) – mae'r polisi'n sicrhau prosiectau seilwaith trafndiaeth newydd ledled Caerdydd, trwy welliannau trafndiaeth ar wahanol Goridorau teithio (e.e. Gogledd-orllewin, Gogledd a De-ddwyrain, De-orllewin a Gogledd).
 - Polisi H1A (Safleoedd Tai Strategol) – mae'r polisi'n dyrannu tir ar gyfer darparu 1,675 o anheddau newydd
 - Polisi H1B (Safleoedd Tai Anstrategol) – mae'r polisi yn dyrannu tir ar gyfer darparu 240 annedd newydd
 - Polisi H2 (Safleoedd Adfywio dan Arweiniad Tai) – mae'r polisi yn dynodi rhai ardaloedd fel ardaloedd adfywio dan arweiniad tai sydd naill ai'n wag, yn cael eu tanddefnyddio neu'n destun cynigion ailddatblygu, neu sydd â photensial yn ydyfodol i roi cyfle i ddatblygiad dwysedd uchel, cynaliadwy, defnydd cymysg

⁴² Cyfoeth Naturiol Cymru. (2018). Ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/684391/severn-sac-ica-2018.pdf> [Cyrchwyd ar 16/02/2026]

- Polisi H11 (Safle Sipsiwn a Theithwyr) – Mae'r polisi yn dyrannu tir ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr newydd y rhagwelir y bydd yn darparu tua 80 o leiniau.
 - Polisi EC2 (Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg) - Mae'r polisi yn dyrannu tir ar gyfer safle cyflogaeth strategol sy'n cynnwys hyd at 90,000m² o ddefnyddiau dosbarth B1, B2, a B8, defnyddiau ategol a seilwaith yn gysylltiedig â; bioamrywiaeth; tirlunio; draenio; cerdded, beicio a dulliau trafndiaeth eraill, ynghyd ag adeiladu cyfleuster gorsaf drafnidiaeth newydd, a gwaith seilwaith cysylltiedig.
- 5.25 Mae asesiad sgrinio o'r dyraniadau CLI hefyd yn cael ei gynnal yn Atodiad B. Daethpwyd i'r casgliad na ellir eithrio ESTau ynghlwm â'r dyraniadau canlynol a gaiff eu dwyn ymlaen i'r AP:
- SH1.1 - Tir ar Church Farm (Rhan o Safle Strategol F y CDLI mabwysiedig)
 - SH1.2 - Tir i'r de o Draffordd yr M4, i'r gorllewin o Rudry Road, Llys-faen (Rhan o Safle Strategol F y CDLI mabwysiedig)
 - SH1.3 - Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw (Rhan o Safle Strategol F y CDLI mabwysiedig)
 - SH1.4 - Tir i'r de o Heol Llantrisant (Rhan o Safle Strategol D y CDLI mabwysiedig)
 - SH1.5 - Tir ar Heol Llantrisant (A4119) (Rhan o Safle Strategol D y CDLI mabwysiedig)
 - SH1.6 - Tir yn Fferm Llwynioli (Rhan o Safle Strategol D y CDLI mabwysiedig)
 - SH1.7 - Hen Waith Nwy, Heol y Fferi
 - H1.1 - Tir yn ardaloedd 9-12, Llaneirwg
 - H1.2 - Ysbyty Rookwood Llandaf

6 Asesiad Priodol

Pwysau Hamdden

ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

- 6.1 Fel yr amlygwyd yn y bennod sgrinio ESTau, mae ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren yn sensitif i effeithiau pwysau hamdden. Mae Polisi SP1 (Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy) yn dyrannu 26,400 o anheddau dros gyfnod y CDLIN a fydd yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth Caerdydd o tua 18,336 o drigolion ychwanegol. Bydd hyn yn arwain at fwy o alw am fannau gwyrdd ar gyfer hamdden. Ond dylid nodi hefyd, er bod gan Gaerdydd ofyniad o 26,400 o anheddau, y gellir bodloni 20,377 o'r rhain gan ymrwymadau a chyflawniadau presennol (h.y. tai sydd eisoes â chaniatâd cynllunio). Mae'r gweddill yn cynnwys lwfans annisgwyl net (datblygu ar safleoedd heb eu dyrannu) o 3,078 a 6,666 annedd net newydd a wasgerir dros 7 safle strategol dynodedig, 2 safle anstrategol, a 7 ardal adfywio dan arweiniad tai. Mae hyn yn gyfanswm o 9,744 annedd net newydd nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio eisoes.
- 6.2 Mae cyngor ar Safle Morol Ewropeaidd (SME) Aber Afon Hafren a gyhoeddwyd gan Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC erbyn hyn) yn nodi na ddylai fod gostyngiad sylweddol mewn niferoedd na dadleoli adar sy'n gaeafu y gellir eu priodoli i aflonyddwch o waelodlin sefydledig. Ar ben hynny, mae'r cyngor yn nodi '*significant disturbance attributable to human activities can result in reduced food intake and / or increased energy expenditure. Five year peak mean information on populations will be used as the basis for assessing whether disturbance is damaging.*' Mae'r data cymedr brig pum mlynedd ar wefan Arolwg Adar Gwlyptir Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain (WeBS) yn dangos bod poblogaethau adar sy'n gaeafu wedi cynyddu o 76,496 rhwng 2010/11 a 2014/15 i 85,643 rhwng 2015/16 a 2019/20. Felly, ar sail data adar sydd ar gael ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth bod pwysau hamdden yn cael effaith niweidiol ar y boblogaeth AGA / Ramsar gymwys hyd at 2020. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu na fyddai cynnydd pellach mewn ymweliadau hamdden yn arwain at effaith ar lefel poblogaeth rhywogaethau adar sy'n gaeafu. Ar ben hynny, mae data cyfrif cyffredinol WeBS yn manylu ar gyfanswm y niferoedd o adar a gallant guddio amrywiadau mewn digonedd ymhlith rhywogaethau unigol.

6.3 Mae ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren yn ffinio â'r awdurdod ar hyd ei ffin de-ddwyreiniol, gan roi digon o gyfleoedd mynediad ar hyd y draethlin ac, o bosibl, i fflatiau tywod a llaid rhynglanwol. Hefyd, mae Llwybr Arfordir Cymru, llwybr cerdded hir, yn rhedeg ar hyd ymyl ffin y safle Cynefin am rannau helaeth o fewn yr awdurdod. Efallai y bydd gan lwybrau rhanbarthol sefydledig atyniad ychwanegol i bobl oherwydd y golygfeydd, cynefinoedd amrywiol ac arwyddbyst da. Ceir sawl anheddiad bach (e.e. Pengam, Trowbridge, Newton, Bae Caerdydd) o fewn pellter cerdded i Aber Afon Hafren a disgwylir y byddai anheddau ychwanegol yn y lleoliadau hyn yn arwain at ymweliadau mynych ac ailadroddus ychwanegol â'r safle Cynefin, yn enwedig gan gerddwyr cŵn. O ran ACA/ AGA / Ramsar Aber Afon Hafren, bydd tai ychwanegol yn rhan de-ddwyreiniol yr awdurdod yn cael mwy o effaith na chanolbwyntio twf yn rhan ganolog, gorllewinol a gogleddol Caerdydd. Pellter teithio yw'r prif bamedr wrth benderfynu ar y tebygolrwydd y bydd trigolion y dyfodol yn ymweld â safle a fyddai, ynghyd ag atyniad yr aber ar gyfer hamdden, yn ei gwneud yn annhebygol y byddai trigolion y dyfodol yn ymweld â manau eraill.

Sylfaen Dystiolaeth Bresennol

6.4 Mae AGA / Ramsar Aber Afon Hafren yn gyrchfan gyda siâp twndis unigryw, sy'n golygu ei fod yn rhedeg ar groeslin ar hyd sawl awdurdod, gan gynnwys Fforest y Ddena, Stroud, Sir Fynwy a Chaerdydd. Oherwydd ei golygfeydd a'i daearyddiaeth, mae'n debygol y bydd y safle yn denu trigolion yn yr awdurdodau cyfagos at ddibenion hamdden ac o ystyried bod y tebygolrwydd o ymweld â safle yn lleihau y pellaf ydyw o'u cartref, mae'n debygol y bydd preswylwyr yn ymweld â rhannau o'r aber sydd â mynediad addas sydd agosaf i'w cartref. Does dim data am nifer yr ymwelwyr ar bwytiau mynediad yng Nghaerdydd. Ond, cynhaliodd Footprint Ecology arolwg ymwelwyr yn Lydney (Fforest y Ddena) yn 2017 i lywio strategaeth hamdden i'r rhan honno o'r aber⁴³. Cynhaliwyd arolwg ymwelwyr hefyd gan EPR yn 2016 ar gyfer y rhan o'r AGA / Ramsar sydd o fewn Ardal Stroud⁴⁴. Ymhellach, cyhoeddodd Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren (CAPAAH/ASERA) drosolwg cynhwysfawr o gychod hamdden yn yr aber⁴⁵. Mae arolygon wedi'u cynnal ar ochr Cymru o'r aber hefyd ar gyfer Cynghorau Sir Fynwy a Thorfaen. Cynhaliwyd yr arolygon hyn i sefydlu gwaelodlin o bwysau hamdden presennol yn rhannau perthnasol yr AGA / Ramsar, ac i asesu effeithiau posibl twf preswyl yn yr awdurdodau priodol. Oherwydd siâp unigryw yr aber, nid yw'r data o'r arolygon hyn yn berthnasol i Gaerdydd yn uniongyrchol, a ddangosir gan y ffaith nad oedd yr arolygon yn cofnodi ymwelwyr o Gaerdydd (yn debygol oherwydd presenoldeb rhannau o'r AGA / Ramsar yn llawer agosach at adref). Serch hynny, maent yn dangos bod Caerdydd yn sicr o fewn dalgylch hamdden craidd yr ACA / AGA / Ramsar ac mae'n debygol y bydd rhai o'r patrymau defnydd ymwelwyr a amlygwyd yn yr arolygon hyn yn debygol o fod yn debyg yng Nghaerdydd (er enghraifft, cyfran uchel y cerddwyr cŵn fel cyfanswm y baich hamdden) ac felly cânt eu trafod yn y canlynol. At hynny, mae'r ymyriadau rheoli ymwelwyr a drafodir yn strategaeth hamdden Footprint Ecology yn darparu cyd-destun defnyddiol a chanllawiau posibl ar fesurau lliniaru y gallai fod eu hangen o ran CDLIN Caerdydd.

Cychod hamdden

6.5 Mae'n debygol y bydd gweithgareddau dŵr yn peri gofod arbennig i adar sy'n gaeafu oherwydd gallant ddod ag ymwelwyr yn agosach at ardaloedd sensitif, fel clwydfannau neu safleoedd porthi. Ar ben hynny, gwyddys bod y seilwaith sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cychod (e.e. angorfeydd) yn arbennig o niweidiol i gynefinoedd benthyg, gan arwain at erydu, sgrafellu a dadleoli gwaddodion (er bod yr olaf yn fwy perthnasol i ACA Aber Afon Hafren). Cyhoeddodd Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren (CAPAAH) astudiaeth o weithgareddau dŵr hamdden yn SME Aber Afon Hafren (sy'n cynnwys rhannau o'r dynodiad ACA / AGA / safle Ramsar) yn 2016. Mae'n crynhoi effeithiau amgylcheddol allweddol cychod, yn rhoi trosolwg o dueddiadau cyfredol ar gyfer defnyddio cychod ac yn awgrymu camau ar gyfer rheoli gweithgareddau dŵr. Yn gyffredinol, mae cychod yn cyrchu'r aber drwy ddefnyddio 35 o bwytiau lansio a mynediad (31 llithrfa a phedair set o lifddorau). O'r rhain, mae wyth llithrfa ac un system lifddor ym Mae Caerdydd. Mae Morglawdd Caerdydd yn cynnwys tair set o lifddorau, sy'n gallu rheoli hyd at 400 o symudiadau cychod y dydd yn ystod cyfnodau prysur. Mae'r rhan fwyaf o lithrfeydd yn eiddo i glybiau cychod hamdden neu'n cael eu rheoli ganddynt, ac mae'r defnydd o lithrfeydd wedi'i gyfyngu i aelodau'r clwb neu mae angen caniatâd ymlaen llaw ar bobl nad ydynt yn aelodau. Caiff llithrfeydd poblogaidd iawn, fel y rhai ym Mae Caerdydd, eu rheoli drwy system drwyddedau. Mae'r systemau rheoli bras hyn yn bwysig oherwydd eu bod yn ei hanfod yn cyfyngu ar y nifer uchaf o ddefnyddwyr cychod yn yr aber ar unrhyw un adeg.

⁴³ Liley D., Panter C. & Hoskin R. 2017 Lydney Severn Estuary Visitor Survey and Recreation Strategy. Adroddiad heb ei gyhoeddi gan Footprint Ecology ar gyfer Cyngor Dosbarth Fforest y Ddena. 55tt. Ar gael yn: <https://www.footprint-ecology.co.uk/reports/Liley%20et%20al%202017%20Lydney%20Severn%20Estuary%20Visitor%20Survey%20and%20Recreation%20Strategy.pdf> [Accessed on the 31/10/2019]

⁴⁴ Southgate J. & Colebourn K. 2016 Severn Estuary (Stroud District) Visitor Survey Report. Report for Stroud District Council. Ecological Planning & Research, Winchester. 68pp. Ar gael yn: https://www.stroud.gov.uk/media/2902/severnestuaryys_report_15581c_final_060616.pdf [Accessed on the 31/10/2019]

⁴⁵ Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren. (Tachwedd 2016). Recreational boating in the Severn Estuary. 85pp. Ar gael yn: <https://asera.org.uk/wp-content/uploads/sites/3/2016/11/ASERA-Water-Based-Recreation-Report-Nov-2016-Low-Res2.pdf> [Accessed on the 04/04/2023]

- 6.6 Nododd y Gymdeithas Hwyllo Brenhinol lwybrau cychod dangosol ar lefelau amrywiol o ddwyyster yn UK Coastal Atlas of recreational Boating (2008). Mae Bae Caerdydd yn ganolbwynt allweddol ar gyfer llwybrau â defnydd hamdden trwm, gydag o leiaf chwech neu fwy o gychod bob amser ar ddyddiau haf. Yn benodol, y llwybr mordeithio rhwng Bae Caerdydd a Marina Portishead yw un o'r llwybrau mwyaf poblogaidd yn yr aber gyda rhyw 30 o gychod y dydd ar gyfartaledd yn teithio trwy Forglaidd Bae Caerdydd. Yn ddiddorol, ac efallai'n groes i reddf, y mis brig ar gyfer cychod ym Mae Caerdydd yw mis Ebrill (1,234) ac mae'r nifer mwyaf o gychod y dydd yn digwydd ym mis Tachwedd (195).
- 6.7 Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o effeithiau aflonyddwch yn sgil gweithgareddau dŵr hamdden yn rhai dros dro (gydag adar yn rhoi'r gorau i borthi ac yn symud i ardaloedd lle mae llai o aflonyddwch, ond yna'n dychwelyd i'w man clwydo / bwydo). Fodd bynnag, os oes effeithiau aflonyddwch hir yn bresennol, gall hyn arwain at ddadleoli'n barhaol, a hynny i gynefinoedd porthi llai na delfrydol yn aml. Mae'n debygol y daw'r aflonyddwch mwyaf yn sgil symudiadau sydyn cychod yn y dŵr sy'n cyd-fynd â sŵn uchel (e.e. cychod modur, sgïo dŵr, jet-sgïo). Yn gyffredinol, mae'n annhebygol y bydd cychod hamdden yn peri pryder yn y dŵr agored, ond yn hytrach pan fyddant yn agos at barthau rhynglanwol a safleoedd clwydo adar pwysig. Mae prif risg arall yn gysylltiedig ag aflonyddwch yn sgil gweithgareddau ysbeidiol ger mannau glanio a lansio sy'n agos at gynefinoedd rhynglanwol.
- 6.8 Fodd bynnag, ar y cyfan, daeth adroddiad y Gymdeithas Hwyllo Brenhinol i'r casgliad nad yw'n debygol y bydd cychod hamdden yn achosi aflonyddwch sylweddol i borthi a chlwydo adar sy'n gaeafu am y rhesymau canlynol:
- Gwahanu tymhorol rhwng y defnydd brig o gychod hamdden a defnydd brig yr adar brig rhwng mis Hydref a Mawrth;
 - Gwahanu llanw rhwng y defnydd cychod (wedi'i gyfyngu'n aml i lanw uchel pan nad yw fflatiau llaid rhynglanwol ar gael i adar) a chyfnodau porthi;
 - Amlygiad anaml a dros dro i gychod ar ddiwrnodau'r gaeaf pan fo hyn yn digwydd (sy'n debygol o fod hyd at bedair awr mewn unrhyw gyfnod o 24 awr); a
 - Bydd lefelau uchel o aflonyddwch o ffynonellau eraill (e.e. cerddwyr cŵn, pobl yn hela adar gwyllt, gweithrediadau porthladdoedd a llongau) yn arbennig ger dinasoedd prysur yn golygu y bydd llawer o adar eisoes wedi cynefino â gweithgareddau dynol.
- 6.9 Er mwyn lleihau effeithiau negyddol gweithgareddau dŵr, mae adnoddau rheoli addysgol ar waith yn yr aber. Mae dull y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol yn dibynnu ar yr egwyddor bod addysg yn aml yn fwy effeithiol na rheoleiddio. Mae'n cynnal cyrsiau sy'n darparu adnoddau a chyingor ymarferol ar ystod o bynciau amgylcheddol, ac mae mwy na 155,000 o bobl yn eu cwblhau bob blwyddyn. Mae'r Green Blue, partneriaeth rhwng y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol a British Marine, wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau a thafenni ffeithiau i geisio codi ymwybyddiaeth yn y diwydiant ac ymhlith hamddenwyr. Er enghraifft, mae Taflen Ffeithiau 1 yn trafod effeithiau cychod a chwaraeon dŵr ar fywyd gwyllt, i geisio creu ymwybyddiaeth o adar sy'n gaeafu. Fel rhan o Brosiect ACA Morol y DU, datblygwyd canllawiau arfer da ar gyfer gweithgareddau hamdden mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd i hyrwyddo ymddygiad da tuag at yr amgylchedd.

Arolwg ymwelwyr Lydney

- 6.10 Roedd arolwg ymwelwyr Lydney yn cwmpasu'r pedwar prif bwynt mynediad i'r rhan o ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren sydd agosaf at Lydney, sef lleoliad arfaethedig datblygiad newydd. Ar draws pob un o'r pwyntiau arolwg, cyfanswm y bobl a ddaeth i'r ardal ehangach oedd 153, sy'n cyfateb i gyfradd o 9.6 o bobl yr awr yn dod i'r ardal o amgylch yr aber. O blieth 83 o gyfweleion, aeth 36 o ymwelwyr (43%) i gerdded cŵn, ac roedd 14 o ymwelwyr (17%) yn cerdded. 5 cyfwelai aeth ar gychod (6%). Er bod hyd yr ymweliad yr un mor fyr (rhwng 30 munud ac 1 awr yn bennaf) ar gyfer pob gweithgaredd (ac eithrio cychod), cerdded cŵn oedd y gweithgaredd hamdden a oedd yn cynnwys y gyfran uchaf o ymweliadau rheolaidd, gyda chyfanswm o 41% o gerddwyr cŵn yn ymweld bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddiwrnodau (180+ o ymweliadau y flwyddyn). Yn bwysicaf oll, mae patrymau ymweld cerddwyr cŵn, cerddwyr a loncwyr, yn amlygu bod tuedd i ymwelwyr fyw yn agos iawn at yr ACA. Er enghraifft, mae cerddwyr cŵn yn teithio pellter canolrifol o 2.3km i'w pwynt mynediad (ar droed fel arfer), gan dynnu sylw at arwyddocâd posibl datblygiadau preswyl newydd cyfagos. Yn gyffredinol, mae arolwg Lydney yn tynnu sylw at y ffaith bod ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren yn destun aflonyddwch rheolaidd gan grwpiau defnyddwyr penodol, yn enwedig cerddwyr cŵn, yr ystyrir eu bod yn cael yr effaith aflonyddwch fwyaf ar nodweddion AGA / Ramsar.

Arolwg ymwelwyr Stroud

- 6.11 Canolbwyntiodd arolwg ymwelwyr Stroud ar ran uchaf ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren, yn agosach at le mae Afon Hafren yn newid i fod yn Aber Afon Hafren. Arolygwyd naw pwynt mynediad i'r aber, a oedd naill ai'n lleoliadau parcio neu'n Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTCau) yn darparu mynediad uniongyrchol i'r aber. Ar y cyfan, roedd 461 o bobl yn defnyddio'r ardal dros ddau ddiwrnod ar bob pwynt mynediad, gan arwain at gyfradd fynediad o 30.7 o bobl yr awr. Cofnodwyd 185 o gŵn ar draws pob pwynt mynediad dros gyfnod yr arolwg deuddydd, gan arwain at gyfartaledd o 12.3 o gŵn yr awr. Roedd gan 51.6% o'r grwpiau a holwyd o leiaf un ci, sydd ychydig yn llai na'r hyn a welwyd mewn safleoedd morol eraill fel y Solent (53%) a Gogledd Caint (65%). Y pellter cyfartalog (cymedr) a deithiwyd gan ymwelwyr i gyrraedd eu pwynt mynediad oedd 14.5km. Roedd ymwelwyr a oedd yn cyrraedd ar droed, h.y. y trigolion lleol, wedi teithio 5.4km ar gyfartaledd. Yn bwysig, roedd yr astudiaeth hefyd yn darparu dalgylch ymwelwyr ar gyfer ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren, sy'n defnyddio'r 75^{ain} canradd safonol o bellteroedd a deithiwyd gan ymwelwyr i ddiffinio dalgylch hamdden craidd. Yn ddi-ddorol, ac yn wahanol i Lydney, lle mae ymwelwyr yn teithio pellteroedd byr iawn i fannau mynediad, mae gan yr aber yn Stroud ddalgylch hamdden dangosol o 17.7km (pob ymwelydd) a 7.7km (trigolion Stroud yn unig). Mae'n debyg mai'r prif reswm dros y dalgylch mawr anghymesur hwn yw'r dwysedd tai isel yn y rhan hon o'r awdurdod, sy'n sylweddol is nag mewn rhannau eraill o'r DU (e.e. y Solent).

Arolwg ymwelwyr Sir Fynwy a Thorfaen

- 6.12 Mae CDLIN Sir Fynwy yn darparu ar gyfer 8,366 o anheddau newydd dros gyfnod y cynllun, gan gynnwys Ardaloedd Twf Strategol Cas-gwent a Glannau Hafren. Bydd cyfran sylweddol o'r tai hyn yn cael eu darparu o fewn pellter cerdded o 1km i'r aber, fel bod y CDLIN yn debygol o gynyddu'r baich hamdden o fewn yr ACA / AGA / Ramsar yn sylweddol. Ar sail argymhelliad AECOM, comisiynodd Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Torfaen (gyda'r awdurdod olaf hefyd yn datblygu ei CDLIN gan gynnwys twf tai) arolwg ymwelwyr ar y cyd ar bedwar pwynt mynediad (sy'n cynnwys lleoliadau parcio a mynediad ar droed) i ddarparu'r data ymwelwyr cyfunol cyntaf ar hyd rhan Cymru yr aber. Mae hyn wedi'i gyhoeddi fel rhan o ARhC Cynllun Lleol Adneuo Sir Fynwy.
- 6.13 Roedd nifer yr ymwelwyr mewn lleoliadau a arolygwyd yn amrywio rhwng 127 (Llwybr Arfordir Cil-y-coed, mynediad ar droed yn unig) a 613 (Gwlyptiroedd Casnewydd RSPB, maes parcio mawr ar gael ar safle'r RSPB) o bobl dros ddau ddiwrnod arolwg, sy'n dangos bod yr aber yng Nghymru yn brysurach na rhai o'i rhannau a arolygwyd yn Lloegr (e.e. yn Lydney, dim ond 98 o ymwelwyr gafodd y lleoliad prysuraf mewn 16 awr). Yn amlwg, mae'r data'n tynnu sylw at y ffaith bod yr aber yn ne Cymru eisoes yn gyrchfan hamdden allweddol ni waeth beth fydd y twf tai yn y dyfodol. Fel y cofnodwyd ar gyfer llawer o safleoedd Cynefin eraill, cerdded cŵn oedd y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell ffordd (48.9% o'r rhai y cyfwelwyd â nhw), ac yna cerdded (29.8%) a diwrnodau teuluol (5.9%). Roedd cyfran y cerddwyr cŵn gryn dipyn yn uwch ar Lwybr Arfordir Cil-y-coed a Maes Parcio'r Graig Ddu, mae'n debyg oherwydd bod y ddau bwynt arolwg ar bellter cerdded hawdd i ddatblygiad preswyl cyfagos.
- 6.14 Mae nodwedd arall a oedd yn amlwg o'r data yn ymwneud â ffyddlondeb ymwelwyr â'r safle, gyda 51.6% o'r rhai y cyfwelwyd â nhw yn ymweld naill ai bob dydd, y rhan fwyaf o ddiwrnodau (180+ o ymweliadau y flwyddyn) neu 1 i 3 gwaith yr wythnos (40 i 180 o ymweliadau y flwyddyn). Nid oedd unrhyw batrwm tymhorol cryf yn y tueddiadau hamdden yn amlwg, gan nodi nad yw potensial yr aflonyddwch hamdden yn lleihau dros gyfnod y gaeafu i adar AGA / Ramsar. Casglwyd codau post cartref gan gyfweleion hefyd i sefydlu dalgylch hamdden craidd ar gyfer rhan Cymru ACA / AGA/ Ramsar Aber Afon Hafren. Gan ddefnyddio data cod post cyfweleion oedd yn ymweld o gartref, sefydlwyd dalgylch craidd o 6.5km ar gyfer y safle. Mae hyn yn debyg yn fras i'r dalgylch craidd a sefydlwyd ar gyfer Ardal Stroud (7.7km) a chan awdurdodau Gorllewin Lloegr (7.4km).
- 6.15 Yn ddiweddar, mae Cyngor Stroud (yn Lloegr) wedi cynyddu'r dalgylch hamdden yn eu hardal ar gyfer Aber Hafren o 7km i 12.6km, ar sail arolwg ymwelwyr mwy diweddar o 2022⁴⁶. Mae disgwyl i wahanol rannau o Aber Afon Hafren gael dalgylchoedd hamdden gwahanol, ac mae data'r arolwg ar gyfer Sir Fynwy yn dangos dalgylch craidd llai. Fodd bynnag, mae gwerth hefyd i awdurdodau o amgylch Aber Afon Hafren gan fabwysiadu dalgylch craidd cyson. I Gaerdydd, ni fyddai wahaniaeth pe byddai'r parth yn 7km neu 12.6km gan fod Caerdydd yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn yr hen barth.

⁴⁶ [Eitem Agenda 9 - Atodiad A - Strategaeth Liniaru Aber Afon Hafren.pdf \(modern.gov.co.uk\)](https://www.stroud.gov.uk/environment/planning-and-building-control/conservation-biodiversity-listed-buildings-trees-and-hedgerows/habitats-regulations-assessment-hra/)

<https://www.stroud.gov.uk/environment/planning-and-building-control/conservation-biodiversity-listed-buildings-trees-and-hedgerows/habitats-regulations-assessment-hra/>

<https://www.stroud.gov.uk/environment/planning-and-building-control/conservation-biodiversity-listed-buildings-trees-and-hedgerows/habitats-regulations-assessment-hra/severn-estuary-special-area-of-conservation-sac/>

6.16 Mae'r potensial ar gyfer effeithiau hamdden o dwf tai newydd sy'n gysylltiedig â safle AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn bodoli nid yn unig yng Nghaerdydd ond ar draws awdurdodau lleol sydd o fewn hyd at 12.6km i safle SPA/Ramsar. Mae hyn yn cynnwys Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen (er bod arolwg ymwelwyr ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn awgrymu mai cymharol ychydig o drigolion Torfaen sy'n ymweld â safle SPA/Ramsar), Casnewydd a Sir Fynwy yng Nghymru. Felly, gallai colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol yng Nghaerdydd ddigwydd ar y cyd â cholledion yn yr awdurdodau eraill hynny.

Goblygiadau i CDLIN Caerdydd

6.17 Ni chynhaliwyd unrhyw arolwg ymwelwyr pwrpasol ar gyfer manau mynediad i'r aber yng Nghaerdydd, felly nid oes unrhyw ddata am batrymau hamdden ar gael ar gyfer yr awdurdod. Fodd bynnag, o ystyried bod Caerdydd yn ffinio â'r aber a gwybodaeth gyd-destunol arolygon ymwelwyr eraill o Aber Hafren yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhesymol tybio ei bod o fewn dalgylch hamdden craidd yr AGA / Ramsar / ACA. Mae data cod post o arolwg ymwelwyr Sir Fynwy yn dangos mai Caerdydd yw'r trydydd cyfrannwr pwysicaf at nifer yr ymwelwyr ar hyd rhannau'r aber a arolygwyd ar ôl Sir Fynwy a Chasnewydd (12 o gyfweleion, 6.7%). O ystyried bod trigolion Caerdydd yn teithio i fannau mynediad mewn awdurdodau eraill, mae'n debygol iawn y byddant hefyd yn gwneud defnydd helaeth o bwntiau mynediad yn ne Caerdydd. Felly mae'n rhesymol disgwyl y bydd y 9,744 o anheddau newydd net ychwanegol a ddisgwylir yng Nghaerdydd yn cyfrannu at bwysau hamdden yn y safle AGA/Ramsar. **Felly, ystyrir bod angen mesurau osgoi a lliniaru hefyd i ganiatáu bwrw ymlaen â'r twf mewn tai yng Nghaerdydd.**

Lliniaru drwy Strategaeth Dros Dro i Osgoi Effaith

- 6.18 Mae'n debygol y bydd datblygiadau tai i'w cyflawni yng Nghaerdydd ac awdurdodau cyfagos (y cwmpas cyfunol) yn cynyddu'r pwysau ymwelwyr ar ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren, gydag effeithiau andwyol posibl ar adar sy'n gaeafu ac ar gynefinoedd. O ystyried sensitifrwydd uchel yr AGA / Ramsar i effeithiau sy'n deillio o bwysau hamdden, ni ellir eithrio effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle oherwydd datblygiadau preswyl ychwanegol. Gall pwysau o'r fath hefyd gael ei waethygu gan fentrau o dan Bolisiâu SP10: Twristiaeth ac EC9: Datblygu Gwestyau Rhagwelir y bydd angen mesurau lliniaru i osgoi effeithiau andwyol ar yr AGA / Ramsar. Gellid darparu'r rhain ar ffurf Rheoli a Monitro Mynediad Strategol (RhMMS/SAMM) yn yr aber ei hun, a / neu drwy welliannau mynediad a gwelliannau i fannau gwyrdd mewn lleoliad priodol, rhai presennol neu rai newydd eu datblygu. Nid yw'r adran hon yn dadlau dros nac yn cynnig strategaeth lliniaru lawn, ond yn hytrach mae'n cwmpasu'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor i fynd i'r afael â mater pwysau o du hamdden.
- 6.19 Yn Lloegr, mae awdurdodau o fewn dalgylch hamdden safleoedd sy'n sensitif i bwysau hamdden wedi datblygu strategaethau RhMMS i osgoi effeithiau andwyol ar y safleoedd Cynefin; yr enghreifftiau amlycaf yw AGA Rhosydd Basn y Tafwys ac AGA Rhosydd Dorset. Er enghraifft, er mwyn gwarchod Rhosydd Dorset, mae'r awdurdodau sy'n cynnig datblygiad preswyl o fewn dalgylchoedd yr AGA wedi llunio Dogfen Gynllunio Atodol (DGA) Fframwaith Cynllunio Rhosydd Dorset⁴⁷. Er enghraifft, yn achos Rhosydd Dorset, mae'r DGA yn cynnig cyfres o brosiectau RhMMS, gan gynnwys ymgymryd â gweithgareddau addysgol a chyflogi wardeiniaid i reoli pwysau ymwelwyr. Cesglir cyllid ar gyfer y mesurau hyn trwy gyfuniad o Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) a chytundebau Adran 106 (rhwymedigaethau cynllunio) sy'n daladwy gan y datblygwr. Ystyrir y gellid defnyddio mesurau tebyg (a mecanweithiau ariannu) yn AGA Aber Afon Hafren / Ramsar, i helpu i reoli pwysau hamdden. Byddai'n rhaid nodi a datblygu mesurau o'r fath mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid allweddol (h.y. awdurdodau, tîrfeddianwyr preifat) ac mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.20 Mae data'r arolwg ymwelwyr ar gyfer Aber Afon Hafren a gynhaliwyd ar gyfer Sir Fynwy yn dangos bod digon o gyfleoedd i brosiectau RhMMS wella ymgysylltiad â'r safle AGA/Ramsar. Nid yw'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn ymwybodol o (125 o gyfweleion, 66.5%) neu maent yn ansicr (21 o gyfweleion, 11.2%) a oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth yn berthnasol i'r safle. Ar ben hynny, dim ond un cyfwelai (0.5%) a nododd ei fod yn gwybod am statws AGA / Ramsar y safle a'i bwysigrwydd rhyngwladol i adar yn gaeafu. O ran mesurau cadwraeth gweithredol, roedd cyfanswm o 87 o gyfwelwyr (46.3%) wedi dod ar draws byrddau gwybodaeth ar hyd yr aber. Dim ond 18 o gyfweleion (9.6%) a nododd eu bod yn ymwybodol o unrhyw arwyddion (e.e. arwyddion cŵn-ar-dennyn) ar hyd yr aber. Ar ben hynny, dim ond 3 chfwelai (1.6%) a oedd wedi sylwi ar bresenoldeb ceidwad ar hyd yr aber. Cofnodwyd y rhain i gyd yng Ngwlyptiroedd RSPB Casnewydd, gan awgrymu ei bod yn debygol mai gweithwyr RSPB oedd y rhain yn hytrach na cheidwaid oedd yn rheoli hamdden yn benodol yn yr aber. At ei gilydd, nid oedd 82 o gyfweleion (43.6%) yn ymwybodol o unrhyw fesurau ar waith i sicrhau cadwraeth yn yr AGA / Ramsar / ACA.

⁴⁷ Gellir gweld drafft ymgynghori Fframwaith Cynllunio Rhosydd Dorset 2020-2025 yn: <https://www.bournemouth.gov.uk/planningbuilding/PlanningPolicy/PlanningPolicyFiles/dorset-heathlands-planning-framework/dorset-heathlands-spd-2019-consultation.pdf> [Accessed on the 30/06/2020].

- 6.21 Felly, gellid defnyddio mesurau RhMMS amrywiol ar hyd yr aber i leihau effaith debygol twf tai o dan y CDLIN yn y dyfodol. Er enghraifft, mae arwyddion gwell (e.e. arwyddion cŵn-ar-dennyn sy'n cwmpasu'r cyfnod gaeafu) ar hyd yr aber yn debygol o gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a lleihau aflonyddwch i rywogaethau adar sensitif. Gall newidiadau yn y ffordd y caiff yr aber ei rheoli hefyd fod o fudd i AGA / Ramsar / ACA Aber Afon Hafren, ar yr amod eu bod yn cefnogi Amcanion Cadwraeth y safle. Gallai gwelliannau i lwybrau troed ar hyd yr aber fod yn arf allweddol i annog cadw at y trac a lleihau nifer y digwyddiadau mawr o aflonyddu ar adar.
- 6.22 Agor manau gwyrdd newydd i'r cyhoedd neu wella'r manau gwyrdd presennol yw'r ail biler i liniaru pwysau hamdden. Yn bwysig, dylai'r manau gwyrdd amgen hyn fod yn llai sensitif i aflonyddwch, gan anelu i'r graddau gorau posibl at ail-greu teimlad o ehangder a gwylltir. Cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd llawer llai o botensial ar gyfer hyn mewn ardaloedd trefol fel Caerdydd nag mewn awdurdodau sydd ag arfordir mwy gwledig.
- 6.23 Yn unol â'r Strategaeth Osgoi Effaith Dros Drod eang a sefydlwyd ar gyfer Stroud, argymhellir bod ystod o fesurau osgoi a lliniaru yn cael eu defnyddio o fewn yr awdurdod a byddai'n gwneud synnwyr bod rhywfaint o integreiddio rhwng y mesurau a ddefnyddir yng Nghaerdydd a'r rhai mewn awdurdodau arfordirol eraill yng Nghymru sy'n berthnasol (h.y. Casnewydd a Sir Fynwy). I grynhoi, y rhain fyddai:
- Darparu Manau Gwyrdd Amgen Addas (MGAA), lle bo'n bosibl, yn agos at safleoedd tai wrth iddynt ddod i'r amlwg (er y nodir y bydd yn anodd efelychu naws ac atyniad yr aber ac efallai na fydd yn ymarferol ar gyfer Caerdydd);
 - Mesurau Rheoli a Monitro Mynediad Strategol (RhMMS) ar y safle o ran themâu allweddol gwaith ceidwaid, arwyddion, byrddau gwybodaeth, addysg ac ymwybyddiaeth, parthau ac is-ddeddfau, a darpariaeth barcio;
 - Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau cyfagos a chynghorau plwyf) i gyflawni canlyniad cydlynol, integredig, cynaliadwy a hirdymor; a
 - Monitro lefelau hamdden yn y dyfodol i asesu patrymau hamdden newidiol a digonolrwydd dosraniadau adar sy'n gaeafu i asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru.
- 6.24 Er bod y Strategaeth Dros Dro i Osgoi Effaith hon wedi'i chreu gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Stroud, gellid defnyddio mesurau lliniaru tebyg ar gyfer Caerdydd, pe byddai angen. Mae arolygon ymwelwyr mewn safleoedd Cynefin eraill (e.e. Solent, Gogledd Caint, Aber yr Exe, Rhosydd Basn Tafwys, Rhosydd Dorset) wedi arwain at strategaethau tebyg. Mae'r gyfres nodweddiadol o offer ar gyfer lliniaru pwysau ymwelwyr yn cynnwys darparu Manau Gwyrdd Amgen Addas a Rheoli a Monitro Mynediad Strategol, ac mae angen i'r ddau fod wedi'u teilwra i'r cyd-destun safle-benodol. Gallai ateb arall fod yn gydweithrediad traws-awdurdod, lle byddai Cyngor Dinas Caerdydd yn llofnodi'r Strategaeth Dros Dro i Osgoi Effaith bresennol a ddatblygwyd ar gyfer Ardal Stroud ac y gellid ei hehangu'n ddaearyddol i gynnwys Caerdydd.
- 6.25 Mae Polisi BG1 y Cynllun Lleol yn diogelu safleoedd dynodedig drwy atal datblygiadau a fyddai'n arwain at niwed i safleoedd o bwysigrwydd natur rhyngwladol a chenedlaethol. Mae'r polisi hwn hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen cefnogaeth Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol ac efallai y bydd angen Asesiadau Rheoli Cynefinoedd hefyd lle gallai datblygiadau fod yn effeithio ar y safleoedd hyn.
- 6.26 Fodd bynnag, argymhellir bod Caerdydd yn ymgorffori polisi ar Bwysau Hamdden Aber Afon Hafren tebyg i'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar gyfer yr un safle Cynefin yng Nghynllun Lleol Adneuo Sir Fynwy, sy'n nodi na fydd cynigion a fyddai'n arwain at bwysau ymwelwyr ar yr AGA/Ramsar/ACA yn cael eu cefnogi oni ellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle yn digwydd. Deallir bod Cyngor Caerdydd yn cynnig polisi ychwanegol BG7 er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywed y polisi hwn - *'Ni chefnogir cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA, AGA, Ramsar Aber Afon Hafren, ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd, effaith ar diroedd â chysylltiad swyddogaethol o ran Safle Forol Ewropeaidd (SME) Aber Afon Hafren, oni ellir dangos y gellir cynnal cyfanrwydd y Safle Morol Ewropeaidd neu ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn dilyn y broses ARhC fesul cam'*. Yna mae'r polisi yn rhoi esboniad pellach o sut y bydd y polisi yn cael ei gyflawni.
- 6.27 Gan fod lliniaru yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol os caiff ei gydlynu mewn strategaeth RhMMS neu MGAA, dylai Caerdydd hefyd weithio tuag at ddatblygu strategaeth lliniaru a ariennir gan dariff ar ddatblygiadau preswyl newydd net a chael amlinellid o strategaeth lliniaru o'r fath ar gael erbyn adeg Archwiliad y Cynllun Lleol.

ACA Coed Ffawydd Caerdydd

- 6.28 Mae ACA Coed Ffawydd Caerdydd wedi'i dynodi ar gyfer coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* a choedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd. Mae'r ddau gynefin hyn yn sensitif i aflonyddwch hamdden, yn enwedig o ganlyniad i sathru. Mae Polisi SP1 (Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy) yn dyrannu 26,400 o anheddau dros gyfnod y CDLIN (bydd 9,744 o'r rhain yn rhai newydd net), a fydd yn arwain at gynydd ym mhoblogaeth Caerdydd o tua 18,336 o drigolion ychwanegol. Bydd hyn yn arwain at fwy o alw am fannau gwyrdd hamdden.
- 6.29 Mae'r ACA yn gorwedd yn rhan ogleddol boblog iawn Caerdydd, yn ffinio ag ardaloedd trefol Pentyrch, Ffynnon Taf a Thongwynlais. Bydd trigolion o'r rhan fwyaf o anheddau a ddyrennir yng ngogledd Caerdydd yn ceisio cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn lleol, a'r lleoliad mwyaf tebygol fydd yr ACA.
- 6.30 Mae Cynllun Rheoli Craidd (CRhC) Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn tynnu sylw at y ffaith bod defnydd hamdden yn ffactor a allai effeithio ar y coedwigoedd *Asperulo-Fagetum* a *Tilio-Acerion*. Mae'r CRhC yn dweud '*the woodlands, especially Castell Coch and Fforestganol a Chwm Nofydd, experience heavy recreational pressure and certain areas are managed for this purpose.*' Cyfeirir at bwysau datblygu yn sgil seilwaith yn y cyffiniau hefyd fel mater i'r safle, sy'n cynnwys datblygu tai ac effeithiau negyddol cysylltiedig yn sgil pwysau hamdden a threfoli. Er nad oes unrhyw gyfyngiadau gweithredol o ran hamdden wedi'u gosod, mae CNC yn tynnu sylw yn glir at y ffaith bod angen dealltwriaeth lawnach o linell sylfaen hamdden ac effeithiau ar gynefinoedd. Dylid cadw golwg ar faterion mynediad. Ar y cyfan, o ran ACA Coed Ffawydd Caerdydd mae CNC yn gofyn am gydbwysedd rhwng defnydd hamdden cynaliadwy a diogelu pwysigrwydd cadwraeth natur y safle. Mae'r adnodd Priso Hamdden Awyr Agored (ORVal) yn tynnu sylw at y 76,597 o ymwelwyr y flwyddyn sy'n ymweld â SoDdGA Cwm Nofydd a Fforestganol yn unig (sy'n nifer uchel o ymweliadau ar gyfer Gwarchodfa Natur Leol) ac yn creu gwerth lles blynyddol o £225,525. Er nad yw'r adnodd ORVal yn darparu amcangyfrif ar gyfer Coetiroedd Castell Coch, mae'n debygol y bydd nifer yr ymwelwyr yn y rhan hon o'r ACA gryn dipyn yn uwch oherwydd presenoldeb nodweddion penodol o ddiddordeb (e.e. llwybr Taf ac adeilad hanesyddol).
- 6.31 Mae gweithgareddau poblogaidd yn ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn cynnwys cerdded, dringo a beicio mynydd, sy'n digwydd ym mhob rhan o'r SoDdGA. Mae'r coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* yng Nghoetiroedd Castell Coch yn destun lefelau arbennig o uchel o ymwelwyr, oherwydd Taith Taf sy'n teithio drwy'r coetir a phresenoldeb yr adeilad hanesyddol, sy'n denu llawer o ymwelwyr. Bu cynnydd arbennig ar y safle mewn dringo, sydd wedi ei nodi fel bygythiad posib i'r coed ar ben y graig. Mae'r CRhC yn nodi mai perchnogion safleoedd unigol sy'n rheoli mynediad, gyda gwrthdaro buddiannau posibl yn cael sylw drwy Fforwm Mynediad yr Awdurdod Lleol. O ystyried poblogrwydd cynyddol y safle, mae pwysau cynyddol i agor ardaloedd ychwanegol ar gyfer mynediad a all fod ag effeithiau negyddol ar blanhigion daear y coetir a choed cymwys. Mae CNC yn parhau i weithio gyda Chyngor Sir Caerdydd a grwpiau dringo i sicrhau nad yw Taith Taf a gweithgareddau dringo yn Adran Heol Castell Coch yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar ddiddordeb cadwraeth y safle.
- 6.32 Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi dewis creu Strategaeth Dwf Gynaliadwy sy'n ceisio cyflawni'r targed tai gofynnol o 24,600 o anheddau ar safleoedd tir llwyd o fewn ffiniau aneddiadau presennol. I raddau helaeth, bydd safleoedd a ddyrennir yn cynnwys ardaloedd adfywio ac adnewyddu mawr sydd wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw canolfannau ardal a lleol. Mae rhan fach o'r twf tai i'w chyflawni drwy fanc tir presennol o safleoedd maes glas ar gyrion y ddinas. Bydd Lletem Las yng ngogledd yr awdurdod yn cael ei amddiffyn rhag datblygiad amhriodol gan gynnwys tai. Mae hyn yn gadarnhaol i AGA Coed Ffawydd Caerdydd, sydd o fewn y llain las hon, gan ei fod yn golygu mai cyfyngedig fydd y twf tai yn agos i'r safle.
- 6.33 Er mwyn llywio'r asesiad priodol hwn, mae AECOM ar y cyd â chwmni arolygu arbenigol wedi cynnal arolwg ymwelwyr mewn 11 o bwyntiau arolwg (sy'n cwmpasu lleoliadau parcio a mynediad ar droed) o amgylch Coed Ffawydd Caerdydd i ddarparu data ymwelwyr ar gyfer ACA Coed Ffawydd Caerdydd. Roedd hyn yn defnyddio methodoleg a ddefnyddir yn helaeth ar gyfer safleoedd Cynefin eraill. Cafodd lleoliadau arolygu eu dewis mewn trafodaeth gyda swyddogion Cyngor Caerdydd sy'n gyfarwydd â'r Coed Ffawydd. Roedd wyth lleoliad o fewn yr ACA, a/neu mewn mannau mynediad addas ar gyfer yr ACA, tra bod tri lleoliad arall mewn rhannau eraill o'r Coed Ffawydd. Cynhaliwyd cyfweiliadau rhwng 8am a 6pm ac roeddent yn cynnwys cymysgedd o ddyddiau'r wythnos a phenwythnosau. Cwblhawyd cyfrifo ymwelwyr hefyd. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar sifft arolwg 5 awr ym mhob lleoliad arolwg, gyda phob lleoliad yn cael ei arolygu ar ddiwrnod o'r wythnos ac ar benwythnos. Felly cwblhawyd cyfanswm o 44 sifft arolwg pum awr ym mis Awst a mis Medi 2024. Cyflwynir y lleoliadau a'r canlyniadau yn Atodiad C. Fel sy'n cael ei gofnodi ar gyfer llawer o safleoedd Cynefin eraill, cerdded cŵn oedd y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell ffordd (61.5% o'r rhai a gyfwelwyd), ac yna cerdded (23%). Mae nodwedd arall a oedd yn amlwg o'r data yn ymwneud â ffyddlondeb ymwelwyr â'r safle, gyda 51.6% o'r rhai a holwyd yn ymweld naill ai bob dydd, y rhan fwyaf o ddiwrnodau (180+ o ymweliadau y flwyddyn) neu 1 i 3 gwaith yr wythnos (40 i 180 o

ymweliadau y flwyddyn). Nid oedd patrwm tymhorol cryf amlwg yn y tueddiadau hamdden. Casglwyd codau post cartref y cyfweleion hefyd i sefydlu dalgylch hamdden craidd ar gyfer ACA Coed Ffawydd Caerdydd Gan ddefnyddio data cod post cyfweleion a oedd yn ymweld o'u cartrefi, sefydlwyd dalgylch craidd o 6km ar gyfer y safle (wedi ei seilio ar barth lle roedd 75% o'r ymwelwyr yn byw)). Tra bod ymwelwyr wedi eu dosbarthu ar draws de Cymru, daeth mwyafrif clir o Gaerdydd ei hun.

- 6.34 O ystyried gwendidau ACA Coed Ffawydd Caerdydd a'r ffaith bod mwyafrif yr ymwelwyr rheolaidd â'r ACA yn drigolion Caerdydd, ystyrir y gallai cyfanswm o 9,744 o anheddau newydd net, nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio eisoes, gynyddu pwysau hamdden yn yr ACA ymhellach. Gall pwysau o'r fath hefyd waethgu gan fentrau o dan Bolisiâu SP10: Twristiaeth ac EC9: Datblygu Gwestyau Er na ellir defnyddio tariffau ar ddatblygiadau newydd i fynd i'r afael â materion pwysau hamdden sy'n bod eisoes, mae'n hanfodol er mwyn dod i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd ACA yn codi o'r Cynllun Lleol bod mecanwaith yn bodoli i fynd i'r afael â phwysau hamdden gan dwf pellach yn y boblogaeth. Er bod ymwelwyr yn dod o Gaerdydd yn bennaf, mae'r arolwg ymwelwyr yn dangos y byddai'r dalgylch craidd 6km hefyd yn cynnwys Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Gallai twf tai o fewn 6km i'r ACA yn y ddau awdurdod hyn (yn enwedig tref Caerffili ei hun) weithredu ar y cyd â thwf yng Nghaerdydd.
- 6.35 Fel gydag Aber Afon Hafren, dull cyffredin o fynd i'r afael â phwysau hamdden yw cymysgedd o reoli mynediad ar y safle (RhMMS) a darparu mannau gwyrdd hamdden amgen oddi ar y safle. Yn yr achos hwn, o ystyried lleoliad ac apêl unigryw Coed Ffawydd Caerdydd, a'i agosrwydd at ffynhonnell mor fawr o ymwelwyr, gellir dod i'r casgliad mai potensial cyfyngedig sydd gan fannau gwyrdd hamdden newydd oddi ar y safle i ddenu pobl i ffwrdd o'r ACA; serch hynny, dylid archwilio cyfleoedd i greu ardaloedd eraill ar gyfer hamdden naturiol hawdd eu cyrraedd yng nogledd Caerdydd i'w hintegreiddio â'r Lletem Las yng nogledd yr awdurdod lle na chaniateir datblygiadau newydd. Dylai hyn ganolbwyntio ar goetiroedd newydd ger yr ACA, nid yn unig ar gyfer hamdden, ond er mwyn caniatáu ehangu'r adnodd coetir i glustogi unrhyw effaith. Os ystyrir bod mannau gwyrdd naturiol amgen yn debygol o fod yn aneffeithiol, byddai'r ffocws ar reoli hamdden o fewn yr ACA (RhMMS). Mae hyn yn gyson â'r ymagwedd a gymerwyd mewn safleoedd Cynefin mewndirol eraill yr ystyrir eu bod yn atyniad hamdden arbennig o gryf, megis ACA Cannock Chase yng nghanolbarth Lloegr neu'r New Forest yn ne Lloegr.
- 6.36 Ystyrir y dylai'r gwaith o reoli defnydd hamdden ganolbwyntio ar gynnal y rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus a llwybrau mynediad. Mae cynnal a chadw'r rhwydwaith mynediad yn rheolaidd yn allweddol i atal lledaeniad llwybrau, erydiad cynefinoedd a llinellau dymuniad. Ar ben hynny, trwy ganolbwyntio nifer yr ymwelwyr hamdden ar rwydwaith allweddol o lwybrau, mae prosesau ac adfywiad naturiol coetiroedd yn cael eu diogelu mewn rhannau eraill mwy sensitif o'r safle. Er bod mynediad hamdden i'r coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrîau a cheunentydd wedi'i gyfyngu'n gynhenid gan y tir serth a chreigiog, darperir argymhellion rheoli tebyg o ran y nodwedd hon.
- 6.37 Mae Polisi BG1 y Cynllun Lleol yn diogelu safleoedd dynodedig drwy atal datblygiadau a fyddai'n arwain at niwed i safleoedd o bwysigrwydd natur rhyngwladol a chenedlaethol. Mae'r polisi hwn hefyd yn amlygu y bydd angen cefnogaeth Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol ac efallai y bydd angen Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd hefyd lle gall datblygiadau effeithio ar y safleoedd hyn. Fodd bynnag, argymhellwyd bod Caerdydd yn ymgorffori polisi o Bwysau Hamdden Coed Ffawydd Caerdydd tebyg i'r hyn a argymhellir ar gyfer Aber Afon Hafren, sy'n nodi na fydd cynigion a fyddai'n arwain at bwysau ymwelwyr ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn cael eu cefnogi oni bai y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle. Deallir bod Cyngor Caerdydd yn cynnig polisi ychwanegol BG7 er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywed y polisi hwn - *'Ni chefnogir cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA, AGA, Ramsar Aber Afon Hafren, ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd, effaith ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol o ran Safle Forol Ewropeaidd (SME) Aber Afon Hafren, oni ellir dangos y gellir cynnal cyfanrwydd y Safle Morol Ewropeaidd neu ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn dilyn y broses ARhC fesul cam'*. Mae'r polisi wedyn yn rhoi esboniad pellach o sut fydd y polisi yn cael ei gyflawni.
- 6.38 Gan fod lliniaru yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol os caiff ei gydlynu mewn RhMMS, dylai Caerdydd hefyd weithio tuag at ddatblygu strategaeth liniaru a ariennir gan dariff ar ddatblygiadau preswyl newydd net a chael amlinelliad o strategaeth liniaru o'r fath i fod ar gael erbyn Archwiliad y Cynllun Lleol.

Tir â Chysylltiad Swyddogaethol

AGA /Ramsar Aber Afon Hafren

- 6.39 Mae dynodiad AGA / Ramsar Aber Afon Hafren yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r cynefin a ddefnyddir gan ei rhywogaethau adar cymwys, gan gynnwys y morfa pori gwlyb, glaswelltir gwell a dŵr llonydd agored. Fodd bynnag, efallai y bydd disgwyl i rai o'i rhywogaethau adar dŵr a rhydyddion mwy symudol, yn fwyaf nodedig

yr alarch Bewick a'r wŷydd dalcenwyn, symud y pellter hiraf y tu hwnt i ffin y safle. Mae Nodyn Cyngor Natural England⁴⁸ yn nodi y bydd *'some species will also use areas of land and coastal waters outside the boundaries of both the European Marine Site, SPA and Ramsar site*. Relevant authorities need to have regard to such adjacent interests, as they might be affected by activities taking place within, or adjacent to the European Marine Site.' I bob pwrpas, mae'r datganiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith o ran AGA / Ramsar Aber Afon Hafren bod yn rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i golli tir â chysylltiad swyddogaethol.

- 6.40 Mae elyrch Bewick yn bwydo ar sawl rhywogaeth o laswellt dolydd meddal, gan gynnwys *Agrostis stolonifera* ac *Alopecurus geniculatus* sy'n rhywogaethau cydrannol ar ddolydd gwlyb. Efallai y bydd rhai o nodweddion cynefinoedd o'r fath wedi'u lleoli y tu allan i safle'r Cynefin. Mae'r pellter a deithir i fforio tiroedd y tu hwnt i ffin yr AGA / Ramsar yn debygol o ddibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn, amodau adnoddau o fewn yr AGA / Ramsar a chystadleuaeth rhyng-benodol. Oherwydd cyfuniad o'r ffactorau hyn, mae elyrch Bewick yn fforio'n rhannol mewn caeau ar bellteroedd cymharol fawr o'u lleoliadau clwydo. Penderfynodd astudiaeth yn yr Iseldiroedd fod elyrch Bewick yn fforio mewn caeau â 7.1km i ffwrdd o'u mannau clwydo⁴⁹.
- 6.41 Mae AGA/Ramsar Aber Afon Hafren wedi'i dynodi am ei phoblogaeth fawr o adar dŵr a rhydyddion yn gyffredinol, ac am ei phoblogaethau penodol o elyrch Bewick nad ydynt yn bridio, gwyddau talcenwyn, pibydd y mawn, y coesgoch, hwyaden yr eithin, yr hwyaden lwyd, y cwtiad torchiog, y gylfinir a'r hwyaden gynffonfain. Er mwyn helpu i ystyried materion tir â chysylltiad swyddogaethol mae Natural England wedi cynhyrchu canllawiau heb eu cyhoeddi (nid oes unrhyw adnoddau cyfatebol gan Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae'r canllawiau hyn yn grwpio adar yn ôl eu pellter fforio mwyaf. Yn ôl y canllawiau hyn, mae'r rhan fwyaf o adar dŵr a rhydyddion yn aros o fewn 2km i'w hardaloedd clwydo craidd (hy safle AGA / Ramsar) wrth fforio. O'r rhywogaethau hynny y dynodwyd AGA / Ramsar Aber Afon Hafren/Ramsar ar eu cyfer, yr eithriadau yw'r alarch Bewick a'r wŷydd dalcenwyn sy'n fforio hyd at 10km o'u safleoedd clwydo craidd. Mae'r un canllawiau Natural England o'r farn y gallai datblygiad preswyl gael effaith andwyol ar y ddwy rywogaeth hon pe bai'n arwain at golli tir â chysylltiad swyddogaethol hyd at 5km o'r ardaloedd clwydo craidd (yr AGA/Ramsar).
- 6.42 Nodwyd bod y safleoedd canlynol yn Nhabl 3 o faint ac agoswydd digonol i'r AGA a'r Ramsar i'w defnyddio gan adar yr AGA.

Tabl 3. Safleoedd y Cynllun Lleol dros 2ha ac o fewn 5km i AGA/Ramsar Aber Afon Hafren

Cyfeirnod Safle	Enw'r Safle	Unedau	Arwynebedd ha
SH1.7	Yr Hen Waith Nwy, Heol y Fferi	500	3.98
H1.1	Tir yn Ardaloedd 9-12, Llaneirwg	150	4
H2.7	Tir yn Sgwâr Callaghan	315	3.36
H2.6	Heol Hadfield/Marchnad Gyfanwerthu Ffrwythau, Heol	200	4.8
H2.5	Porth Teigr a Phentir Alexandra	2,310	27
H2.4	Doc y Rhath (ochr Ogleddol)	Porthladd, defnydd sy'n gysylltiedig â'r porthladd a datblygiad defnydd cymysg	3.67
H2.1	Pentref Chwaraeon Rhyngwladol	1,000	5.88
H11	Safle sipsiwn a theithwyr – Lawnt Pengam	~ 80 o Leiniau Sipsiwn a Theithwyr	6.8

- 6.43 O'r safleoedd hyn, dim ond Tir yn ardaloedd 9-12, Llaneirwg a nodwyd fel safle Maes Glas, er heb arolwg pellach mae'n anodd asesu lefel yr addasrwydd. Yn gyffredinol, rhain yw'r paramedrau a ddefnyddir i adnabod tir â chysylltiad swyddogaethol posibl. Yn ogystal â safleoedd tai neu ddefnydd cymysg penodol, mae Polisi SP9 (Cefnogi Rôl Porthladd Caerdydd) yn nodi y bydd gweithgareddau cynhyrchu cyflogaeth pellach, gan gynnwys darparu defnyddiau diwydiannol a logistaidd, a chynhyrchu ynni gwyrdd yn cael eu cefnogi. Bydd hyblygrwydd hefyd i ganiatáu defnyddiau hamdden, preswyl a chymysg, o fewn ardaloedd priodol ar yr amod eu bod yn gydnaws â defnyddiau cyfagos (sy'n gysylltiedig â'r porthladd).

⁴⁸ Cyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England. Ar gael yn:

<https://naturalresources.wales/media/673887/severn-estuary-sac-spa-and-ramsar-reg-33-advice-from-ne-and-ccw-june-09.pdf> [Cyrchwyd ar 05/11/2019]

⁴⁹ Nolet B.A., Bevan R.M., Klaassen M., Langevoord O. & van der Heijden Y.G.J.T. 2002. Habitat switching by Bewick's swans: Maximisation of average long-term energy gain? *Journal of Animal Ecology* 71: 979-993.

Ni fanylir ar y defnyddiau hyn yn y Cynllun Lleol ac maent i'w pennu gan y Porthladd yn y dyfodol, ond bydd angen ystyried potensial ar gyfer effeithiau ar gynefin â chysylltiad swyddogaethol fel rhan o'r ceisiadau cynllunio ar gyfer unrhyw gynigion o'r fath. Bydd hyn nid yn unig yn berthnasol i ardaloedd o dir heb eu datblygu sy'n eiddo i'r porthladd, ond gall rhannau o ddociâu'r porthladd eu hun fod â chysylltiad swyddogaethol â safle AGA / Ramsar.

- 6.44 Mae'r potensial i golli cynefin â chysylltiad swyddogaethol sy'n gysylltiedig â safle AGA / Ramsar Aber Afon Hafren yn bodoli nid yn unig yng Nghaerdydd ond ar draws awdurdodau lleol sydd o fewn 5km i'r safle AGA/Ramsar a lle ceir ardaloedd cynefin addas i wasanaethu fel mannau clwydo ar lanw uchel. Mae hyn yn cynnwys Bro Morgannwg, Casnewydd a Sir Fynwy yng Nghymru. Felly, gallai colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol yng Nghaerdydd ddigwydd ar y cyd â cholledion yn yr awdurdodau eraill hynny.
- 6.45 O ystyried bod yr ardal i'r gogledd o'r AGA / Ramsar yn cynnwys cynefin o faint digonol gyda sawl ardal sy'n addas fel tir sydd â chysylltiad swyddogaethol, argymhellir mewnosod y testun canlynol (neu debyg) i bolisi priodol yn y Cynllun Lleol: *'Er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, bydd gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth na fydd datblygiad yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran ei rywogaethau adar cymwys. Er mwyn dangos hyn, bydd angen arolwg i benderfynu ar y cynefinoedd a'r defnydd presennol i wirio a yw'r parcel tir wir yn addas ar gyfer cefnogi poblogaeth sylweddol⁵⁰ o rywogaethau adar dynodedig. Lle mae cynefinoedd yn addas, bydd gofyn cael arolygon o adar nad ydynt yn bridio i benderfynu a yw'r safle a'r tir cyfagos yn ffurfio ardal sylweddol o gynefin cynhaliol. Bydd angen cynnal arolygon adar yn ystod yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn. Os nodir bod cynefin o fewn y safle neu dir cyfagos yn cefnogi poblogaethau sylweddol o rywogaethau adar dynodedig, bydd angen mesurau osgoi a lliniaru, ac mae'n debygol y bydd angen i'r cais cynllunio gael ei asesu drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd penodol i'r prosiect er mwyn sicrhau nad yw'r datblygiad yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd.'*
- 6.46 Deallir bod Cyngor Caerdydd yn cynnig polisi ychwanegol BG7 er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywed y polisi hwn - *'Ni chefnogir cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynnydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA, AGA, Ramsar Aber Afon Hafren, ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd, effaith ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol â rhan o Safle Forol Ewropeaidd (SME) Aber Afon Hafren, oni ellir dangos y gellir cynnal cyfanrwydd y Safle Forol Ewropeaidd neu ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn dilyn y broses ARhC fesul cam'. Yna mae'r polisi yn rhoi esboniad pellach o sut fydd y polisi yn cael ei gyflawni.*

Ansawdd Dŵr

ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

Carthffrwd (Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a Gorfliadau Carthffosydd Cyfunol)

- 6.47 Bydd GTDG sy'n gwasanaethu datblygiad tai a chyflogaeth newydd yn rhyddhau unrhyw garthffrwd ychwanegol wedi'i drin, naill ai'n uniongyrchol i Aber Afon Hafren neu i gyrff dŵr sydd ar yr un llwybr parhad hydrolegol â'r safle Ewropeaidd. Bydd y garthffrwd hon yn arwain at lwytho maetholion ychwanegol i'r dyfroedd aberol. Mewn amgylcheddau arfordirol, ystyrir mai nitrogen yw'r prif faetholyn sy'n cyfyngu ar dwf, er y gall ffosforws fod yn cyd-gyfyngu, yn enwedig mewn dyfroedd trosiannol fel aberoedd. Felly, mae'n rhaid sicrhau na fydd y twf a ddyrennir yn arwain at ddirywiad yn ansawdd y dŵr yn ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren.
- 6.48 Ystyrir bod y dynodiadau AGA / Ramsar ac ACA yn agored i effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr. Er enghraifft, mae'r nodwedd 'aberoedd' yn yr ACA yn sensitif i orfaethu, a all arwain at newidiadau yn nhymeredd dŵr, crynodiadau ocsigen tawdd a thyrfedd drwy broses a elwir yn ewtroffigedd. Gall effeithiau a achosir gan garthffrwd wedi'i thrin leihau ansawdd cyffredinol y cynefin aberol gydag effeithiau canlyniadol ar rywogaethau ACA ac AGA / Ramsar cymwys. Gall newidiadau i ansawdd dŵr hefyd effeithio ar gyflwr y parth rhynglanwol, fel y nodwedd 'fflatiau llaid a fflatiau tywod'. Mae graddau ocsideiddio / lleihad, mesur o'r ocsigen sydd ar gael yn y gwaddod, yn cael dylanwad critigol ar gymunedau isfilodaidd. Gall newidiadau ansawdd dŵr negyddol effeithio ar adar dŵr a rhydyddion AGA / Ramsar yn anuniongyrchol drwy effeithiau rhaeadru yn y we fwyd. Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau cymwys yn bwydo ar greaduriaid di-asgwrn cefn yn y gwaddod ac arno (e.e. Gammarus, Hydrobia, Arenicola, Coroffiwm, ac ati), a gall newid ansawdd dŵr effeithio ar ddigonolrwydd a dosbarthiad y rhain.

⁵⁰ Mae poblogaeth sylweddol yn cael ei dosbarthu fel safle a ddefnyddir yn rheolaidd gan 1% neu fwy o boblogaeth rhywogaethau adar cymwys.

6.49 Fel y manylir ym Mhennod 5, mae pysgod mudol yn ystyriaeth bwysig o ran effeithiau posibl ansawdd dŵr. Mae hyn yn arbennig o wir oherwydd bod pysgod anadromig yn digwydd ar hyd y continwrm cyfan o gyrff dŵr croyw sydd wedi'u cysylltu'n hydrolegol â systemau aberoedd. Mae presenoldeb pysgod cymwys mewn cynefinoedd sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol mewn rhannau uwch afonydd a nentydd yn aml yn golygu eu bod yn digwydd yn agos at gynigion datblygu, lle mae prosesau teneuo / gwanhau naturiol yn annhebygol o glustogi'n ddigonol effeithiau ansawdd dŵr negyddol. Un dalgylch cwrs dŵr o'r fath sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol ac sy'n cefnogi rhywogaethau pysgod ACA / Ramsar yw dalgylch uchaf Nant Glandulas. Yn ôl yr asesiad interim Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr diweddaraf (Cylch 3, 2024), mae gan y corff dŵr hwn statws cyffredinol Gwael, yn benodol oherwydd ei ddosbarthiad Gwael ar gyfer nodweddion ecolegol (e.e. pysgod, macrophyta). Yn ôl adborth diweddar CNC, mae'r system hon o lednentydd eisoes yn profi pwysau lluosog o du datblygu, gan gynnwys sawl digwyddiad llygredd silt o safleoedd tai cyfagos yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi effeithio'n sylweddol ar iechyd ecosystem yr afon. Mae Cynllun Lleol Caerdydd yn dyrannu Safle Strategol F (sy'n cynnwys Tir yn Church Farm a Thir i'r gogledd o Heol Tŷ DrawTy) ar gyfer cyfanswm o 891 o anheddau ar 29.5ha. Mae'r ddau safle yma wedi'u lleoli yn agos at gwrs dŵr Nant Glandulas ac mae ganddynt y potensial i waethygu llygredd dŵr yn ei ddalgylch drwy ddigwyddiadau dŵr ffo wyneb (gweler yr asesiad ym mharagraff 0).

6.50 Mae llygredd nitrogen yn gyfrifol am achosi ystod eang o effeithiau negyddol ar ddyfroedd aberol ac arfordirol. Er mai prif ffynhonnell anthropogenig nitrogen yw dŵr ffo tir (o amaethyddiaeth yn bennaf), daw cyfran sylweddol o garthffrwd wedi'i thrin o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) a gorlifoedd draenau stormydd⁵¹. Mae'n bwysig nodi bod Aber Afon Hafren yn gorwedd o fewn dalgylch sy'n naturiol gyfoethog mewn nitrogen o briddoedd nitrad uchel, yn aml mewn Parthau sy'n Agored i Nitradau. Mae ewtroffigedd yn yr amgylchedd arfordirol yn codi pan fydd dŵr yn cael ei gyfoethogi â nitrogen, y prif faetholyn cyfyngol mewn dŵr môr, er y dylid nodi bod paramedrau eraill fel crynodiadau ffosfforws, y silicad sydd ar gael, lefelau golau a thymheredd hefyd yn ddylanwadol iawn. Dangosodd astudiaeth o aberoedd ar dir mawr Prydain⁵² gydberthynas sylweddol rhwng cyfanswm y llwythi blynyddol a gofnodir o Gyfanswm Nitrogen wedi'i Ocsideiddio (nitrad a nitraid) a chrynodiadau cloroffyl mwyaf y gwanwyn, gan ddangos cysylltiad uniongyrchol rhwng ffynhonnell nitrogen ac ymateb yr ecosystem. Prif ganlyniad llygredd nitrogen mewn dyfroedd trosiannol yw twf gormodol matiau macroalgaid mewn parthau rhynglanwol, a all effeithio ar greaduriaid di-asgwrn cefn, gorchudd llystyfiant morfeydd heli ac ymyrryd â gallu rhydyddion ac adar dŵr i fwydo'n ddigonol. Mae canlyniadau biolegol allweddol eraill yn sgil gorfaethu yn cynnwys:

- Blodau ffytoplancn ac algaid;
- Ansawdd dŵr is (e.e. lefelau uchel o amonia a thyrfedd uchel);
- Colli cymunedau macrobenthos;
- Newidiadau i strwythur y we fwyd; a
- Chreu amodau hypocsig.

6.51 Dŵr Cymru yw'r corff sydd â chyfrifoldeb dros drin carthion domestig a diwydiannol yng Nghaerdydd. Mae'r cwmni wedi cyhoeddi Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (CRhDDG/DWMP) 2024⁵³, sy'n nodi'r camau a gymerir i drin dŵr ffo wyneb a charthffosiaeth a gynhyrchir o ganlyniad i'r CDLIN datblygol sy'n esblygu, gyda'r bwriad o amddiffyn cyfanrwydd yr amgylchedd dŵr. Mae'r CRhDDG yn arfarnu'r her o ddiogelu ansawdd dŵr yng nghyd-destun tueddiadau allweddol yn y dyfodol, gan gynnwys patrymau hinsawdd sy'n newid, halogion sy'n dod i'r amlwg a rhai parhaus (e.e. microblastigau, cyfansoddion fferyllol), pwysau llwythi ffosfforws / nitrogen cynyddol, gorlifiadau carthffos cyfunol (GSCau) a newidiadau rheoleiddiol. Er enghraifft, cynlluniwyd GSCau dros 100 mlynedd yn ôl gyda'r nod o leddfur' pwysau yn y system ddraenio ac amddiffyn pobl rhag llifogydd. Mae GSCau yn rhyddhau dŵr glaw gormodol wedi'i gymysgu â charthffosiaeth amrwd yn uniongyrchol i'r amgylchedd dyfrol, gydag effeithiau negyddol hirdymor posibl ar ansawdd dŵr a bioamrywiaeth gysylltiedig.

⁵¹ Mustow S. (2020). Nitrogen pollution in estuarine and coastal waters. *CIEEM InPractice* **110**: 11-14.

⁵² Nedwell DB, Dong LF, Sage A & Underwood GJC. (2002). Variations of the nutrient loads to the mainland U.K. estuaries: Correlation with catchment areas, urbanization and coastal eutrophication. *Estuarine, Coastal and Shelf Science* **54**: 951-970.

⁵³ Dŵr Cymru. (Tachwedd 2023). Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (2024). Ar gael yn: <https://www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/drainage-and-wastewater-management-plan> [Cyrchwyd ar 04/04/2023]

- 6.52 Mae Caerdydd o fewn ardal cynllunio dŵr gwastraff gweithredol Cymoedd y De-ddwyrain Dŵr Cymru⁵⁴. Mae Cymoedd y De-ddwyrain yn cynnwys 25 dalgylch dŵr gwastraff a phoblogaeth o tua 1,177,064. At ei gilydd, mae 25 GTDG, 305 o Orsafoedd Pwmpio Carthffosiaeth (GPC) a 552 o GSCau ar draws dalgylch basn yr afon. Y prif afonydd sy'n draenio i'r ardal arfordirol o amgylch Dinas Caerdydd yw'r Rhymini, Taf a'r Elái. Ar y cyfan, rhagwelir y bydd poblogaeth Cymoedd y De-ddwyrain yn gostwng i 801,900 erbyn 2050 (gostyngiad o 32%), er yn y tymor byr bydd datblygiadau mawr (fel tai a ddyrennir yn CDLIN Caerdydd) yn arwain at bwysau ychwanegol ar y rhwydwaith dŵr gwastraff.
- 6.53 Defnyddiodd Dŵr Cymru sawl adnodd modelu rhagfynegol i lywio eu CRhDDG. Mae'r Sgrinio Dalgylch yn Seilledig ar Risg (SDSR) yn dangos bod y prif heriau ar gyfer y 25 GTDG yn y rhanbarth yn ymwneud â darparu ar gyfer maint y llif yn hytrach na chydymffurfio ag ansawdd dŵr. Er enghraifft, mae 24 o'r GTDG yn agored i lifogydd carthffosydd mewn tywydd gwlyb eithafol ac mae 13 o'r GTDG yn profi methiannau dalgylch ar adegau o Lif Tywydd Sych (LITS). Mae Asesiad o Risg Sylfaenol a Pheryglon (ARSPH) ar gyfer y flwyddyn 2025 yn dangos bod y risgiau uchaf i ddalgylchoedd basn afonydd yn deillio o lifogydd mewn stormydd eithafol, llygredd dŵr mewn digwyddiadau stormydd, carthffosydd yn chwalu a chydymffurfiaid llif storm GTDG.
- 6.54 Mae Dinas Caerdydd ei hun yn gorwedd o fewn dalgylch cynllunio Afon Rhymini – cydliwiad Nant Cylla i ddalgylch cynllunio Coed y Capel, sy'n cael ei wasanaethu gan bum GTDG. Mae gan y dalgylch cynllunio hwn boblogaeth o 930,875, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o ddatblygiadau trefol yn dalgylch basn afon Cymoedd y De-ddwyrain. Mae ARSPH 2025 a 2050 ar gyfer y dalgylch cynllunio hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ardal mewn perygl o lifogydd a llygredd o ganlyniad i orlwytho hydrologig. Mae'r CRhDDG hefyd yn darparu dosbarthiad o ansawdd cyrff dŵr yn yr ardal gynllunio yn unol â'i briodweddau ffisegol, biolegol a chemegol. Rhagwelir y bydd ei statws ansawdd dŵr ar gyfer 2050 yn 1 (h.y. yr ansawdd dŵr gorau posibl a'r flaenoriaeth isaf ar gyfer ymyriadau), gyda strategaethau buddsoddi wedi'u targedu ar gyfer lliniaru a phwyslais i'w gweithredu yng Nghyfnod Rheoli Asedau (CRhA) 11.
- 6.55 Cynhaliwyd asesiad galw a chyflenwad o gapasiti'r pum GTDG yn yr ardal gynllunio ar gyfer LITS yn y dyfodol a llif tywydd gwlyb hyd at 2050. Yn bwysig, mae'r asesiadau hyn yn ystyried y twf a ragwelir yn y dyfodol, gan gynnwys yr hyn a ddyrennir yn CDLIN Caerdydd. Mae'r canlyniadau ar gyfer asesiad LITS yn dangos y bydd digon o hyblygrwydd yn y GTDG i ddarparu ar gyfer y twf a ddyrannwyd hyd at 2050, gan gynnwys capasiti triniaeth sbâr o 20%. O dan amodau gwlyb mae capasiti i drin 70% o lifoedd tywydd gwlyb yn y dalgylch hyd at 2050, ond rhagwelir problemau diffyg capasiti lleol mewn gweithfeydd unigol ar gyfer targedau triniaeth o 80% a 90% o lifoedd tywydd gwlyb yn y drefn honno. Mae Dŵr Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r prinder capasiti trin o dan lifoedd tywydd gwlyb drwy wella hyblygrwydd y rhwydwaith carthffosiaeth, yn bennaf drwy leihau'r defnydd o ddŵr y pen (i 100l y person y dydd erbyn 2050) a chyfaint y garthffrwd fasnach (25% yn y tymor hir). Ar hyn o bryd, mae 19 o gynlluniau wedi'u cyflwyno yng nghylch cyntaf y cynllun a ffefrir ar gyfer GTDG Bae Caerdydd i leihau nifer y gorlifiadau GSC a digwyddiadau llifogydd eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
- 6.56 Mae'n ymddangos bod y data a gyflwynir yn CRhDDG Dŵr Cymru yn dangos bod yr hyblygrwydd presennol yn y GTDG sy'n gwasanaethu Caerdydd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y twf a ragwelir hyd at 2050, gan gynnwys yr hyn a ddyrennir yn y CDLIN. Ni adroddir bod unrhyw GTDG mewn perygl o fethu'r safonau ansawdd dŵr amgylcheddol gofynnol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gosod Safonau Ansawdd Amgylcheddol (SAA) ar gyfer pob llygrydd dyfrol pwysig nad yw'n wenwynig a rhai gwenwynig, sydd wedi'u gosod yng nghyd-destun targedau ansawdd dŵr eang a bennir yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (CFfD). Mae gofynion ansawdd dŵr cynefinoedd a rhywogaethau cymwys yn sylfaenol wrth lywio'r targedau hyn ac, felly, mae aros o fewn y llifoedd / crynodiadau rhyddhau cydsyniol yn awgrymu na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd Cynefin yn digwydd ynghlwm â newidiadau i ansawdd dŵr. Gan fod CRhDDG Dŵr Cymru yn cael ei wneud ar lefel strategol mae o'i hanfod yn ystyried effaith twf poblogaeth ar draws ardal ei wasanaeth ac felly mae'n gynhenid 'ar y cyd â'.
- 6.57 Yn ogystal â pholisïau datblygu tai eraill, bydd cyflawni Polisïau SP9 Cefnogi Rôl Porth Caerdydd, ac SP8: Cefnogi'r Ardal Fusnes y Canol a'r Bae o reidrwydd yn gofyn am ailddatblygu safleoedd tir llwyd. Mae cyfran sylweddol o Fae Caerdydd ac ardaloedd y porthladd yn dir gwneud a/neu yn safleoedd tirlenwi hanesyddol. Felly, gallai ailddatblygu arwain at halogi safle ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren. Er bod mapio ar gael o safleoedd tirlenwi hanesyddol, gall ymchwiliadau tir ddatgelu ardaloedd halogiad nad oeddent yn hysbys o'r blaen sy'n cynyddu'r risg o halogi Aber Afon Hafren. Fodd bynnag, o dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mae'n anghyfreithlon llygru cyrsiau dŵr, waeth beth yw eu dynodiad.

⁵⁴ Dŵr Cymru. (Tachwedd 2023). Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff 2024 – Crynodeb Dalgylch Basn Afon ar gyfer Cymoedd y De-ddwyrain. 58tt. Ar gael yn: <https://www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/drainage-and-wastewater-management-plan> [Cyrchwyd ar 04/04/2023]

Felly, byddai angen ymchwiliadau a mesurau lliniaru/rheoli fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith fel rhan o unrhyw ailddatblygiad o'r ardaloedd hyn. Ar ben hynny, mae Polisi SP22: Lleihau Effeithiau ar Adnoddau Naturiol, yn gofyn am ddiogelu a chadw ansawdd dŵr. Felly, ystyrir bod y CLI Caerdydd yn cynnwys fframwaith polisi digonol i sicrhau amddiffyniad ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren rhag effeithiau elfion carthion wedi eu trin.

- 6.58 Fel yr amlygir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**, mae'r gwahanol lednentydd sy'n llifo i'r ACA / SPA / Ramsar, sy'n cynrychioli cynefinoedd pwysig sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol ar gyfer pysgod mudol, yn sensitif i ddiwyddiadau llygredd sy'n deillio o ddŵr ffo wyneb. Mae Cynllun Lleol Caerdydd yn dyrannu 9,744 o anheddau newydd net a bydd o leiaf rhai o'r datblygiadau hyn yn cael eu cyflawni ar bellteroedd o gyrsiau dŵr wyneb na ellir eithrio digwyddiadau llygredd o'r fath rhagdynt. Mae barn broffesiynol yn nodi, yn dibynnu ar wahanol ffactorau (e.e. creigiau gwely haen uchaf athreiddedd isel, graddiant llethr am i lawr, dim toriadau mawr i'r llethr, ychydig iawn o nodweddion gwanhau), y gellir disgwyl yn rhesymol i ddŵr ffo wyneb gyrraedd derbynyddion dyfrol trwy lif dros y tir hyd at bellter o 250m o safleoedd datblygu. Gall dŵr ffo o'r fath gynnwys amrywiol lygryddion gwenwynig ac nad ydynt yn wenwynig, gan gynnwys gwaddodion mân, metelau trwm, hydrocarbonau, cemegau organig, maetholion, plaladdwyr/chwynladdwyr a halwynau ffyrdd.
- 6.59 Er bod Cynllun Lleol Caerdydd yn dyrannu gwahanol safleoedd sydd o fewn 250m i gyrsiau dŵr, mae hefyd yn cynnwys geiriad polisi digonol sy'n lleihau'n sylweddol y potensial ar gyfer effeithiau dŵr ffo sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr. Er enghraifft, mae Polisi SP5 (Sicrhau Seilwaith Newydd) yn nodi'n benodol y bydd angen i ddatblygiadau newydd wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer yr holl seilwaith hanfodol, galluogi ac angenrheidiol, gan gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau). Ymhelaethir ar bwysigrwydd y systemau hyn wrth ddiogelu cyrsiau dŵr / adnoddau dŵr, llwybrau dŵr ac atal llifogydd ym Mholisi W1 (Dylunio Sensitif i Ddŵr). Nid yw Cynllun Lleol Caerdydd yn caniatáu datblygu lle byddai hyn yn cynyddu'r risg o lifogydd o ganlyniad i ddŵr ffo ychwanegol a gynhyrchir o arwynebau anhydraidd. Noda Polisi W3 (Perygl Llifogydd) *'Lle bo'n briodol, dylai'r datblygwyr ddangos ei fod wedi ystyried yr angen i ymgorffori mesurau lliniaru perygl llifogydd sy'n ystyriol o'r amgylchedd megis Systemau Draenio Draenio Cynaliadwy (SDCau).'* Mae SDCau yn ddull tystiolaeth sy'n lleihau dŵr ffo wyneb llygreddig trwy bedwar prif fecanwaith, gan gynnwys rheoli ffynhonnell, gwanhau hydrologig, triniaeth ffisegol a thriniaeth fiolegol / cemegol. Er enghraifft, mae SDCau yn caniatáu i ronynnau trymach setlo allan, yn trapio deunyddiau mân, a rhwymo metelau trwm mewn deunydd organig ac arwynebau mwynau (proses a elwir yn arsugniad). Ar ben hynny, mae bioffilmiau microbaidd yn torri lawr yr hydrocarbonau ac yn cymryd maetholion.
- 6.60 Ar ben hynny, o dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mae'n anghyfreithlon llygru cyrsiau dŵr, waeth beth yw eu dynodiad. Felly, byddai'n ofynnol i ddatblygwyr trwy ddeddfwriaeth a thrwy bolisi roi mesurau ar waith i osgoi llygredd, a bod yn destun camau gorfodi pe na fyddent yn gwneud hynny. O ystyried yr uchod, deuir i'r casgliad bod Cynllun Lleol Caerdydd yn cynnwys fframwaith polisi digonol i sicrhau diogelu ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran llygredd dŵr sy'n deillio o ddŵr ffo wyneb.

Swm, Lefel a Llif Dŵr

ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

- 6.61 Mae maint y cyflenwad dŵr croyw i safleoedd aberol ac arfordirol yn dylanwadu'n gryf ar amodau cynefinoedd cyffredinol. Mae ACA Aber Afon Hafren wedi'i dynodi ar gyfer amrywiaeth o gynefinoedd sy'n sensitif i newidiadau yng nghyfraddau llif dŵr. Er enghraifft, mae fflatiau tywod a llaid rhynglanwol yn agored iawn oherwydd y crynodiant ac erydiad posibl i'r gwaddod mewn rhannau allweddol o'r ACA, a all newid y cymunedau biotig sy'n bresennol yn y gwaddod. Gall newidiadau yng nghyfradd y llif dŵr hefyd effeithio ar forfa heli'r lweydydd drwy gynyddu dyddodiad gwaddod a newid y drefn ymddangos (h.y. cyfran yr amser y mae llystyfiant o dan y dŵr neu'n agored i'r aer). Dylanwadir ar forffoleg llystyfiant morfa heli yn bennaf gan ei safle o fewn ffrâm y llanw, sy'n dangos ei fod yn sensitif i newidiadau i faint y dŵr ac effeithiau dysychu.
- 6.62 Mae ACA / Ramsar Aber Hafren hefyd wedi'i ddynodi ar gyfer gwahanol rywogaethau pysgod mudol (h.y. llysywen bendoll y môr mudol, llysywen bendoll yr afon, gwangen) a'i gasgliad pysgod cyffredinol amrywiol. Mae Asesiad Cyflwr Dangosol CNC ar gyfer yr ACA yn tynnu sylw fod y poblogaethau dŵr croyw o llysywen bendoll y môr a'r gwangen mewn cyflwr anffafriol, a bod yr amodau cynefin morol ar gyfer y tair rhywogaeth yn anffafriol. Er nad yw llif hydrolegol isel yn cael ei nodi fel problem bosibl ar gyfer y rhywogaethau lamprei, mae'r asesiad cyflwr ar gyfer y gwangen yn nodi fod llifoedd isel yn cymhlethu effaith rhwystr y strwythurau yn yr afon yn nalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Hafren. Ar y cyfan, o ystyried y dystiolaeth hon a dibyniaeth

hysbys y rhywogaethau pysgod ar gyfeintiau llif dŵr digonol, mae'r datblygiadau a gynigir yng Nghynllun Lleol Caerdydd yn peri risg o ran effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â thynnu dŵr. Mae gan dynnu dŵr i fodloni'r gofyniad dŵr yfed sy'n deillio o'r CDLIN hefyd y potensial i arwain at lusgiant a/neu wrthdaro i'r rhywogaethau pysgod ACA.

- 6.63 Mae'n annhebygol y bydd newidiadau yng nghyfraddau llif dŵr yn yr aber yn effeithio'n uniongyrchol ar adar AGA / Ramsar (e.e. alarch Bewick). Yn hytrach, byddai'r prif effeithiau yn digwydd fel effeithiau anuniongyrchol ar gynefinoedd fforio a chlwydo. Mae'r fflatiau llaid a thywod rhynglanwol, yn ogystal â morfa heli yn 'agored iawn i niwed'. Gall lleihau ansawdd cynefinoedd cynhalio effeithio ar oroesiad hirdymor unigolion a gallai arwain at newidiadau i lefel y boblogaeth yn y pen draw. Yn nodedig, mae newidiadau yng nghyfraddau llif dŵr i'r aber hefyd yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr, megis newidiadau gwaddod, afloywder, cyfundrefn thermol a halltedd (gweler yr adran flaenorol ar gyfer yr AP o'r llwybr effaith ansawdd dŵr).
- 6.64 Dŵr Cymru yw'r cwmni dŵr sy'n cyflenwi dŵr yfed i rannau helaeth o Gymru. Ar hyn o bryd mae'r cwmni'n gweithio ar ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD) 2024⁵⁵, sy'n ymgorffori gwell tystiolaeth o ran gallu adnoddau dŵr i wrthsefyll peryglon a rhwymedigaeth gryfach tuag at wella'r amgylchedd yn nalgylchoedd Cymru. Mae 23 o Ardaloedd Adnoddau Dŵr (AAD) ledled Cymru ac mae Caerdydd yn dod o fewn AAD System Defnydd Cysylltiol y De-ddwyrain (SEWCUS). Mae tystiolaeth waelodlin a nodwyd yn y CRhAD yn dangos y rhagwelir y bydd pedair AAD yn wynebu diffygion yng nghydbwysedd rhwng galw a chyflenwad hyd at 2050 o dan y senario cynllunio a ffefrir⁵⁶, gan gynnwys Tywi Gŵyr, Canol a De Ceredigion, Llŷn Harlech-Y Bermo, a SEWCUS (gan nodi nad oedd gan diffyg gan SEWCUS yn CRhAD19). Mae hyn yn dangos na fydd y lefel bresennol o ddarpariaeth ddŵr yn ddigonol ar gyfer y boblogaeth a ragwelir yn yr AADau hyn, sy'n cynnwys datblygiadau tai a ddarperir o dan CLI Caerdydd. Felly, bydd angen opsiynau eraill i gyrraedd y lefel ofynnol o gyflenwad dŵr, a allai gynnwys datblygu adnoddau newydd neu gynyddu cyfraddau echdynnu o'r adnoddau dŵr presennol. Trwy echdynnu dŵr croyw ychwanegol o gyrrff dŵr mewn parhad hydrolegol ag ACA / AGA / safle Ramsar Aber Afon Hafren, gallai hyn gael effaith ar uniondeb ecolegol y safle.
- 6.65 Yn seiliedig ar y diffyg a ragwelir yn y cyflenwad dŵr yfed, mae Dŵr Cymru yn datblygu eu Cynllun a Ffefrir i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cyflenwi. Prif biler y strategaeth yw rhaglen uchelgeisiol i reoli galw. Er enghraifft, y bwriad yw lleihau gollyngiadau 50% (o'i gymharu â lefelau 2017/18) erbyn 2050. Y llwybr cyflawni allweddol ar gyfer lleihau gollyngiadau yw cyflwyno mesuryddion deallus, gan gyrraedd treiddiad o rhwng 50 a 70% yn ystod CRhA8. Bydd gosod mesuryddion deallus yn galluogi darganfod gollyngiadau a oedd yn anhysbys yn flaenorol drwy reoli gollyngiadau gweithredol ac adrodd gan gwsmeriaid. Y prif lwybrau i fynd i'r afael â gollyngiadau Pibellau Cyflenwi Cwsmeriaid yw trwy gynyddu ymwybyddiaeth o oollyngiadau yn ogystal â lleihau amseroedd rhedeg tapiau. Bydd hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau adnewyddu prif gyflenwad yng nghamau diweddarach cyfnod y CRhAD i adeiladu cadernid y rhwydwaith ymhellach. Mae modelu yn dangos y bydd rheoli galw yn lleihau cyfaint gollyngiadau 163.80MI/d yn 2020/21 i 85.52MI/d yn 2049/50.
- 6.66 Bu'r cwmni hefyd yn ystyried ystod eang o opsiynau o'r ochr gyflenwi ar gyfer AAD SEWCUS, gan gynnwys ailgyflwyno ffynonellau dŵr nas defnyddir ar hyn o bryd a ffynonellau dŵr newydd (e.e. cronfeydd dŵr Grwyne Fawr, Coed Gwent). Fodd bynnag, mae modelu dalgylch a system newydd yn dangos mai'r prif ffactor cyfyngu o fewn yr AAD hon yw'r cysylltedd rhwydwaith presennol (rhwyng asedau storio 'lefel uchel' a 'lefel isel') yn hytrach na diffyg gwirioneddol mewn Allbwn Gosodadwy. Mewn geiriau eraill, er bod digon o ddŵr yfed ar gael i'w ddsbarthu, y prif fater yw sut y gellir storio, trosglwyddo a darparu'r dŵr hwn yn ddigonol mewn ardaloedd penodol (yn enwedig o dan amodau sychder). Felly, gwrthodwyd unrhyw opsiynau ar gyfer ffynonellau dŵr newydd ac mae'r opsiynau a ffefrir ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg galw a chyflenwi yn ymwneud â chysylltedd o fewn system ddsbarthu'r cwmni:
- Cynllun ar gyfer cynyddu capasiti'r orsaf bwmpio Goffa a'r rhwydwaith dosbarthu dŵr cysylltiedig i ganiatáu mwy o gyflenwadau o Waith Trin Dŵr (GTDau) Fferm y Llys yn y system; a
 - Chynllun i ganiatáu gostyngiad mewn llifoedd ym mhrif bibellau Llwyn-onn i sero, a thrwy hynny gynyddu capasiti storio cronfeydd dŵr Taf a'u galluogi i wrthsefyll sychder yn well.

⁵⁵ Dŵr Cymru. (Hydref 2022). Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft 2024. 66tt. Ar gael yn: <https://www.dwrcymru.com/en/our-services/water/water-resources/draft-water-resources-management-plan-2024> [Accessed on the 28/04/2023]

⁵⁶ Mae'r senario cynllunio a ffefrir ar gyfer CRhAD24 yn ystyried lefel gwydnwch gwrthsefyll sychder 1 mewn 200 mlynedd ar gyfer mesurau brys a senario hinsawdd allyriadau canolog.

- 6.67 Yn gyffredinol, bydd y Cynllun a Ffebrir ar gyfer AAD SEWCUS o fudd i'r amgylchedd (gan gynnwys safleoedd Ewropeaidd), yn enwedig yn yr hirdymor. Trwy gyflwyno mesurau rheoli galw, bydd y galw cyffredinol am ddŵr yn gostwng 18 miliwn litr y dydd ar gyfartaledd erbyn 2030. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar adnoddau dŵr ac yn hwyluso mwy o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (RhANG), nod hirdymor Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, bydd yr opsiynau cyflenwi uchod sy'n gwella cysylltedd rhwydwaith yn galluogi'r cwmni i wneud gwell defnydd o adnoddau presennol, yn hytrach na datblygu adnoddau dŵr newydd. Yn amlwg, trwy osgoi'r angen am echdynnu dŵr ychwanegol, mae'r risg i safleoedd Ewropeaidd sy'n dibynnu ar gyfraddau llif digonol yn lleihau.
- 6.68 Ar adeg ysgrifennu, mae'r dystiolaeth yn CRhAD24 yn dangos nad oes gan ddull Dŵr Cymru o reoli dŵr yn y dyfodol unrhyw botensial o effeithio'n negyddol ar ACA / AGA / safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran cyfraddau llif dŵr croyw. Felly, gellir eithrio effeithiau andwyol ar gyfanrwydd yr aber o ran swm, lefel a llif dŵr. Gan fod CRhAD Dŵr Cymru yn cael ei wneud ar lefel strategol, mae'n cymryd i ystyriaeth yn ei hanfod effaith twf poblogaeth ar draws ardal ei wasanaeth ac felly mae'n gynhenid 'ar y cyd â'.
- 6.69 Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, nid yw effeithiau posibl sy'n ymwneud â chyflenwad dŵr cyhoeddus o fewn cylch gwaith polisïau neu gynigion y CDLIN ond bod yn rhaid i'r cwmnïau dŵr perthnasol fynd i'r afael â nhw. Mae gan Dŵr Cymru ddyletswydd i atal llusgiant pysgod wrth dynnu dŵr, gan gynnwys eu cyfnodau bywyd larfa ac ifanc mwy sensitif. Mae'r llwybr effaith hwn fel arfer yn cael ei liniaru trwy ddarparu sgrinio digonol a thrwy weithredu ymagwedd terfynau cyflymder digonol. Er enghraifft, mae sgriniau gyda diamedrau rhwyll o $\leq 2-3$ mm yn atal mynediad corfforol gan larfa pysgod a physgod ifanc i'r system bwmpio. Mae'r cyflymder cymeriant dŵr lle ceir sgriniau pysgod yn cael ei gadw i $\leq 0.25-0.3$ m/s, gan ganiatáu i nofwyr gwannach fel lamprei ifanc osgoi cael eu taro. Mae cymeriant dŵr fel arfer wedi'u lleoli i osgoi graean silio sensitif, tiroedd meithrin a choridorau mudo i leihau'r risg o lusgiant. Pan ystyrir bod risg gweddilliol yn bodoli, mae systemau adfer pysgod wedi'u cynllunio i ddychwelyd pysgod sydd wedi'u dal nôl i gyrsiau dŵr. Ni ddisgwylir i unrhyw ddyraniadau arwain at gymryd dŵr o'r herwydd ac felly'n creu perygl o lusgiant. Ar ben hynny, mae ysgogwyr cyfreithiol ar waith i sicrhau bod y mesurau uchod yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, gall Cyfoeth Naturiol Cymru wrthod cymeradwyo trwyddedu tynnu dŵr o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, os nad oes mesurau diogelu amgylcheddol digonol ar waith. Ar ben hynny, rhaid i bob tynnu dŵr a allai effeithio ar boblogaethau pysgod ACA gael ARhC o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Rhaid i hyn gynnwys asesiad o effeithiau posibl llusgiant a chyflawni mesurau lliniaru i ddiogelu uniondeb Safleoedd Cynefin perthnasol. Yn gyffredinol, gellir gwrthod effeithiau andwyol CDLIN Caerdydd ar uniondeb ACA Aber Afon Hafren o ran llusgiant.

Llygredd Atmosfferig

- 6.70 Cafodd yr holl dwf traffig ar brif ffordd o fewn 200m i'r safleoedd Cynefin perthnasol ei fodolu. Roedd hyn yn cynnwys twf traffig yn sgil Cynllun Lleol Caerdydd a thwf traffig ehangach ar y rhwydwaith ffordd dros gyfnod y cynllun hyd at 2036. Cyflwynir yr holl ganlyniadau modelu yn Atodiad D. Modelwyd ocsidau o nitrogen, amonia a dyddodiad nitrogen. Modelwyd pedair senario:
- Gwaelodlin – y sefyllfa bresennol yn seiliedig ar gyfrif y traffig ar gyfer y ffordd perthnasol.
 - Gwaelodlin y dyfodol – y sefyllfa yn 2036 mewn sefyllfa ddamcaniaethol o ddim twf traffig.
 - Gwneud isafswm - y sefyllfa yn 2036 gan ganiatáu ar gyfer twf traffig ar y rhwydwaith ffordd, gan gynnwys o awdurdodau eraill (e.e. Casnewydd) ond ac eithrio Cynllun Lleol Caerdydd; a
 - Gwneud rhywbeth – yn union yr un fath â'r senario gwneud isafswm ond yn cynnwys Cynllun Lleol Caerdydd.
- 6.71 Mae'r gwahaniaeth rhwng y senarios Gwneud Isafswm a Gwneud Rhywbeth yn nodi cyfraniad Cynllun Lleol Caerdydd, tra bod y gwahaniaeth rhwng y senarios Gwneud Rhywbeth a Gwaelodlin y Dyfodol yn nodi effaith 'ar y cyd' yr holl dwf traffig. Felly, mae'r modelu ansawdd aer yn gynhenid ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.
- 6.72 Mae paragraff 5.26 o ganllawiau Natural England (yr unig ganllawiau manwl ar y mater)⁵⁷ yn nodi '*An exceedance [o lefel neu lwyth critigol] alone is insufficient to determine the acceptability (or otherwise) of a project*'.

⁵⁷ <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/4720542048845824>

Pan ddisgwyllir gormodiant o'r Llwyth Critigol, mae hefyd angen ystyried a fydd y dos a ragwelir yn anghanfyddadwy. Yn unol â pharagraff 4.25 o'r un canllawiau '*... 1% of critical load/level are considered by Natural England's air quality specialists (and by industry, regulators and other statutory nature conservation bodies) to be suitably precautionary, as any emissions below this level are widely considered to be imperceptible... There can therefore be a high degree of confidence in its application to screen for risks of an effect*'.

- 6.73 Fodd bynnag, nid yw'r trothwy o 1% yn drothwy difrod. Mae Paragraff 5.28 o'r canllawiau hynny'n datgan '*In practice, where a site is already exceeding a relevant benchmark, the extent to which additional increments from plans and projects would undermine a conservation objective to 'restore' will involve further consideration of whether there is credible evidence that the emissions represent a real risk that the ability of other national or local measures and initiatives to otherwise reduce background levels will be compromised in a meaningful manner*' [emphasis added].
- 6.74 Goblygiadau polisi SP19: Mae sicrhau Seilwaith Trafnidiaeth Newydd wedi'i ystyried ond nid yw'r cynlluniau a nodwyd yn y polisi hwnnw yn effeithio ar y ffyrdd a fodelwyd yn yr asesiad hwn.

ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

- 6.75 Cafodd un trawslun ei fodelu i safle ACA/AGA/Ramsar, yn yr unig leoliad lle mae ffordd sy'n debygol o gael ei defnyddio gan draffig trwodd o fewn 200m i'r safle yng Nghaerdydd. Trawslun E01 yw hwn. Y cynefin dynodedig mwyaf sensitif i lygredd atmosfferig yw cynefin y morfa heli. Nid yw morfa heli yn cefnogi poblogaethau cen neu bryoffyt sylweddol fel mai'r lefel gritigol briodol yw 3 µgm⁻³. Ar gyfer dyddodiad nitrogen mae gan forfa heli ystod llwyth critigol o 10-20 kgN/ha/yr. Mae rhan isaf yr ystod llwyth critigol yn briodol i'w defnyddio ar gyfer morfa heli uchaf (anaml y caiff ei gorlifo) tra bod rhan uchaf yr ystod llwyth critigol yn briodol ar gyfer y morfa heli is (ei orlifo'n aml). At ddibenion yr asesiad hwn, defnyddiwyd y llwyth critigol ar gyfer y morfa heli is fel rhagofal.
- 6.76 Nid yw ocsidau nitrogen (NOx) yn cael eu nodi fel pryder ar unrhyw drawsllun wedi'i fodelu gan na fydd ar unrhyw adeg ar unrhyw drawsllun yn fwy na'r lefel gritigol ar gyfer pob llystyfiant o 30 µgm⁻³. Gan na ragwelir y caiff y lefel gritigol ei thorri, ni fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd yn codi er gwaethaf twf traffig. Nid eir uwchlaw'r lefel berthnasol o amonia critigol o 3 µgm⁻³ ar unrhyw drawsllun o dan unrhyw senario ar gyfer amonia. Gan na ragwelir y caiff y lefel gritigol ei thorri, ni fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd yn codi er gwaethaf twf traffig.
- 6.77 O ran dyddodiad nitrogen, rhagwelir mai'r dyddodiad 'ar y cyd' ar 10m o ochr y ffordd fydd 0.36 kgn / ha/yr (3.6% o'r llwyth critigol is). Mae hwn yn ormodiant bychan ond ni ellir ei ddiystyru fel un sydd yn ei hanfod yn anghanfyddadwy. Fodd bynnag, mae'r canllawiau uchod yn nodi y bydd '*the extent to which additional increments from plans and projects would undermine a conservation objective to 'restore' will involve further consideration of whether there is credible evidence that the emissions represent a real risk that the ability of other national or local measures and initiatives to otherwise reduce background levels will be compromised in a meaningful manner*'. Yn yr achos hwn rhagwelir gwelliant net mewn dyddodiad nitrogen o 2.49 kgN/ha/yr ar 10m o ochr y ffordd erbyn 2036 heb unrhyw dwf (y gwahaniaeth rhwng Gwaelodlin y Dyfodol (GD) 2036 a Gwaelodlin 2024 yn Atodiad D), neu welliant cyfartalog o 0.2 kgN/ha/yr y flwyddyn.
- 6.78 Felly gellir dod i'r casgliad y bydd effaith ar y cyd twf traffig yn oedi'r rhagolwg gwelliant hwn lai na 2 flynedd, nad yw'n debygol o beryglu'n ymarferol allu mesurau eraill i wella cyfraddau dyddodi nitrogen. Ar ben hynny, mae archwilio ardal morfa heli dan sylw ar GoogleEarth a StreetView yn dangos mai y morfa heli uchaf yn bennaf (os nad yn gyfan gwbl) y byddai llwyth critigol o 20kgN / ha/yr yn berthnasol iddi. Os yw'r llwyth critigol uchaf yn cael ei gymhwyso, byddai'r effeithiau 'ar y cyd' yn is, sef 1.8% o'r llwyth critigol.
- 6.79 Felly ystyrir na fydd twf traffig ar ffordd gyswllt hon yn arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd safle ACA/AGA/Ramsar Aber Hafren.

ACA Coed Ffawydd Caerdydd

- 6.80 Cafodd dau drawslun eu modelu oddi ar yr A470 i ACA Coed Ffawydd Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys E02 ac E03. Yr unig gynefin ACA sy'n bresennol yn y rhan hon o'r ACA (SoDdGA Coetiroedd a Rhan o Ffordd Castell Coch) yw'r coetir ffawydd. Nid yw ocsidau nitrogen (NOx) yn cael eu nodi fel pryder ar unrhyw drawslun wedi'i fodelu gan na fydd ar unrhyw adeg ar unrhyw drawslun yn fwy na'r lefel gritigol ar gyfer pob llystyfiant o 30 µgm⁻³. Gan na ragwelir y caiff y lefel gritigol ei thorri, ni fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd yn codi er gwaethaf twf traffig.
- 6.81 Mae cyfanswm y crynodiadau amonia ychydig yn uwch na'r lefel gritigol ar gyfer cennau, sef tua 2.3 µgm⁻³ ar y pwynt agosaf ar y trawslun (10m o'r ffordd) ym mhob senario. Cyfraniad Cynllun Lleol Caerdydd yw 0.06 µgm⁻³ yn y man agosaf. Mae hyn yn uwch nag 1% o'r lefel critigol ac felly ni ellir ei ddiystyru fel un sy'n anweladwy yn fathemategol. Mae cyfraniad Cynllun Lleol Caerdydd yn gostwng islaw 0.01 µgm⁻³ erbyn 70m. Felly, mae Cynllun Lleol Caerdydd yn effeithio ar 1.9ha (11% o'r SoDdGA 17ha) neu 1.7% o'r ACA 114.45ha (neu 3.7% o'r 51.96ha o goetir ffawydd yn yr ACA) i ryw raddau. Yr achos gwaethaf mewn effaith cyfunol yw 0.15 µgm⁻³ (15% o'r lefel gritigol is neu 5% o'r lefel gritigol uwch).
- 6.82 Fodd bynnag, gellir cymhwyso'r lefel critigol uwch o 3 µgm⁻³ i'r coetir ffawydd os nad oes diddordeb cen penodol yn perthyn i'r coetir dan sylw. Ni chrybwyllir SoDdGA Coetiroedd a Rhan o Ffordd Castell Coch fel SoDdGA cen pwysig mewn ymchwil cyhoeddedig⁵⁸. Ar ben hynny, nid yw'r Cynllun Rheoli ar gyfer yr ACA⁵⁹ yn sôn am gennau na phlanhigion is yn ei weledigaeth na'i ddangosyddion perfformiad ar gyfer yr ACA, ac mae'n sôn bod y coetir yn destun i lefelau golau isel, na fyddai fel arfer yn ffafriol i amrywiaeth helaethach o genau.
- 6.83 Mewn cyfuniad mae nitrogen yn fwy na 1% o'r llwyth critigol o 10 kgn/ha/yr, sef uchafswm o 1.32 kgn/ha/yr (10.32% o'r llwyth critigol) ar y pwynt agosaf at y ffordd. Mae cyfraniad Cynllun Lleol Caerdydd yn unig yn fwy na 1% o'r llwyth critigol sef uchafswm o 0.54 kgN/ha/yr ar ei bwynt agosaf. Fodd bynnag, mae'r canllawiau uchod yn nodi y bydd *'the extent to which additional increments from plans and projects would undermine a conservation objective to 'restore' will involve further consideration of whether there is credible evidence that the emissions represent a real risk that the ability of other national or local measures and initiatives to otherwise reduce background levels will be compromised in a meaningful manner'*. Yn yr achos hwn, rhagwelir gwelliant net mewn dyddodiad nitrogen o 7.68 kgn/ha/yr ar drawslun E03 ar y pwynt agosaf at ochr y ffordd erbyn 2036 heb unrhyw dwf (y gwahaniaeth rhwng Gwelodlin y Dyfodol (GD) 2036 a Gwaelodlin 2024 yn Atodiad D), neu welliant cyfartalog o 0.64 kgN/ha/yr y flwyddyn.
- 6.84 Felly gellir dod i'r casgliad y bydd effaith ar y cyd twf traffig yn oedi'r rhagolwg gwelliant hwn 2 flynedd, nad yw'n debygol o gyfaddawdu yn ystyrion ar allu mesurau eraill i wella cyfraddau dyddodiad nitrogen. Yn ogystal, mae'r cynllun rheoli ar gyfer yr ACA yn nodi ynghylch ansawdd aer *'Dim cyfyngiadau wedi'u gosod. Nid oes tystiolaeth hyd yma bod hyn wedi cael effaith andwyol ar y nodweddion ond efallai y bydd angen mynd i'r afael â hyn yn fanylach yn y dyfodol'*. O ystyried y gellir ystyried ansawdd aer sy'n gysylltiedig â thraffig hefyd yn fater sy'n gwella wrth i ni symud i drydaneiddio'r fflyd, ystyrir felly na fydd twf traffig ar yr A470 yn arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA.

Gwasgfa Arfordirol

ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren

- 6.85 Fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, mae ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren dan fygythiad cynyddol o wasgfa arfordirol, lle mae amddiffynfeydd Cynnal y Llinell tua'r tir yn atal cynefinoedd rhynglanwol rhag mudo i'r mewndir mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr. Mae hyn yn arwain at barhau i golli cynefinoedd ACA sydd hefyd yn bwysig er mwyn cynnal adar AGA / Ramsar sy'n gaeafu.
- 6.86 Mae Dinas Caerdydd, prifddinas Cymru, yn drefol a diwydiannol ddwys. Mae problem gwasgfa arfordirol yn codi yn y rhyngwyneb rhwng datblygiad tua'r tir a'r aber. Mae adolygiad o ddelweddau lloeren yn dangos bod glannau cyfan ar hyd yr aber yn cynnwys seilwaith dynol hanfodol, megis datblygiadau diwydiannol o amgylch Dociau Caerdydd a thai yng nghyffiniau Lawnt Pengam. Er mwyn diogelu asedau dynol pwysig, byddai polisiâu strategol wedi eu gweithredu yn y Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) trosfwaol perthnasol. Mae Dinas Caerdydd wedi'i chynnwys yn ardal Thema CRhT2 Aber Afon Hafren

⁵⁸ <https://naturalresources.wales/media/695442/nrw-evidence-report-369-a-review-of-non-vascular-plant-and-fungal-sssi-features-in-wales-lichens-accessible.pdf>

⁵⁹ <https://naturalresources.wales/media/672066/FINAL%20Cd%20Beech%20Woods%20SAC%20Man%20Plan.pdf>

'Caerdydd', sy'n nodi tair Uned Bolisi CAR1, CAR2 a CAR3. Ar ben hynny, mae Uned Bolisi WEN1 hefyd yn berthnasol i ffyrntiad Caerdydd ac wedi ei gynnwys yma er trylwyredd. Y prif ysgogwyr polisi a nodwyd ar gyfer yr ardal thema hon yw:

- Seilwaith critigol – rheilffordd, is-orsafoedd trydan a dociau;
- Datblygiadau preswyl - Caerdydd;
- Datblygiadau diwydiannol a masnachol – Bae Caerdydd a'r dociau;
- Safleoedd cadwraeth natur rhyngwladol – ACA , AGA a Ramsar Aber Afon Hafren; a
- Llwybrau Llwybr Arfordir Cymru.

- 6.87 Er enghraifft, y Polisiâu a Ffefrir ar gyfer CAR1 (Morglawdd Bae Caerdydd) yw Cynnal y Llinell ar draws y tri chynnod yn y CRhT hyd at 2105. Mae hyn yn awgrymu y bydd Morglawdd Bae Caerdydd yn parhau i fodoli yn yr hirdymor gyda gwaith cynnal a chadw hanfodol i sicrhau ei weithrediad. Y goblygiad a ragwelir o'r ymagwedd polisi ar gyfer CAR1 o ran cadwraeth natur yw y bydd cynefinoedd rhynglanwol yn cael eu colli yn ystod cyfnodau 2 a 3 y CRhT, sy'n cyfateb i ragfynegiadau modelu cynnydd yn lefel y môr. Mae dulliau rheoli traethlin tebyg wedi'u mabwysiadu ar gyfer Unedau Polisi CAR2 a CAR3, lle rhagwelir colli fflatiau llaid rhynglanwol a morfa heli hefyd yng nghyfnodau olaf y CRhT.
- 6.88 Mae CNC wedi cyhoeddi nodyn canllaw ar asesu gwasgfa arfordirol, gyda'r nod penodol o gefnogi datblygiadau sy'n cynnig gwneud gwaith i strwythurau arfordirol sydd â'r potensial o effeithio ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Ymhlith darpariaethau eraill, mae'r nodyn canllaw yn cyflwyno crynodeb o'r colledion cynefinoedd rhynglanwol net a ragwelir dros oes y cyfnod CRhT2, gan gynnwys yr Unedau Polisi a nodwyd uchod. Mae cyfanswm y colledion cynefinoedd a ragwelir (h.y. gwastadeddau tywod a llaid rhynglanwol, a morfa heli) yn yr unedau hyn fel a ganlyn:
- Uned Bolisi CAR1 – Colli cynefin rhynglanwol o 3.34ha;
 - Uned Bolisi CAR2 – Colli cynefin rhynglanwol o 14.7ha;
 - Uned Bolisi CAR3 – Colli cynefin rhynglanwol o 36.1ha; ac
 - Uned Bolisi WEN1 – Colli cynefin rhynglanwol o 102.4ha
- 6.89 Mae'r CRhTau yn ddogfennau cynllunio strategol a rhaid iddynt fod yn destun asesiadau amgylcheddol statudol perthnasol, gan gynnwys ARhC. Digwyddodd hyn ar gyfer CRhT Aber Hafren fel y nodwyd yn y ffurflenni a arwyddwyd gan y llywodraeth ar gyfer y CRhT⁶⁰. Bydd hyn wedi sicrhau nad yw gweithredu'r dulliau rheoli yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran gwasgfa arfordirol. Yn benodol, er mwyn cael caniatâd ar gyfer mabwysiadu, byddai'n rhaid i'r ARhC cysylltiedig fod wedi dangos Dim Dewisiadau Amgen Rhesymol (i gyflawni amcanion tebyg), rhesymau hanfodol tra phwysig er budd y cyhoedd a gwneud iawn Cynefin digonol am y golled a ragwelir dros gyfnod y CRhT. Mae'r un peth yn wir am unrhyw gynlluniau amddiffyn arfordirol sy'n cael eu llunio i weithredu'r polisi CRhT.
- 6.90 Byddai'r Cynllun Lleol ond yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i fwriad polisi'r CRhT gael ei newid (h.y. o 'Adliniad Rheoli' neu 'Dim Ymyriad Gweithredol' i Gynnal y Llinell) gan y byddai hynny'n sbarduno effaith na chafodd ei ystyried wrth ddylunio'r cynlluniau hynny, eu ARhCau ac unrhyw randdirymiadau angenrheidiol. Ni fydd angen newid y polisi CRhT i gyflawni'r Cynllun Lleol.
- 6.91 Felly, ni fydd unrhyw effeithiau andwyol ychwanegol yn sgil CLI Caerdydd ar ACA / AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran gwasgfa arfordirol. Byddai'r profion statudol gofynnol wedi cael eu cynnal a'u bodloni ar lefel gynllunio'r CRhT perthnasol, gan fod hyn yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer pob CRhT cyn iddynt gael eu mabwysiadu.**

⁶⁰ [Item-1-SMP19.pdf](#)

7 Casgliad

- 7.1 Gyda'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i argymhellion, ystyrir bod CLI Caerdydd yn cynnwys fframwaith polisi digonol fel na fyddai unrhyw effaith andwyol yn codi ar safleoedd Cynefin naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Atodiad A Map o Safleoedd Cynefin

Tabl Sgrinio Atodiad B

Tabl 4. Tabl Sgrinio Polisi

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP1: Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy	Mae'r polisi hwn yn gosod strategaeth ger bron i ddarparu 26,400 o anheddau (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) a 32,300 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun.	<p>Ni ellir eithrio Effeithiau Sylweddol Tebygol (ESTau) y polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP1 yn darparu ar gyfer twf cynaliadwy ledled Sir Caerdydd, gan gynnwys darparu 26,000 o anheddau ychwanegol newydd (mae hyn yn cynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) a 32,300 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi SP1 wedi'i gynnwys ar gyfer yr Aseiad Priodol (AP).</p>
Polisi SP2: Cynnal Twf a Gwydnwch Economaidd	Mae'r polisi'n darparu ar gyfer amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth ac mewn gwahanol leoliadau daearyddol a fydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni lefel y twf a nodir yn y cynllun. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fframwaith cryf i ddiogelu rôl tir cyflogaeth y ddinas yn y dyfodol, trwy ddynodi tir a safleoedd cyflogaeth strategol a lleol pwysig. Caiff yr ardaloedd hyn eu nodi ar y map cynigion a byddant yn parhau i fod yn ofynnol at ddibenion cyflogaeth. Bydd angen diogelu ardaloedd o'r fath rhag mathau eraill o ddatblygiad, er mwyn bodloni'r cyflenwad yn effeithiol yn y dyfodol o ran gofod llawr swyddfeydd/ymchwil a datblygu, yn ogystal â thir diwydiannol a warysau, dros gyfnod y cynllun.	<p>Ni ellir eithrio ESTau y polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP2 yn darparu ar gyfer amrywiaeth o fathau o gyflogaeth mewn gwahanol leoliadau daearyddol ledled Sir Caerdydd, gan gynnwys dynodi tir cyflogaeth sy'n bwysig yn strategol ac yn lleol.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP3: Sicrhau Ymagwedd Uwch-gynllunio	<p>Mae'r polisi hwn yn gofyn am ddull uwch-gynllunio ar gyfer safleoedd strategol a datblygiadau dros 100 o gartrefi, neu brosiectau sydd â sawl cam datblygu.</p> <p>Dylai cynlluniau ar gyfer safleoedd datblygu sy'n cydymffurfio â'r meini prawf hyn fod yn unol â'r egwyddorion uwch-gynllunio cyffredinol gan gynnwys:</p> <p>Cwmpasu ardal ddatblygu gyfan;</p> <p>Cael eu cynllunio mewn modd cynhwysfawr ac integredig gan adlewyrchu gwaith partneriaeth sy'n cynnwys yr holl bartïon perthnasol;</p> <p>Bydd datblygiadau preswyl a defnydd cymysg dwysedd uwch yn canolbwyntio ar hyd coridorau trafniadaeth gyhoeddus ac mewn canolfannau cymdogaeth gyda dwysedd is yn cael eu darparu mewn mannau eraill i ddarparu ystod a dewis cyffredinol o dai i ddiwallu gwahanol anghenion; a</p> <p>Bydd yr hyn a gyflwynir yn cynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) syn adolygu cyd-destun y safle a chyfleoedd a chyfyngiadau datblygu gan ddangos esblygiad y meddylfryd dylunio trefol a thirweddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi SP2 wedi'i gynnwys ar gyfer yr AP.</p> <p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP3 yn canolbwyntio ar reoli datblygu ac yn nodi y bydd angen ymagwedd uwch-gynllunio ar gyfer safleoedd strategol presennol ac yn y dyfodol o fwy na 100 o gartrefi. Ni ddyrennir unrhyw nifer na lleoliadau datblygu.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys y polisi hwn yn yr AP.</p>
Polisi SP4: Sicrhau Dylunio Cynaliadwy ac o Safon Dda	<p>mae'r polisi yn eu gwneud yn ofynnol i'r holl ddatblygiadau newydd feddu ar ddyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel a gwneud cyfraniad cadarnhaol i greu cymunedau, lleoedd a gofodau unigryw ac iach drwy: Cymeriad, Eglurdeb, Defnydd Cymysg, Hygyrchedd ac Athreiddedd, Diogelwch cymunedol, Dwysedd, Datblygiadau dylunio cynhwysol, Ailddefnyddio adeiladau nodedig presennol, Mannau agored gwyrdd aml-swyddogaethol a chysylltiedig, integreiddio'n gydymdeimladol y dirwedd, bioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol presennol, Cefnogaeth ar gyfer datblygu effeithlon o ran ynni ac ymatebol i'r hinsawdd, ac Amwynderau Preswyl</p> <p>Bydd cynigion yn cyd-fynd ag unrhyw safonau gofynnol neu'n rhagori arnynt a dylent geisio cyd-fynd â chanllawiau a nodir ar wahân mewn CCAau perthnasol.</p>	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP4 yn sicrhau ansawdd da a dylunio cynaliadwy mewn datblygiadau ledled Sir Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys geiriau ar lwybrau hygyrchedd / athreiddedd, mannau gwyrdd, diogelwch cymunedol, dwysedd a pharmedrau eraill.</p> <p>Nid yw'r polisi yn dyrannu nifer na lleoliadau datblygu.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys y polisi hwn yn yr AP.</p>

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP5: Sicrhau Seilwaith Newydd	Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad newydd wneud darpariaeth neu gyfraniad priodol ar gyfer seilwaith yn unol â Chanllawiau Polisi Cynllunio. Bydd seilwaith o'r fath yn cael ei ddarparu'n amserol i ddiwallu anghenion cymunedau presennol a chynlluniedig ac mae'n cynnwys yr agweddau canlynol y gallai fod eu hangen o ran natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig ac unrhyw dan-darpariaeth bresennol:	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP5 yn sicrhau y bydd datblygiadau newydd yn cyflawni neu'n cyfrannu at lefelau digonol o seilwaith, sy'n cynnwys mathau hanfodol / galluogi ac angenrheidiol o seilwaith. Fodd bynnag, nid yw gofyniad cyffredinol ar gyfer seilwaith ddigonol yn cael unrhyw effaith negyddol ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin. Nid yw'r polisi yn dyrannu nifer na lleoliadau datblygu.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP5 yn yr AP.</p>
Polisi SP6: Sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio	Ceisir rhwymedigaethau cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad ac fe'u hasesir fesul achos yn unol â'r Canllawiau Polisi Cynllunio.	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Polisi rheoli datblygu yw Polisi SP6 sy'n sicrhau rhwymedigaethau cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygiad. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan yr egwyddor gyffredinol hon ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin. Nid yw'r polisi yn dyrannu nifer na lleoliadau datblygu.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP6 yn yr AP.</p>
Polisi SP7: Cefnogi Cynlluniau Creu Lleoedd	Mae'r polisi hwn yn cefnogi creu Cynlluniau Creu Lleoedd cymunedol anstatudol sy'n cefnogi ac yn darparu'r CDLI newydd ar ffurf canllawiau cynllunio atodol.	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP7 yn cefnogi creu cynlluniau lleoedd cymunedol ar ffurf canllawiau cynllunio atodol lle mae hyn yn cyflawni'r Cynllun Lleol.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP7 yn yr AP.</p>
Polisi SP8: Cefnogi Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae	<p>Ystyrir y defnyddiau canlynol yn briodol yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae:</p> <p>B.1.1 Swyddfeydd newydd, defnyddiau hamdden Masnachol o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae;</p> <p>B.1.2 Defnydd preswyl uwchben lefel llawr gwaelod a/neu le nad yw'n arwain at golli uned fasnachol ar y llawr gwaelod o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae.</p> <p>B.1.3 Cyfleusterau manwerthu, hamdden ac ategol gwell o fewn yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog; a</p>	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP8 yn cefnogi Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae drwy ystyried ystod o ddefnyddiau priodol. Fodd bynnag, mae ei bwyslais yn amlwg ar reoli datblygu gan nad yw'n dyrannu nifer na lleoliadau penodol ar gyfer datblygu cyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP8 yn yr AP.</p>

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
	<p>B.1.4 Defnyddiau eraill sydd wedi'u lleoli fwyaf priodol yng nghanol y ddinas, gan gynnwys defnyddiau sy'n cefnogi economi'r nos a'r sin gerddoriaeth</p>	
Polisi SP9: Cefnogi Rôl Porthladd Caerdydd	<p>Bydd Porthladd Caerdydd yn parhau â'i brif rôl drwy ddarparu gweithgareddau cyflogaeth draddodiadol sy'n benodol i borthladdoedd. Cefnogir gweithgareddau cynhyrchu cyflogaeth pellach, gan gynnwys darparu defnyddiau diwydiannol a logistaidd, a chynhyrchu ynni gwyrdd. Bydd hyblygrwydd hefyd i ganiatáu defnyddiau hamdden, preswyl a chymysg, o fewn ardaloedd priodol ar yr amod eu bod yn gydnaws â defnyddiau cyfagos (sy'n gysylltiedig â'r porthladd).</p>	<p>Ni ellir eithrio Effeithiau Sylweddol Debygol (ESTau) y polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP9 yn cefnogi rôl Porthladd Caerdydd yn economi'r awdurdod. Mae hefyd yn nodi amrywiaeth o fathau o gyflogaeth a ganiateir, gan gynnwys cyflogaeth draddodiadol sy'n benodol i borthladdoedd, defnyddiau diwydiannol a logistaidd, a defnyddiau hamdden, preswyl a chymysg. Felly, er nad oes unrhyw leoliadau penodol wedi'u nodi o fewn y porthladd, ystyrir y gallai'r polisi hwn effeithio ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi SP9 wedi'i gynnwys ar gyfer yr Aseiad Priodol (AP).</p>
Polisi SP10: Twristiaeth	<p>Bydd datblygiadau twristiaeth gynaliadwy priodol i adeiladu ar rôl Caerdydd fel Prifddinas a chyrchfan dwristaidd, gelfyddydol, ddiwylliannol a chwaraeon o bwys yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo lle mae cynigion yn cwrdd â holl bolisiau perthnasol eraill y CDLI.</p> <p>Bydd datblygiadau twristiaeth sy'n gysylltiedig â mentrau adfywio yn cael eu hyrwyddo gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arena Dan Do newydd 17,000 sedd ym Mae Caerdydd. • Ailddatblygu Metro Canolog a'r Cei Canolog. • Ailddatblygu Cwr y Gamlas, gan gynnwys ailagor y gamlas a chreu mannau cyhoeddus a masnachol newydd ar Ffordd Churchill. • Felodrom newydd fel rhan o gam datblygu newydd yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. 	<p>Ni ellir eithrio Effeithiau Sylweddol Debygol (ESTau) y polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP10 yn cefnogi datblygiadau twristiaeth gynaliadwy yn Ninas Caerdydd lle maent yn cyd-fynd â'r holl bolisiau perthnasol eraill. Ymhlith y cynigion penodol presennol sy'n cael eu cefnogi mae Arena Dan Do 17,000 o seddi newydd ym Mae Caerdydd, ailddatblygu ardal y Cei a Chwr y Gamlas, a felodrom newydd yn y Pentref Chwaraeon.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p>

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP11: Cynnal Cyflenwad o Fwynau	<p>Bydd Caerdydd yn cynnal cyflenwad cyson a digonol o fwynau ac yn cyfrannu at gyflenwadau agregau rhanbarthol trwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd effeithlon o fwynau a defnyddio dewisiadau amgen i fwynau sy'n digwydd yn naturiol gan gynnwys ailddefnyddio agregau eilaidd; ii. Diogelu cronfeydd wrth gefn mwynau presennol a diogelu adnoddau posibl o galchfaen a thywod a graean rhag datblygiadau a fyddai'n atal eu hechdynnu yn y dyfodol; iii. Cynnal banc tir man lleiaf o 10 mlynedd o gronfeydd wrth gefn o agregau creigiau a ganiateir yn unol â chanllawiau cenedlaethol; iv. Cefnogi ceisiadau priodol ar gyfer echdynnu tywod a graean; a v. Diogelu glanfeydd rhag datblygiadau a fyddai'n atal eu defnydd ar gyfer glanio tywod a graean morol a garthwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi SP10 wedi'i gynnwys ar gyfer yr Asesiad Priodol (AP).</p> <p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP11 yn cynnal cyflenwad o fwynau o fewn Caerdydd. Mae'n hyrwyddo'r defnydd effeithlon o fwynau, yn amddiffyn cronfeydd mwynau presennol a mesurau diogelu glanfeydd rhag datblygu a fyddai'n atal eu defnydd ar gyfer glanio tywod a graean morol a garthir. Er ei fod yn mynegi cefnogaeth eang ar gyfer ceisiadau priodol ar gyfer cloddio tywod a graean, ni sonnir am unrhyw leoliadau na nifer penodol o weithfeydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP11 yn yr AP.</p>

Polisi**Disgrifiad**

Polisi SP12: Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy

Er mwyn sicrhau cymunedau braf i fyw ynddynt, effeithlon, cytbwys a chydlynol, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a thai fforddiadwy, bydd creu cymdogaethau cynaliadwy yn cael eu hyrwyddo a'u gwella. Cyflawnir hyn drwy:

- i. Darparu ystod amrywiol o ddeiliadaethau, mathau a lleoliadau anheddau sy'n diwallu'r ystod lawn o anghenion tai, yn enwedig llety fforddiadwy, llety sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ac unedau teuluol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Bydd darpariaeth hefyd yn cael ei gwneud ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr;
- ii. Cefnogi bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl Canolfannau Ardal a Lleol presennol a'u hadfywiad, gan gynnwys datblygiadau manwerthu a masnachol eraill a thai ar raddfa briodol;
- iii. Annog darparu amrywiaeth lawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd, hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol ar gyfer cymunedau presennol a chymunedau newydd sy'n hygyrch i bawb drwy gerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- iv. Cefnogi adfywiad cymunedau amddifad o fewn y ddinas a sicrhau'r buddion mwyaf posibl y gall cymunedau newydd eu rhoi i gymunedau cyfagos neu amgylchynol;
- v. Annog gwella cymunedau drwy fynediad cydradd gwell at wasanaethau i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, darparu byw â chymorth, darparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg, hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac ehangach i bob grwp mewn cymdeithas, a chreu lleoedd sy'n annog rhyngweithio a chydlyniant cymdeithasol;
- vi. Dylunio i atal troseddu a chreu cymunedau sy'n fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel; a
- vii. Sefydlu rheolaethau llym ar gyfer rhannu cartrefi sy'n bod eisoes, gan gynnwys addasiadau i fflatiau a Thai Amfeddiannaeth.

Effeithiau Sylweddol Tebygol

Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.

Mae Polisi SP12 yn darparu cymdogaethau cynaliadwy, cydlyniant cymdeithasol a thai fforddiadwy. Mae'n canolbwyntio ar reoli datblygu drwy fynd i'r afael â phynciau megis maint anheddau, mathau o anheddau, cyfleusterau hamdden ac addysg, mynediad at wasanaethau, cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon ac eraill. Fodd bynnag, nid yw'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP12 yn yr AP.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP13: Sicrhau Iechyd a Lles a Gwydnwch	Bydd y CDLI yn ceisio hyrwyddo buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a lleihau anghydraddoldebau iechyd a lles drwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach. Bydd yn cyfrannu at iechyd drwy annog ffyrdd iach o fyw, mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch a chefnogi'r adferiad ar ôl y pandemig. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi datblygiadau sy'n mabwysiadu ymagwedd greu lleoedd, gan gynnwys darparu ar gyfer teithio llesol, gofodau cymunedol, ystod o dai yn ôl angen y boblogaeth, mannau gwyrdd a glas hygyrch y gellir eu defnyddio, a lle mae modd manteisio ar fasnach bwyd iach ac amgylcheddau tyfu bwyd.	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Polisi rheoli datblygu yw Polisi SP13 sy'n sicrhau iechyd, lles a gwydnwch. Mae'n ymdrechu i greu lle iachach i fyw ynddo drwy gefnogi amgylcheddau hygyrch / iach, cyfleusterau gofal iechyd hygyrch, teithio llesol a mannau cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP13 yn yr AP.</p>
Polisi SP14: Gwarchod a Gwella Diwylliant a Threftadaeth Adeiledig	Caiff asedau treftadaeth nodedig Caerdydd eu diogelu, eu rheoli a'u gwella, yn benodol olion archeolegol a chymeriad a lleoliad ei Henebion Cofrestredig; ei Hadeiladau Rhestredig; Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig; Ardaloedd Cadwraeth; Adeiladau a Restrir yn Lleol a nodweddion eraill o ddiddordeb lleol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol i hynodwydd gweledol a diwylliannol y ddinas.	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Polisi rheoli datblygu yw Polisi SP14 sy'n diogelu, yn rheoli ac yn gwella asedau treftadaeth unigryw Caerdydd (e.e. olion archeolegol, Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig ac eraill). Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP14 yn yr AP.</p>
Polisi SP15: Sicrhau a gwella cyfleoedd i dyfu'r Gymraeg	Mae ardal Awdurdod Lleol Caerdydd yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol, mae'r CDLI yn cefnogi cynigion datblygu sy'n gwarchod, hyrwyddo a chryfhau buddiannau'r Gymraeg i sicrhau Caerdydd Ddwyieithog. Lle bo'n briodol, disgwylir i gynigion datblygu nodi mesurau cadarnhaol sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg, sy'n cynyddu'r cyfleoedd i siarad yr iaith yn ddyddiol yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru yn achos effeithiau andwyol. Ni chaniateir cynigion defnydd tir sy'n cael effaith andwyol neu anfantais sylweddol ar hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg – oni bai bod mesurau penodol sy'n cryfhau'r effeithiau cadarnhaol a/neu ddileu/liniaru'r effeithiau negyddol.	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae'r polisi hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n annog datblygiadau i chwilio am gyfleoedd i wella buddiannau'r Gymraeg</p> <p>Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP15 yn yr AP.</p>

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP16: Diogelu Lleoliad y Ddinas Drwy Gyfrwng Lletem Las	Er mwyn rheoli ffurf drefol Caerdydd yn strategol ac er mwyn diogelu gosodiad yr ardal drefol, cynigir Lletem Las ar dir i'r gogledd o'r M4. Yn yr ardal hon, ni chaniateir datblygiadau a fydd yn peryglu natur agored y tir hwn. Caiff bioamrywiaeth gadarnhaol a mesurau lliniaru tirwedd a newid yn yr hinsawdd a mesurau rheoli a gwella hamdden anffurfiol eu hannog yn yr ardal hon er mwyn gwella rôl hirdymor yr ardal ymhellach fel adnodd naturiol allweddol a fydd o fudd i'r ddinas.	Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin. Polisi rheoli datblygu yw Polisi SP16 sy'n rheoli ffurf drefol Caerdydd drwy sefydlu Lletem Las ar dir i'r gogledd o'r M4. At hynny, hyrwyddir bioamrywiaeth gadarnhaol a mesurau rheoli a gwella hamdden anffurfiol yn y maes hwn. Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP16 yn yr AP.
Polisi SP17: Rheoli Twf Gofodol Drwy Ffiniau Aneddiadau	Er mwyn rheoli twf gofodol Caerdydd yn strategol, cynigir ffiniau aneddiadau. Ym mhob ardal y tu hwnt i ffiniau anheddiad diffiniedig, a elwir fel arall yn gefn gwlad, bydd rhagdybiaeth gyfatebol yn erbyn datblygu amhriodol.	Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin. Polisi rheoli datblygu yw Polisi SP17 sy'n rheoli twf gofodol drwy ffiniau aneddiadau i atal datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad. Mae hwn yn bolisi cadarnhaol gan ei fod yn diogelu safleoedd maes glas yng nghefn gwlad, y gellir eu defnyddio gan adar AGA / Ramsar sy'n gaeafu. Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP17 yn yr AP.
Polisi SP18: Darparu Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol	Bydd datblygu yng Nghaerdydd yn cael ei integreiddio â seilwaith a gwasanaethau trafndiaeth a disgwylir iddo helpu i: <ol style="list-style-type: none"> 1) Cyrraedd y targed fel bod 75% o'r holl deithiau i gael eu gwneud drwy ddulliau teithio cynaliadwy erbyn 2030 fel y nodir ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd; 2) Gwella llesiant trigolion Caerdydd drwy greu datblygiadau yn unol â'r nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 a Chynllun Llesiant Lleol Caerdydd; 3) Lleihau'r galw am deithio a dibyniaeth ar y car; 4) Galluogi a gwneud y defnydd gorau o ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a llesol; 5) Integreiddio dulliau teithio; 	Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin. Polisi trafndiaeth gynaliadwy a theithio llesol yw Polisi SP18 sy'n sicrhau integreiddio datblygiad â seilwaith trafndiaeth. Er enghraifft, mae'n ceisio lleihau'r galw am deithio a dibyniaeth ar y car, ac yn gwneud y defnydd gorau o ddulliau teithio cynaliadwy / llesol. Gallai hyn fod yn bolisi cadarnhaol ar gyfer safleoedd Cynefin gan y gallai leihau maint y traffig cymudo sy'n ffinio â chynefinoedd sensitif. Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP18 yn yr AP.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
	<ol style="list-style-type: none"> 6) Darparu ar gyfer pobl sydd â gofynion mynediad a symudedd penodol; 7) Gwella diogelwch i bob teithiwr; 8) Gwella swyddogaeth creu lleoedd y seilwaith trafndiaeth; 9) Cynnal a gwella effeithlonrwydd a dibynadwyedd y rhwydwaith trafndiaeth; 10) Gwella ansawdd aer; 11) Cefnogi symud nwyddau ar y rheilffordd neu ar ddŵr; a 12) Rheoli cludo nwyddau ar y ffordd, lleihau eu heffeithiau a lle bo hynny'n bosibl, trosglwyddo nwyddau pellter hir i faniau llai neu feiciau e-gargo ar gyfer danfoniadau'r filltir olaf trwy hybiau aml-ddull. 	
<p>Polisi SP19: Sicrhau Seilwaith Trafndiaeth Newydd</p>	<p>Bydd datblygiadau sy'n dangos cyfraniad ac aliniad â'r prosiectau seilwaith newydd canlynol yng Nghaerdydd yn cael eu cefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Coridor y Gogledd-orllewin • Coridorau'r gogledd a'r de-ddwyrain • Coridor y De-orllewin • Coridor y Gogledd • Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae • Cyfnewidfa reilffordd Llaineirwg gan gynnwys Parcio a Theithio. 	<p>Ni ellir eithrio Effeithiau Sylweddol Debygol (ESTau) y polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP19 yn sicrhau prosiectau seilwaith trafndiaeth newydd yng Nghaerdydd, gan gynnwys y prosiect bws gwib Rhanbarthol, yng Nghoridor y Gogledd-orllewin, Coridorau'r Gogledd a'r De-ddwyrain a Choridor y De-orllewin. Er bod llawer o'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio yn gadarnhaol mewn egwyddor (e.e. cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol), gall llwybrau effaith cysylltiol â safleoedd Cynefin godi yn enwedig yng nghyfnod adeiladu'r cynlluniau. Felly, er nad oes unrhyw leoliadau penodol wedi'u nodi ar gyfer y prosiectau trafndiaeth hyn, ystyrir y gallai'r polisi hwn effeithio ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
		<ul style="list-style-type: none"> • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi SP19 wedi'i gynnwys ar gyfer yr Asesiad Priodol (AP).</p>
<p>Polisi SP20: Sicrhau Gwytwnch o ran yr Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Mewn Datblygiadau Newydd</p>	<p>Er mwyn lliniaru yn erbyn achosion newid yn yr hinsawdd ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, dylai cynigion datblygu ddilyn yr hierarchaeth ynni a dangos sut y maent wedi gweithio tuag at:</p> <ol style="list-style-type: none"> Atal datblygu sy'n gosod baich datgarboneiddio ychwanegol ar y ddinas; Mae dilyn yr egwyddorion Hierarchaeth Ynni, gostwng allyriadau carbon adeiladu a gweithredu i'r dulliau hyfyw isaf ar ôl asesu ystod lawn o opsiynau; Diogelu a chynyddu sincipiau carbon trwy warchod priddoedd a llystyfiant a chynyddu plannu coed; Addasu i oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar lefel strategol a lefel dylunio manwl; Cynyddu effeithlonrwydd ynni a chyflenwad o ynni adnewyddadwy Atal datblygiad sy'n cynyddu perygl llifogydd; a vii Lleihau effaith gwres. 	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP20 yn sicrhau gwytwnch, datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Mae'n gosod ystod o dargedau cadarnhaol, gan gynnwys amddiffyn priddoedd a llystyfiant, cynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau'r perygl o lifogydd. Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP20 yn yr AP.</p>

Polisi

Polisi SP21: Diogelu, Digolledu a Gwella Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth

Disgrifiad

Mae seilwaith gwyrdd (yn cynnwys glas ac awyr) yn darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i ystod o faterion amgylcheddol a chymdeithasol, megis yr argyfwng yn yr hinsawdd, yr argyfwng natur, llifogydd, llygredd aer, ynys wres drefol, iechyd y cyhoedd a lles meddyliol. Mae asedau seilwaith gwyrdd/ bioamrywiaeth yn allweddol i gymeriad, gwerth ac arbenigrwydd Caerdydd a'i hymdeimlad o le. Mae asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd yn cynnwys:

- i. Cefn gwlad ac arfordir sydd heb eu datblygu.
- ii. Safleoedd gwarchoddedig statudol ac anstatudol.
- iii. Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth/gwarchoddedig, a'r ystod gyffredinol o rywogaethau ledled Caerdydd.
- iv. Nodweddion o ran tirlun, daeareg a threftadaeth sy'n cyfrannu at osodiad y ddinas.
- v. Rhwydweithiau hydrolegol gan gynnwys dyffrynnoedd afonydd strategol bwysig yr afonydd Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni, nentydd, llynnoedd a phyllau.
- vi. Coed, coetiroedd a gwrychoedd
- vii. Priddoedd.
- viii. Lleiniau ymyl ffyrdd, ynysoedd cylchfannau a phlannu ar hyd ffyrdd er mwyn sgrinio.
- ix. Llwybrau hamdden a beicio strategol a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.
- x. Ystod o reilffyrdd gweithredol ac anweithredol, sy'n cysylltu cynefinoedd y ddinas drwyddi draw.
- xi. Parciau, caeau chwarae, mannau chwarae gwyrdd a mannau gwyrdd agored â chyfleoedd i chwarae.
- xii. Mannau tyfu gan gynnwys rhandiroedd, perllannau cymunedol a gerddi preifat.
- xiii. Cynefinoedd dŵr cryw megis Bae Caerdydd, Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen, a rhwydwaith o byllau ar hyd a lled y ddinas, a
- xiv. Systemau rheoli dŵr wyneb integredig holistig.

Disgwylir i ddatblygiadau ddiogelu a gwella uniondeb, graddau, amrywiaeth, ansawdd a chysylltedd asedau seilwaith gwyrdd; darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol; darparu "Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth"; a sicrhau y gellir cynnal gwydnwch ecosystemau. Bydd angen Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar gyfer pob cynnig datblygu sylweddol.

Effeithiau Sylweddol Tebygol

Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.

Mae Polisi SP21 yn diogelu ac yn gwella Seilwaith Gwyrdd a Glas Caerdydd a Bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sawl elfen, fel cefn gwlad / arfordir heb ei ddatblygu, dyffrynnoedd afonydd strategol bwysig, safleoedd dynodedig, llwybrau hamdden strategol (e.e. beicffyrdd a'r Hawl Dramwy Gyhoeddus). Yn gyffredinol, mae Polisi SP20 yn allweddol ar gyfer diogelu safleoedd Cynefin (e.e. AGA / Ramsar / ACA Aber Afon Hafren gan ei fod yn gofyn am gynigion datblygu i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol.

Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP21 yn yr AP.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
Polisi SP22: Lleihau'r Effeithiau ar Adnoddau Naturiol	<p>Er budd datblygu cynaliadwy hirdymor Caerdydd, rhaid i gynigion datblygu ystyried yn llawn yr angen i leihau'r effeithiau ar adnoddau naturiol y ddinas a lleihau llygredd, yn benodol yr elfennau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> Gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas; Gwarchod yr adnoddau dŵr a gwella ansawdd dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb, dŵr tanddaear a dyfroedd arfordirol; Lleihau llygredd sŵn ac aer yn deillio o ffynonellau diwydiannol, domestig a thrafnidiaeth ffyrdd a rheoli ansawdd aer; a Adfer halogiad tir trwy ailddatblygu safleoedd halogedig. 	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP22 yn lleihau effeithiau ar adnoddau naturiol, megis ansawdd a maint yr adnoddau dŵr (gan gynnwys dŵr daear a dyfroedd arfordirol). Ar ben hynny, dylid lleihau llygredd aer o ffynonellau diwydiannol, domestig a thrafnidiaeth ffyrdd. Mae hwn yn gadarnhaol ar gyfer safle Cynefin gan ei fod yn mynd i'r afael â dau o'r llwybrau effaith sy'n bwysig i safleoedd Cynefin yn yr awdurdod, gan gynnwys ansawdd dŵr, swm / lefel / llif dŵr a llygredd atmosfferig. Er bod y mesurau lliniaru a ddarperir gan y polisi hwn yn eang, maent yn dal i fod o fudd i safleoedd Cynefin.</p> <p>Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP22 yn yr AP.</p>
Polisi SP23: Rheoli Gwastraff	<p>Caiff gwastraff sy'n deillio o Gaerdydd ei reoli drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> Cefnogi atal ac aildddefnyddio gwastraff a darparu cyfleusterau sy'n defnyddio cynnyrch wedi'i ailgylchu neu ei gompostio. Hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy ychwanegol mewn modd sy'n dilyn yr hierarchaeth wastraff ac egwyddorion rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau gwastraff; y man gosod priodol agosaf; hunangynhaliath a diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd; Annog darparu cyfleusterau triniaeth mewnol ar ardaloedd presennol a dynodedig o ddiwydiant cyffredinol; a Cefnogi darpariaeth a chynnal a chadw trefniadau storio a chasglu rheoli gwastraff cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd priodol; 	<p>Nid oes unrhyw ESTau o'r polisi hwn ar safleoedd Cynefin.</p> <p>Mae Polisi SP23 yn nodi mesurau i gyfyngu ar gynhyrchu gwastraff o Gaerdydd, gan gynnwys cymorth ar gyfer deunyddiau ailgylchu a chompostio yn ogystal ag annog trin gwastraff o fewn datblygiadau diwydiannol.</p> <p>Nid yw'r polisi'n dyrannu unrhyw nifer na lleoliadau o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith negyddol gan y polisi ar Amcanion Cadwraeth safleoedd Cynefin.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes unrhyw lwybrau effaith yn bresennol felly gellir peidio â chynnwys Polisi SP23 yn yr AP.</p>
H1A: Safleoedd Tai Strategol	<p>Mae'r polisi hwn yn dyrannu safleoedd strategol ar gyfer datblygu tai. Mae'r dyraniad hwn yn gyfanswm o 63.56ha o dir, ar gyfer darparu amcangyfrif o 1,675 o anheddau. Archwilir y dyraniadau hyn yn unigol yn nhabl 5-2.</p>	<p>Effeithiau Sylweddol Tebygol</p> <p>Mae Polisi H1A yn dyrannu tir ar gyfer datblygu 1,675 o anheddau ychwanegol newydd (dros gyfnod y cynllun).</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pwysau hamdden Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
		<ul style="list-style-type: none"> • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi H1A wedi'i gynnwys ar gyfer yr Asesiad Priodol (AP).</p>
H1B: Safleoedd Tai Anstrategol	<p>Mae'r polisi hwn yn dyrannu safleoedd anstrategol ar gyfer datblygu tai. Ar adeg ysgrifennu'r polisi hwn mae 7.38ha o dir ar gyfer darparu amcangyfrif o 240 o anheddau. Archwilir y dyraniadau hyn yn unigol yn nhabl 5-2.</p>	<p>Effeithiau Sylweddol Tebygol</p> <p>Mae Polisi H1B yn dyrannu tir ar gyfer datblygu 1,454 o anheddau ychwanegol newydd dros gyfnod y cynllun.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi H1B wedi'i gynnwys ar gyfer yr Asesiad Priodol (AP).</p>
H2: Ardaloedd Adfywio Dan Arweiniad Tai	<p>Nodir y safleoedd canlynol fel ardaloedd adfywio dan arweiniad tai sy'n darparu datblygiad dwysedd uchel, cynaliadwy, defnydd cymysg, gan fwyafu tai fforddiadwy gan ddarparu cyfanswm amcanol o 4.751 o anheddau ar 77.11ha o dir:</p> <p>H2.1 - Y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol H2.2 Ysbyty'r Eglwys Newydd/Safle Velindre H2.3 Parc Busnes Porth Caerdydd (Gorllewin) H2.4 Doc y Rhath (Ochr y Gogledd) H2.5 Porth Teigr ac Phentir Alexandra H2.6 Heol Hadfield H2.7 Sgwâr Callaghan</p>	<p>Effeithiau Sylweddol Tebygol</p> <p>Mae Polisi H2 yn nodi 7 ardal fel ardaloedd adfywio dan arweiniad tai.</p> <p>Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
		<ul style="list-style-type: none"> • Swm, lefel a llif dŵr <p>Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi H2 wedi'i gynnwys ar gyfer yr Asesiad Priodol (AP).</p>
H3: Tai Fforddiadwy	Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu tai fforddiadwy gyda chyfradd tai fforddiadwy o 20% ar safleoedd tir llwyd a chyfradd o 30% ar safleoedd maes glas	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Nid yw'r polisi hwn yn darparu ar gyfer cwantwm o dai, mae'n bolisi rheoli datblygu sy'n sicrhau amrywiaeth o dai lle caiff tai eu darparu.
H4: Addasu yn Fflatiau	Mae'r polisi hwn yn atal trosi eiddo yn fflatiau oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf gan gynnwys amwynder a gofod preswyl addas a dim niwed materol i amwynder preswylwyr presennol a bod cyfleusterau storio pwrpasol a digonol ar gyfer beicio, gwastraff ac ailgylchu.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal trosi adeiladau presennol i ddefnydd preswyl oni bai bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
H5: Tai Amlfeddiannaeth	Mae'r polisi hwn yn caniatáu trosi i Dai Amlfeddiannaeth ar yr amod eu bod yn cwrdd â meini prawf gan gynnwys: Cynigion nad ydynt yn arwain at ormodedd o Dai Amlfeddiannaeth o fewn radiws o 50 metr Caiff cynigion ar gyfer unrhyw addasiadau i Dai Amlfeddiannaeth (HMO's) eu caniatáu dim ond lle ceir: amwynder preswyl addas a gofod i breswylwyr, Dim niwed materol i amwynder trigolion presennol gerllaw Mae cyfleusterau storio beiciau a rheoli gwastraff digonol nad yw'n niweidio amwynder.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal trosi adeiladau presennol i Dai Amlfeddiannaeth oni bai bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
H6: Llety Myfyrwyr	Mae'r polisi hwn yn atal datblygiad llety myfyrwyr oni bai ei fod yn bodloni meini prawf penodol. Mae'r rhain yn cynnwys: Bod wedi'i leoli yn Ardal Fusnes y Canol a Bae neu'n agos at gampysau prifysgol a cholegau presennol. Ystafelloedd unigol o faint priodol a gynlluniwyd yn swyddogaethol. Cynnwys cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol digonol. Bod o ddyluniad o ansawdd uchel.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal datblygiad llety myfyrwyr oni bai bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
H7: Llety Cydfyw	Mae'r polisi hwn yn gosod meini prawf ar gyfer datblygu cynlluniau cydfyw. Mae'r rhain yn cynnwys: Wedi eu lleoli mewn lleoliadau cynaliadwy Yn cynnwys cartrefi i'w rhentu gydag isafswm hyd tenantiaeth o dri mis o leiaf. Cynnwys stiwdios preifat a chyfleusterau a rennir. Darparu digon o storio i feiciau	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n rheoli datblygiad llety myfyrwyr oni bai bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
H8: Newid defnydd Tir neu Eiddo Preswyl	Mae'r polisi hwn yn rheoli trosi neu ailddatblygu eiddo preswyl i ddefnydd arall. Caniateir hyn dim ond os nad yw'r lleoliad bellach yn addas at ddefnydd preswyl neu os oes angen y cynnig at ddefnydd cymunedol angenrheidiol ac na fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar amwynder preswyl.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n cyfyngu ar ailddatblygu tir preswyl. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
H9: Newid Defnydd neu Ailddatblygu at Ddefnydd Preswyl ar Safleoedd Heb Eu Dyrannu	Mae'r polisi hwn yn atal newid defnydd safleoedd segur neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer tai oni bai: Nad oes angen â blaenoriaeth i gadw'r defnydd tir neu'r defnydd adeilad presennol a dim gofyn amgen arall â blaenoriaeth ar gyfer defnydd tir yn lleol; Bydd y tai sy'n deillio o hyn yn foddhaol; Na fydd effaith annerbyniol ar fusnesau sy'n bodoli eisoes; Bydd cyfleusterau cymunedol a thrafnidiaeth angenrheidiol yn hygyrch neu bydd modd eu darparu neu eu gwella'n rhwydd; a Y mae wedi ei asesu o safbwynt perygl halogi'r tir ac nad oes unrhyw berygl annerbyniol i'r defnyddwyr terfynol. Mae'r llety preswyl yn hygyrch drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n cyfyngu ar ailddatblygu safleoedd segur a thir a ddatblygwyd yn flaenorol at ddibenion preswyl. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
H10: Safleoedd Carafanau Teithwyr a Sipsiwn	Mae polisi'n gofyn am safleoedd newydd ac estyniadau ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr i: Gael mynediad trwy gludiant cynaliadwy i seilwaith ffisegol, trafnidiaeth a chymdeithasol angenrheidiol. Bod yn briodol o ran ffactorau amgylcheddol. Fod wedi eu cynllunio gan gyfeirio at ganllawiau llywodraeth. Heb fod ag effaith afresymol ar ardaloedd cyfagos.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n rheoli datblygiad ac ehangu safleoedd sipsiwn a theithwyr. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
H11: Safle Sipsiwn a Theithwyr	Mae'r polisi hwn yn dyrannu tir ar gyfer darparu llety dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn Lawnt Pengam.	Effeithiau Sylweddol Tebygol Disgwylir y byddai'r safle hwn yn darparu tua 80 llain. Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi: <ul style="list-style-type: none"> • Pwysau hamdden • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig • Ansawdd dŵr • Swm, lefel a llif dŵr

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
		Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi SP1 wedi'i gynnwys ar gyfer Asesiad Priodol (AP).
EC1: Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol	Mae'r polisi hwn yn dynodi Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer cadw, datblygu ac ailddatblygu tir at ddibenion cyfleoedd cyflogaeth sy'n canolbwyntio ar y sectorau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, gorsaf drafnidiaeth gyhoeddus ranbarthol integredig, unedau preswyl dwysedd uchel ynghyd ag amrywiaeth o ddefnyddiau cymysg cyflenwol, gan gynnwys defnydd masnachol, hamdden a gwasanaethau lle maent yn cefnogi adfywio, adnewyddu a gwelliannau ac yn cyfrannu at fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd yr Ardal Fenter.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n cefnogi'r defnydd o Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Ganolfan Drafnidiaeth Ranbarthol i'w defnyddio fel tir cyflogaeth. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC2: Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg	Mae'r polisi hwn yn dyrannu tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg ar gyfer safle cyflogaeth strategol sy'n cynnwys hyd at 90,000m ² o ddefnyddiau dosbarth B1, B2, a B8, defnyddiau ategol a seilwaith yn gysylltiedig â; bioamrywiaeth; tirlunio; draenio; cerdded, beicio a dulliau trafnidiaeth eraill, ynghyd ag adeiladu cyfleuster gorsaf drafnidiaeth newydd a gwaith seilwaith cysylltiedig.	Effeithiau Sylweddol Tebygol Disgwyllir y byddai'r safle hwn yn darparu tua 80 plot. Mae amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn gysylltiedig â'r polisi: <ul style="list-style-type: none"> • Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol • Llygredd atmosfferig Oherwydd y llwybrau effaith cysylltiol hyn, mae Polisi EC2 wedi'i gynnwys ar gyfer yr Asesiad Priodol (AP).
EC3: Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchoddedig	Mae'r polisi hwn yn diogelu rhai ardaloedd fel ardaloedd cyflogaeth gwarchoddedig dynodedig. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u diogelu ar gyfer Cyflogaeth Dosbarth Defnydd B a defnyddiau atodol/ategol.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n diogelu rhai ardaloedd ar gyfer datblygu cyflogaeth dosbarth defnydd B a defnyddiau atodol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC4: Darparu Cyfleusterau Ategol i Weithwyr mewn Datblygiadau Busnes, Diwydiannol a Warws	Mae'r polisi hwn yn nodi bod defnyddiau ategol gan gynnwys mannau agored, hamdden, bwyd a diod a chyfleusterau gofal plant yn dderbyniol mewn datblygiadau swyddfa, diwydiannol a warysau ar yr amod bod y cyfleuster yn cael ei fesur yn briodol i ddiwallu anghenion gweithwyr yn y cyffiniau yn y lle cyntaf.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnydd ategol o dir cyflogaeth fod yn briodol i'r gofod cyflogaeth. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC5A: Defnydd Amgen o Dir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchoddedig	Mae'r polisi hwn yn atal defnyddio tir cyflogaeth gwarchoddedig ar gyfer defnyddiau eraill nad ydynt yn ategol oni bai: Nad oes angen cadw'r tir ar gyfer ei ddefnydd dynodedig. Nid oes unrhyw obaith y bydd cyflogaeth yn defnyddio'r safle a/neu fod yr eiddo yn anaddas ar gyfer defnydd o'r fath Na fydd effaith annerbyniol ar fusnesau sy'n bodoli eisoes	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal defnyddio tir cyflogaeth gwarchoddedig rhag defnyddiau eraill oni bai bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC5B: Gofod Gwaith Newydd O Fewn Datblygiad Defnydd	Mae'r polisi hwn yn datgan lle mae meini prawf EC5A (i - iii) wedi eu bodloni, ac ystyrir bod defnydd amgen yn briodol; dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gofod gwaith cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol newydd fel rhan o ailddatblygiad preswyl defnydd cymysg.	Dim Effaith Sylweddol Debygol

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
	Dylai'r gofod cyflogaeth newydd a ddarperir fod ar ffurf adeiladau ar gyfer ymchwil a datblygu, mannau gwaith fforddiadwy, gofod swyddfa hyblyg, diwydiannol ysgafn, dosbarthu lleol, neu safleoedd tebyg a gallent gynnwys safleoedd ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau meddygol neu iechyd.	Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol bod datblygiadau defnydd cymysg mewn ardaloedd cyflogaeth o fath addas. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC6: Diogelu Swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae	Mae'r polisi hwn yn atal defnydd amgen o swyddfeydd ardal busnes y canol a'r bae oni bai nad oes angen cadw'r safle a bod cynigion yn cadw elfen sylweddol o ofod llawr swyddfa a/neu fasnachol fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal defnydd amgen ar swyddfeydd o fewn ardal y canol a'r bae. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC7: Defnydd Amgen o Dir ac Adeiladau Cyflogaeth Nas Clustnodwyd o fewn Polisi EC3 (Tir Cyflogaeth Gwarchoddedig) neu Bolisi EC6 (Diogelu Swyddfeydd yn Ardal Fusnes y Canol a'r Bae)	Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd defnyddiau amgen ar gyfer tir ac adeiladau y tu allan i'r ardaloedd diogelu cyflogaeth dynodedig ar gyfer datblygiad preswyl a/neu ddefnydd cymysg yn cael eu hystyried yn ffafriol ar yr amod bod y safle'n wag neu'n segur ac y bydd cynigion preswyl yn bodloni'r meini prawf gofynnol.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n cefnogi'r defnydd o dir cyflogaeth y tu allan i dir cyflogaeth dynodedig at ddibenion preswyl a defnydd cymysg. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC8: Cynigion Cyflogaeth ar Dir Nas Clustnodwyd at Ddefnydd Cyflogaeth	Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod cynigion cyflogaeth ar gyfer safleoedd heb eu dyrannu: Ni ellir yn rhesymol ei letya ar dir cyflogaeth presennol Yn syrthio o fewn ffin yr anheddiad ac nid oes dynodiad polisi penodol a'u bod yn gydnaws â'r ardal gyfagos	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer datblygu cynigion cyflogaeth ar safleoedd heb eu dyrannu. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC9: Datblygu Gwestyau	Mae'r polisi yn ffafrio cynigion ar gyfer datblygu gwestyau o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a Bae ac o fewn canolfannau dynodedig ar yr amod eu bod ar raddfa briodol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Y tu allan i'r lleoliadau hyn, bydd cynigion ar gyfer datblygu gwestyau mawr, gan gynnwys estyniadau a newidiadau defnydd yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau cynllun lleol eraill.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n ffafrio datblygiad gwestyau i rai ardaloedd. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
EC10: Economi Ddiwylliannol a'r Nos	Mae'r polisi hwn yn ffafrio cynigion ar gyfer defnydd hamdden, adloniant a diwylliannol yn: Canol y Ddinas (Ardal Fusnes Ganolog) Ardal harbwr mewnlol/glannau Bae Caerdydd (Ardal Fusnes y Bae) Y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Glanfa'r Iwerydd a; Canolfannau Ardal a Lleol (ar raddfa a natur sy'n briodol i'r ganolfan). Gwrthsefir colli lleoliadau Dosbarth Defnydd D2 a thafarndai (Dosbarth Defnydd A3) oni ddangosir nad yw'r defnydd bellach yn hyfyw, ac na all y safle ddarparu ar gyfer defnydd tebyg arall.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n ffafrio datblygiad defnydd hamdden, adloniant a diwylliannol mewn rhai ardaloedd. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
D1: Adeiladau Uchel	Mae'r polisi hwn yn gosod gofynion ar ddatblygu unrhyw adeiladau uchel. Mae'r rhain yn cynnwys: Peidio â niweidio cymeriad lleol parciau a gerddi, adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth. Cyfrannu at y treflun a gwella bioamrywiaeth. Gofalu am anghenion y bobl	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer datblygu adeiladau uchel er mwyn sicrhau eu bod yn fuddiol i'r ardal. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R1: Hierarchaeth Manwerthu a Dull Canol Trefi Yn Gyntaf	Mae'r polisi hwn yn nodi hierarchaeth at ddiben canolbwyntio cynigion ar gyfer datblygu manwerthu, i ystyried natur y datblygiad. Mae'r polisi hwn yn cefnogi defnydd gweithredol sy'n cyfrannu at amrywiaeth canolfannau, a datblygiadau preswyl sy'n gwneud defnydd cadarnhaol o loriau uchaf a gofod gwag i ffwrdd o ffryntiadau masnachol.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n nodi hierarchaeth manwerthu ar gyfer y canolfannau ardal a lleol o fewn ardal y cynllun. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R2: Datblygu yn yr Ardal Fanwerthu a Masnachol Canolog	Mae'r polisi hwn yn nodi meini prawf i asesu cynigion datblygu o fewn yr Ardal Fanwerthu a Masnachol Canolog gan gynnwys: Os oes yna golli defnydd siopau o fewn Ffryntiadau Siopa Gwarchoddedig; A yw'r cynnig yn cynnwys manwerthu a defnyddiau eraill sy'n gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canol y ddinas; Mae'r datblygiad yn caniatáu ar gyfer, neu'n cadw'r defnydd ymarferol ar y lloriau uchaf; ac yn Cefnogi adfywio, adnewyddu a gwella canol y ddinas.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynigion o fewn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R3: Ffryntiadau Siopa Gwarchoddedig	Mae'r polisi hwn yn nodi meini prawf i asesu cynigion sy'n arwain at golli defnydd siopau o fewn Ffryntiadau Siopa Gwarchoddedig gan gynnwys: Cydbwysedd defnyddiau presennol nad ydynt yn siopau Gofod llawr siop, lleoliad a'r amlygrwydd a gollir. Y defnydd arfaethedig a'i effaith ar drigolion cyfagos a gerllaw	Dim Effaith Sylweddol Debygol Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynigion sy'n arwain at golli ffryntiadau siopau gwarchoddedig. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R4: Canolfannau Ardal	Mae'r polisi hwn yn ffafrio manwerthu, cyfleusterau a chynigion preswyl mewn canolfannau ardal ar yr amod: Bod y cynnig yn addas ar gyfer y ganolfan dan sylw. Gellir defnyddio lloriau uchaf gydag unrhyw swyddfeydd wedi eu lleoli ar y lloriau uchaf Nid ydynt yn arwain at niwed annerbyniol Cyfleusterau cymunedol sy'n darparu budd sy'n gorbwyso colli gofod manwerthu Mae datblygiadau preswyl wedi'u lleoli i ffwrdd o ffryntiadau	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer datblygiadau manwerthu o fewn canolfannau ardal. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R5: Canolfannau Lleol	Mae'r polisi hwn yn ffafrio manwerthu, cyfleusterau a chynigion preswyl mewn canolfannau lleol ar yr amod: Bod y cynnig yn addas ar gyfer y ganolfan dan sylw. Gellir defnyddio lloriau uchaf gydag unrhyw swyddfeydd wedi eu lleoli ar y lloriau uchaf Nid ydynt yn arwain at niwed annerbyniol Mae cyfleusterau cymunedol yn darparu budd sy'n gorbwyso colli gofod manwerthu	Dim Effaith Sylweddol Debygol Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n gosod meini prawf ar gyfer datblygiadau manwerthu mewn canolfannau lleol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
	Mae datblygiadau preswyl wedi'u lleoli i fwrdd o ffrytiadau masnachol	
R6: Ymagwedd Canol Trefi Yn Gyntaf	Mae'r polisi hwn yn caniatáu datblygiadau manwerthu a masnachol y tu allan i'r canol dim ond lle: Gellir sefydlu bod angen y gofod llawr arfaethedig Na fyddai'r cynnig yn achosi niwed annerbyniol i'r ardal fanwerthu a masnachol canolog, y ganolfan ardal neu leol. Mae'r safle yn hygyrch Nid yw'r cynnig ar dir a ddyrannwyd ar gyfer defnyddiau eraill	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer datblygiadau manwerthu y tu allan i ganolfannau ardal a lleol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R7: Creu Canolfannau Newydd	Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiad canolfannau newydd lle: Mae'r datblygiad o raddfa briodol i ddiwallu anghenion lleol Ni fydd y datblygiad yn cael effaith negyddol ar ganolfannau dynodedig Bydd y datblygiad wedi ei leoli ar hyd coridorau trafniadaeth gyhoeddus ac yn hygyrch drwy	Dim Effaith Sylweddol Debygol Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n gosod meini prawf ar gyfer creu canolfannau newydd. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R8: Defnyddiau Bwyd a Diod	Mae'r polisi hwn yn nodi bod defnyddiau bwyd a diod wedi'u lleoli'n fwyaf priodol yng nghanol y ddinas, ardal yr harbwr mewnol / glannau Bae Caerdydd, a Chanolfannau Ardal a	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n annog datblygiad defnyddiau bwyd a diod i gael eu lleoli mewn canolfannau presennol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
R9: Trosi i Ddefnydd Preswyl	Mae'r polisi yn cefnogi trosi gofod addas gwag uwchben eiddo masnachol yn Ardal y Canol a'r Bae, Canolfannau Ardal a Lleol, i ddefnydd preswyl lle: Mae ffrytiad y llawr gwaelod yn cael ei gadw ar gyfer defnydd masnachol; Gellir cynnal gwasanaethau a diogelwch digonol i'r defnydd(iau) masnachol presennol; Gellir gwneud darpariaeth briodol ar gyfer parcio, mynediad, mynediad i gerddwyr, gofod amwynder, seilwaith gwyrdd a gwaredu gwastraff ynghyd ag unrhyw addasiadau allanol priodol; Nid yw'r defnydd preswyl yn cyfaddawdu ar ddefnydd y llawr gwaelod gan arwain at effaith	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer trosi gofod gwag uwchben eiddo manwerthu yn llety preswyl. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
C1: Cyfleusterau Cymunedol	Mae'r polisi hwn yn cefnogi cyfleusterau cymunedol newydd a gwell o fewn ffin yr anheddiad ar yr amod bod y cyfleuster: yn hygyrch i'r gymuned leol. Na fyddai'n rhagfarnu meddianwyr preswyl nac yn amharu ar yr ardal leol Na fydd y cyfleuster yn arwain at barcio annerbyniol neu broblemau traffig; Wedi'i gynllunio gyda hyblygrwydd a	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gosod meini prawf ar gyfer datblygu cyfleusterau cymunedol newydd. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
C2: Gwarchod Cyfleusterau Cymunedol	Nid yw'r polisi hwn yn cefnogi colli cyfleusterau cymunedol oni bai ei fod yn bodloni un o'r meini prawf canlynol: Mae cyfleuster arall yn y cyffiniau neu bydd un yn cael ei ddarparu. Nid yw'r defnydd bellach yn hyfyw Mae'r ddarpariaeth bresennol uwch law'r gofynion Gellir cadw, gwella neu adfer y cyfleuster cymunedol yn llawn.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n gosod meini prawf ar gyfer yr amgylchiadau lle gellir colli cyfleusterau cymunedol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
C3: Diogelwch Cymunedol/Creu Amgylcheddau Diogel	Mae'r polisi hwn yn gofyn am ddatblygiad newydd i hyrwyddo amgylchedd saff a diogel, gan gynnwys: Gwneud y mwyaf o wyladwriaeth naturiol Cael llwybrau a ffiniau wedi'u diffinio'n dda Cael safon dda o oleuo	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n gofyn am ddatblygiad newydd i greu amgylchedd saff a diogel. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
C4: Cynllunio ar gyfer Ysgolion	Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd y cyngor yn ceisio cyfraniadau lle mae angen cyfleusterau ysgol newydd a gwell, gan ffafrio darpariaeth ar y safle.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi sy'n ceisio cyfraniadau ar gyfer darparu cyfleusterau ysgol gwell lle bo angen hyn. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
HE1: Yr Amgylchedd Hanesyddol	Mae'r polisi hwn yn ymwneud â diogelu asedau treftadaeth Caerdydd. Disgwylir i'r datblygiad warchod neu wella asedau treftadaeth yr effeithir arnynt, gan ddarparu Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, gydag unrhyw niwed i'r asedau treftadaeth yn cael eu cyfiawnhau a'u pwyso yn erbyn y buddion cyhoeddus. Efallai y bydd angen cloddio archeolegol neu gofnodi adeiladau hanesyddol hyd yn oed lle ceir cyfiawnhad. Mae gofynion penodol pellach yn seiliedig ar y math o ased treftadaeth, sef: Archaeoleg a Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, Parciau a Gerddi, adeiladau rhestredig lleol ac asedau treftadaeth heb eu dynodi.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi sy'n ceisio cadw neu wella asedau treftadaeth presennol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
HF1: Iechyd, Llesiant a Datblygiad	Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiadau sy'n annog iechyd a lles drwy ddulliau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: Hyrwyddo mynediad cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy seilwaith Hyrwyddo mesurau diogelwch ar y ffyrdd Darparu cyfleusterau lleol ar gyfer y gymuned, gofal iechyd a gofal cymdeithasol Sicrhau lefelau isel o lygredd aer Ni chaniateir datblygiad os ydynt yn cael effaith annerbyniol ar iechyd	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi cadarnhaol sy'n ceisio gwella iechyd a lles. Byddai mesurau fel hyrwyddo cerdded a sicrhau lefelau isel o lygredd aer yn helpu i leihau effaith llygredd aer ar safleoedd Cynefin Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
HF2: Darparu Rhandiroedd	Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd disgwyl i ddatblygiadau preswyl ddarparu neu gyfrannu at 1 rhandir fesul 45 o anheddau.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi sy'n ceisio darparu rhandiroedd at ddefnydd lleol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
HF3: Darparu Gofod Tyfu Bwyd mewn Datblygiadau Newydd	Mae'r polisi hwn yn disgwyl i ddatblygiadau preswyl ddarparu lle addas ar gyfer tyfu bwyd ar y safle o faint a graddfa briodol sy'n ddiogel i breswylwyr eu defnyddio.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi sy'n ceisio darparu lle ar gyfer tyfu bwyd ar y safle mewn datblygiadau preswyl. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
HF4: Rhandiroedd a Mentrau Tyfu Bwyd	Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiadau sy'n cynyddu argaeledd bwyd a dyfir yn lleol, ac yn atal datblygiad sy'n arwain at gollu rhandiroedd	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi sy'n cefnogi datblygiadau sy'n cynyddu bwyd a dyfir yn lleol. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
WL1: Y Gymraeg	Mae'r polisi hwn yn ceisio diogelu siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd drwy sicrhau bod datblygiad yn ystyried y Gymraeg drwy gael arwyddion dwyieithog a defnyddio enwau Cymraeg fel y bo'n briodol. Yn ogystal, dylent ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a chyfrannu at nodau Cymraeg Lhwodraeth Cymru lle bo hynny'n briodol.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi sy'n cefnogi datblygiadau sy'n cefnogi'r Gymraeg. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
CP1: Diogelu Cefn Gwlad	Mae'r polisi hwn yn cyfyngu ar ddatblygiad y tu allan i ffiniau'r anheddiad i ddefnyddiau cefn gwlad priodol yn unig ac yn parhau'r ardal. Bydd angen asesiad tirwedd a chynllun tirlunio ar gyfer datblygiadau sylweddol. Bydd yn rhaid i gynigion ar gyfer tai newydd, arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig gydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n cyfyngu ar ddatblygiad y tu allan i ffiniau'r anheddiad. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
CP2: Addasiadau, Estyniadau ac Adeiladau Amnewid yng Nghefn Gwlad	Mae'r polisi hwn yn gwrthsefyll addasu, ehangu ac amnewid adeiladau cefn gwlad oni bai eu bod yn bodloni meini prawf penodol. Ar gyfer addasiadau, rhaid i'r addasiad fod yn gadarn yn strwythurol, ni ddylai newid yr adeilad presennol yn faterol neu andwyo'r cefn gwlad, dylai fod yn addas i'w ddefnyddio a ddim yn arwain at alw am adeiladau ychwanegol. Rhaid i estyniadau fod yn is-ran o'r adeilad presennol; a pharchu graddfa, cymeriad a dyluniad rhan wreiddiol yr adeilad. Ni ddylai Adeiladau Amnewid arwain at fwy o effaith ar yr ardal o ran graddfa a'r dyluniad arfaethedig, dylai fod ar ôl troed presennol yr adeilad oni bai bod cyfiawnhad, ni ddylai ddisodli adeiladau â hynodwydd.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n cyfyngu ar addasu, ehangu ac amnewid adeiladau cefn gwlad. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
CP3: Gwarchod Tirwedd	Mae'r polisi hwn yn atal datblygiad a fyddai'n peri niwed annerbyniol i gymeriad ac ansawdd y dirwedd a gosodiad y ddinas.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal datblygiad a fyddai'n peri niwed annerbyniol i gymeriad ac ansawdd y dirwedd a gosodiad y ddinas. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
CP4: Coridorau Afonydd	Mae'r polisi hwn yn atal datblygiad a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Goridorau Afon Elái, Taf a Rhymni. Mae hyn yn cynnwys trefoli canfyddedig a gwarchod seilwaith gwyrdd a nodweddion allweddol eraill.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi rheoli datblygu sy'n atal datblygiad a fyddai'n achosi niwed i'r coridorau afonydd a enwir. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
BG1: Safleoedd Dynodedig	Dywed y polisi hwn y caniateir datblygiadau dim ond os nad ydynt yn andwyl i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur rhyngwladol neu genedlaethol neu niwed annerbyniol i safleoedd a ddynodwyd yn lleol.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi cadarnhaol sy'n egluro ymrwymiad i gyflawni rhwymedigaethau statudol i sicrhau y gwarchodir Safleoedd Cynefin.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
	<p>Ar gyfer pob safle lle mae potensial am niwed, caniateir datblygu dim ond pan fo digolledu a mesurau lliniaru priodol a chymesur yn nodi nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal neu'r nodwedd.</p> <p>Ymgynghorir â Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol wrth ystyried safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol. Efallai y bydd hefyd angen ystyried Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - gan gynnwys sgrinio, asesiad priodol neu rannirymiaadau.</p> <p>Bydd yr holl fesurau lliniaru ar gyfer safleoedd o'r fath yn realistig ac yn gyflawnadwy yn unol ag arfer gorau a'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael.</p>	Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
BG2: Rhwydweithiau Ecologol a Nodweddion o Bwys i Fioamrywiaeth	<p>Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad beidio peri niwed annerbyniol i nodweddion sy'n bwysig i fflora a ffawna gwyllt a seilwaith gwyrdd o bwys.</p> <p>Mae'r polisi yn rhoi blaenoriaeth benodol i warchod, ehangu, cysylltedd, rheolaeth a gwella cynefinoedd lled-naturiol a gedwir.</p>	<p>Dim Effaith Sylweddol Debygol</p> <p>Mae hwn yn bolisi cadarnhaol sy'n sicrhau y gwarchodir fflora a ffawna gwyllt o bwys.</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.</p>
BG3: Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth	<p>Mae'r polisi hwn yn atal datblygiadau a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar hyfywedd cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol a'r rhai o werth sylweddol i Gaerdydd.</p> <p>Dim ond lle mae'r datblygiad yn drech na'r gwerth cadwraeth/ecolegol natur y cânt eu caniatáu, a'r datblygwr yn dangos nad oes dewis amgen boddhaol a bod mesurau lliniaru yn addas.</p>	<p>Dim Effaith Sylweddol Debygol</p> <p>Mae hwn yn bolisi cadarnhaol sy'n atal datblygiad a fyddai'n achosi niwed i rywogaethau a warchodir yn gyfreithiol a'r rhai sydd o arwyddocâd lleol.</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.</p>
BG4: Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth a'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd	Mae'r polisi hwn yn gofyn am Ddatganiadau Seilwaith Gwyrdd (SG) ar gyfer datblygiadau newydd sy'n nodi Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth.	<p>Dim effaith Sylweddol Debygol</p> <p>Mae hwn yn bolisi amgylcheddol cadarnhaol sy'n gofyn am ddatblygiadau i ymgysylltu â Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth.</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn gosod unrhyw gwantwm na dyraniad ar gyfer datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.</p>
BG5: Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd	Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion helpu i warchod a gwella fforest gynaliadwy ac yn atal datblygu sy'n arwain at dynnu coed yn barhaol a/neu niwed sylweddol i goed, coetiroedd a gwrychoedd oni ddangosir yn glir y gellir lliniaru yn erbyn hyn a/neu sicrhau manteision amwynder cyhoeddus sylweddol wedi'u diffinio'n glir.	<p>Dim effaith Sylweddol Debygol</p> <p>Mae hwn yn bolisi amgylcheddol cadarnhaol sy'n cefnogi cadw coed trefol a gwrychoedd.</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn gosod unrhyw gwantwm na dyraniad ar gyfer datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.</p>
BG6: Priddoedd	Mae'r polisi hwn yn gofyn i gynigion ddiogelu a gwella adnoddau pridd pwysig. Ni chaniateir selio parhaol na chludo priddoedd gweithredol ymaith oni ddangosir yn glir y bydd hyn yn sicrhau buddion amwynder cyhoeddus sylweddol fydd wedi eu diffinio'n glir.	<p>Dim effaith Sylweddol Debygol</p> <p>Polisi rheoli datblygu yw hwn sy'n ceisio sicrhau bod adnoddau pridd pwysig yn cael eu diogelu.</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn gosod unrhyw gwantwm neu ddyraniad ar gyfer datblygu ac felly nid yw'n debygol o gael effeithiau sylweddol.</p>

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
BG7: Aber Afon Hafren a Phwysau Hamdden ar Goed Ffawydd Caerdydd	Ni chefnogir cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA,AGA,Ramsar Aber Afon Hafren, ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd, cael effaith ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol o ran Safle Forol Ewropeaidd (SME) Aber Afon Hafren, oni ellir dangos y gellir cynnal cyfanrwydd y Safle Morol Ewropeaidd neu ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn dilyn y broses ARhC fesul cam.	Dim Effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi cadarnhaol sy'n ceisio rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad ARhC ar waith.
T1: Blaenoriaethu Cerdded a Beicio	Mae'r polisi yn nodi y bydd caniatâd cynllunio ond yn cael ei roi ar gyfer datblygiadau sy'n lleihau'r angen am deithio a'r gosodiad wedi'i gynllunio i wneud y mwyaf o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n ymgorffori cyfleusterau ac egwyddorion teithio llesol, gan gynnwys: Rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio diogel, cyfleus a deniadol; Cysylltiadau ac estyniadau i Rwydwaith Beicio Caerdydd a llwybrau cerdded hamdden; Cyfleusterau ategol; Bydd y Cyngor hefyd yn cefnogi datblygiadau sy'n hyrwyddo'r newid i foddau mwy cynaliadwy a mesurau arloesol i oresgyn rhwystrau presennol i deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy.	Dim effaith Sylweddol Debygol Mae hwn yn bolisi cadarnhaol sy'n cefnogi datblygiad seilwaith cerdded a beicio. Nod y polisi hwn yw cefnogi teithio llesol a fyddai'n debygol o arwain at ostyngiad mewn traffig cerbydau ac felly'n lleihau effeithiau llygredd atmosfferig ar Safleoedd Cynefin. Nid yw'r polisi hwn yn gosod unrhyw gwantwm na dyraniad ar gyfer datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
T2: Gwelliannau Strategol i Gludiant Cyflym, Coridorau Bws a Gwelliannau Bws	Mae'r polisi hwn yn datgan y dylai datblygiad a fydd yn ychwanegu at y galw ar drafndiaeth gyhoeddus gyfrannu at welliannau i'r seilwaith rhwydwaith bysiau. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i wella rhwyddineb ac ansawdd mynediad i mewn ac o amgylch Caerdydd ar drafndiaeth gyhoeddus, drwy: Sicrhau bod gofod ffordd yn cael ei reoli'n effeithlon i gefnogi trafndiaeth gyhoeddus Gwella gallu ac atyniad Parcio a Theithio; Hyrwyddo mynediad bws/cludiant cyflym rhwng prif fannau cychwyn a chyrchfannau. Sicrhau bod digon o le yn cael ei ddarparu yn enwedig yng nghanol y ddinas a	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor weithio i wella mynediad i Gaerdydd ar drafndiaeth gyhoeddus. Dylai hyn helpu i leihau nifer y cerbydau a thrwy hynny leihau effaith llygredd atmosfferig. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
T3: Trafnidiaeth Rheilffyrdd	Mae'r polisi hwn yn cefnogi cynigion sy'n gwella rhwydwaith rheilffyrdd Caerdydd sy'n bodloni meini prawf gan gynnwys hygyrchedd ac integreiddio i'r ardaloedd cyfagos	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n gofyn am welliannau i gefnogi Rhwydwaith Rheilffyrdd Caerdydd. Dylai hyn helpu i leihau nifer y cerbydau a thrwy hynny leihau effaith llygredd atmosfferig. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
T4: Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth	Bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd ddangos sut bod yr angen i deithio yn cael ei leihau ac y gellir diwallu anghenion teithio hanfodol drwy ddefnyddio moddau trafndiaeth heb law'r car preifat. Caiff datblygu ei leoli lle: i. Gellir ei wasanaethu trwy ddulliau teithio amgen ar wahân i'r car, megis trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio; ii. Gall y traffig a gaiff ei gynhyrchu ei ysgwyddo gan welliannau presennol neu rai hysbys i briffyrdd a lle na fyddant yn creu nac yn ychwanegu at broblemau diogelwch, tagfeydd neu ddiffrod i'r amgylchedd;	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gael ei leoli mewn safleoedd lle mae'n cefnogi ac y gellir ei wasanaethu gan bolisi buddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor weithio i wella mynediad i Gaerdydd trwy drafndiaeth gyhoeddus. Dylai hyn helpu i leihau nifer y cerbydau a thrwy hynny leihau effaith llygredd atmosfferig. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
	<p>iii. Yn achos datblygiad preswyl, bydd cyfleusterau lleol hanfodol presennol neu newydd o fewn pellter cerdded cyfleus, a dylent fod o fewn pellter cerdded o 400m i wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.</p> <p>iv. Mae'n gwneud y defnydd gorau o'r rhwydweithiau trafndiaeth presennol gan ystyried cynigion buddsoddi mewn trafndiaeth yn y dyfodol, er mwyn gwella hyfywedd gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a rhai'r dyfodol a nodwyd yn Strategaeth Trafndiaeth Caerdydd a'r Papur Gwyn;</p> <p>v. Bydd yn gwella hygyrchedd i swyddi a gwasanaethau presennol a newydd drwy ddulliau trafndiaeth nad ydynt yn ddibynnol ar geir; a</p> <p>vi. Bydd datblygiadau sy'n creu nifer fawr o symudiadau teithwyr yn cael eu lleoli mewn prif ardaloedd trefol neu mewn lleoliadau sy'n cynnig mynediad cyfleus ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.</p> <p>Dylai dyluniad datblygu:</p> <p>vii. Helpu i greu lleoedd sy'n saff, yn ddiogel ac yn ddeniadol – sy'n lleihau'r cwmpas ar gyfer gwrthdaro rhwng cerddwyr, beicwyr a cherbydau, yn osgoi annibendod stryd diangen, ac sy'n ymateb i gymeriad lleol a safonau dylunio;</p> <p>viii. Caniatáu danfon nwyddau yn effeithlon, a hwyluso mynediad ar gyfer cerbydau gwasanaeth a'r gwasanaethau brys;</p> <p>ix. Caiff gwefru cerbydau, gwasanaethau rhannu cerbydau a cherbydau allyriadau tra isel eraill ei alluogi mewn lleoliadau diogel, hygyrch a chyfleus o fewn y datblygiad; ac</p> <p>x. Ni fyddant yn creu niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon o ran llwybrau cerddwyr a beicio, hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau ceffylau, trafndiaeth gyhoeddus a'r briffordd.</p> <p>Ni chaniateir datblygu nad yw'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llwybr Nwyddau a'r Gyfnewidfeydd Cymru, Strategaeth Cymru a'r Papur Gwyn a'r Strategaeth Cymru a'r Papur Gwyn.</p>	
T5: Cyfnewidfeydd Trafndiaeth	<p>Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygu:</p> <p>Gorsafoedd rheilffordd newydd sy'n cadw at bolisi T4;</p> <p>Mesurau i gefnogi cyfnewidfeydd rhwng gwasanaethau bysiau lleol; Cyfleusterau parcio a theithio wedi'u lleoli'n strategol;</p> <p>Cyfleusterau teithwyr o ansawdd uchel;</p> <p>Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu, parcio coetsys, tacsis a gollwng teithwyr; Cyfleusterau ar gyfer parcio dros nos gan lorïau a throsglwyddo</p>	<p>Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol</p> <p>Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n gofyn am gefnogaeth i ddatblygu gwelliannau i gyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus. Dylai hyn helpu i leihau nifer y cerbydau a thrwy hynny leihau effaith llygredd atmosfferig.</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.</p>
T6: Rhwydwaith 'Metro' Dinas-ranbarth Caerdydd	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd y cyngor yn ceisio hwyluso datblygiad rhwydwaith 'Metro' o lwybrau a gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus integredig yng Nghaerdydd a chysylltu'r ddinas â rhanbarth ehangach de-ddwyrain Cymru, gan gynnwys llwybrau rheilffordd, tramiau, bysiau, a llwybrau teithio lesol.</p> <p>Bydd y metro yn cyflwyno mesurau digidol i gefnogi mentrau 'Symudedd fel Gwasanaeth' (SFG/MAAS) ac uwchraddio signalau traffig a seilwaith digidol. Bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n ymateb i'r newidiadau hyn neu'n eu hymgorffori yn y dyfodol.</p>	<p>Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol</p> <p>Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n gofyn i'r cyngor weithio i ddatblygu rhwydwaith metro o gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a gweddill De Cymru. Dylai hyn helpu i leihau nifer y cerbydau a thrwy hynny leihau effaith llygredd atmosfferig.</p>

Polisi	Disgrifiad	Effeithiau Sylweddol Tebygol
		Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
T7: Gwefru Cerbydau Trydan	Mae'r polisi hwn yn nodi y dylid gosod gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol lle nad ydynt yn rhwystro symudiad moddau eraill neu'n cael effaith negyddol arnynt hygyrchedd neu anghenion defnyddwyr sy'n agored i niwed.	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n cefnogi gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Dylai hyn helpu i annog symudiad tuag at gerbydau trydan a thrwy hynny leihau effaith llygredd atmosfferig. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
OS1: Gwarchod Mannau Agored	Mae'r polisi hwn yn atal datblygiadau ar fannau agored oni bai: Na fyddai'n achosi diffyg o ran mannau agored Nad oes gan y man agored unrhyw werth amwynder Nid yw'r man agored o unrhyw ansawdd Neu mae darpariaeth foddhaol i wneud iawn. Ym mhob achos nid yw'r datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol ar seilwaith	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n amddiffyn mannau agored presennol yng Nghaerdydd. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
OS2: Darparu ar gyfer mannau agored, hamdden awyr agored, chwarae plant a chwaraeon	Ceisir darpariaeth ar gyfer mannau agored, hamdden awyr agored, chwaraeon a chwarae i blant ar y cyd â phob datblygiadau preswyl newydd. Nod y polisi hwn yw sicrhau darparu neu wella mannau agored a gweithgareddau hamdden, chwaraeon a chwarae awyr agored priodol eraill gyda phob datblygiad preswyl newydd dros 5 uned a darparu mannau agored swyddogaethol ar y safle gyda phob datblygiad preswyl newydd dros 20 uned. Mae'r maint priodol o fannau gwyrdd aml-bwrpas wedi ei seilio ar o leiaf 2.43 hecтар o fannau agored swyddogaethol ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth a ragamcennir. Bydd pob darpariaeth mannau agored arall, gan gynnwys mannau gwyrdd naturiol a lled naturiol, yn ychwanegol at ddarparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol.'	Dim Effeithiau Sylweddol Tebygol Mae hwn yn bolisi buddiol sy'n ceisio sicrhau bod mannau awyr agored ac ardaloedd hamdden yn cael eu darparu ar gyfer datblygiadau newydd. Mae hyn yn fuddiol gan y bydd mwy o ofod awyr agored ar gael yn helpu i leihau'r cynnydd posibl mewn pwysau hamdden. Nid yw'r polisi hwn yn dyrannu unrhyw safleoedd neu gwantwm datblygu ac felly nid oes iddo effeithiau sylweddol tebygol.
